

Cynllun Blynyddol Ofcom

Ein rhaglen waith
ar gyfer 2019/20



Cyhoeddwyd 25 Mawrth 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Cyd-destun y Farchnad	3
3. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20	7
4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau	16
5. Cyflawni ein nodau ar draws y DU	23
6. Sicrhau gwerth am arian	27

Atodiad

A1. Beth rydym yn ei wneud	28
A2. Cynllun gwaith ar gyfer 2019/20	30
A3. Ymatebion i'r ymgynghoriad	44

1. Trosolwg

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn dilyn ymgynghoriad ynghylch ein cynlluniau arfaethedig, a ddaeth i ben ar 8 Chwefror 2019. Mae'r cynigion yn ystyried y dyletswyddau a roddwyd i ni gan Senedd Prydain, y marchnadoedd rydyn ni'n eu rheoleiddio a'n blaenoriaethau strategol.
- 1.2 Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn adlewyrchu'r adborth a gafodd ei gyflwyno yn ystod y broses ymgynghori. Cawsom adborth gan bobl o bob cwr o'r DU, gan gynnwys digwyddiadau cyhoeddus yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Cawsom ymatebion ysgrifenedig hefyd.
- 1.3 Yn ystod ein cyfnod ymgynghori, cyhoeddodd y Llywodraeth ddatganiad drafft o'i blaenoriaethau strategol ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli sbectrwm radio a phost. Rydyn ni'n esbonio yn Adran 3 sut rydyn ni wedi ystyried y datganiad drafft hwn wrth lunio ein cynllun.
- 1.4 Isod rydyn ni'n rhoi trosolwg o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae adrannau 3 a 4 yn cynnwys rhagor o fanylion am y blaenoriaethau hyn, ac am ein gwaith rhaglennol, ac mae adran 5 yn cynnwys prif bwyntiau ein gwaith penodol yn y gwledydd. Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein cynllun gwaith ehangach.

Ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf

1. **Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi:** byddwn yn helpu i hybu buddsoddiad a gwella darpariaeth band eang a symudol ar draws y wlad, er mwyn i bawb elwa o'r gwasanaethau byddan nhw'n eu darparu.
2. **Tegwch i gwsmeriaid:** byddwn yn sicrhau bod cwsmeriaid band eang, ffôn a theledu yn cael eu trin yn deg, yn enwedig pobl agored i niwed.
3. **Cefnogi darlledu yn y DU:** byddwn yn helpu ein darlledwyr i ffynnu, ac yn sicrhau bod cynulleidfaoedd teledu a radio yn cael gwasanaeth da drwy raglenni o ansawdd uchel.
4. **Codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein:** byddwn yn rhannu ein harbenigedd o ran diogelu cynulleidfaoedd rhag niwed a byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymwneud â chynnwys ar-lein. Byddwn yn parhau i gyhoeddi ymchwil o dan ein dyletswyddau presennol i helpu pobl i ddefnyddio a deall y cyfryngau a chyfathrebiadau.
5. **Cefnogi defnyddwyr a'r diwydiant drwy Brexit:** byddwn yn gofalu am fuddiannau defnyddwyr y DU a'r sector cyfathrebiadau wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd.
6. **Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel:** byddwn yn gweithio gyda chwmnïau cyfathrebu i helpu i sicrhau bod eu rhwydweithiau yn gryf, yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag toriadau mewn pŵer neu ymosodiadau seiber.
7. **Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant:** byddwn yn cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant yn Ofcom, ac yn herio darlledwyr i wneud yr un fath.
8. **Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol:** Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth post yn cael mynediad at wasanaeth cynaliadwy ac effeithlon.

9. **Parhau i arloesi ein dull rheoleiddio:** Byddwn yn defnyddio data yn well ac yn darparu mwy o fynediad at wybodaeth. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i rannu arferion gorau a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr.

2. Cyd-destun y farchnad

2.1 Mae arloesedd a newidiadau yn anghenion defnyddwyr a busnesau yn sbarduno newid cyflym mewn marchnadoedd cyfathrebu. Wrth lunio'n cynllun hwn, rydyn ni wedi edrych ar sut mae'r farchnad yn newid a sut mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar bobl. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai o'r materion trawsbynciol sydd wedi dylanwadu ar ein dull gweithredu.

Mae'r rhyngrwyd yn chwarae rhan allweddol ym mywydau'r mwyafrif o bobl, gan gynnig manteision a chodi pryderon i ddefnyddwyr

2.2 Mae bron i 9 oedolyn o bob 10 yn y DU nawr ar-lein, gyda 64% yn dweud ei fod yn rhan hanfodol o'u bywyd.¹ Wrth i'r rhyngrwyd ddod yn bwysicach i bobl, maen nhw'n treulio mwy o amser ar-lein. Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn treulio 24 awr yr wythnos ar-lein ar gyfartaledd, sydd bron ddwywaith yr amser a gofnodwyd yn 2007.²

2.3 Mae defnyddwyr yn cael gafael ar ystod eang o wasanaethau ar-lein drwy ddyfeisiau clyfar gwahanol. Mae'r nifer sydd â setiau teledu clyfar a ffonau symudol clyfar (y ddyfais sy'n cael ei defnyddio amlaf i fynd ar y rhyngrwyd yn y DU erbyn hyn) wedi cynyddu'n gyson.³ Mae hyn wedi gwella'r mynediad at gynnwys drwy wasanaethau dal-i-fyny, fideo ar-alw, ffrydio a chyfryngau cymdeithasol. Mae mwy o ddefnyddwyr y rhyngrwyd nawr yn gwrandao ar safleoedd ffrydio sain,⁴ ac mae gwrandao ar bodlediadau yn dod yn fwy poblogaidd.⁵ Mae anfon negeseuon dros y we drwy lwyfannau fel Facebook a WhatsApp hefyd wedi dod yn fwy poblogaidd wrth i lai o negeseuon SMS ac MMS gael eu hanfon.

2.4 Mae pobl yn elwa o'r amrywiaeth o wasanaethau ar-lein sydd ar gael iddyn nhw. Mae mwy o ddewis ac amrywiaeth o adloniant ar-lein, sy'n caniatáu i bobl ddod o hyd i'r cynnwys mae arnyn nhw eisiau ei weld. Mae dulliau cyfathrebu newydd yn helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â phobl eraill a gweithio'n fwy hyblyg.

2.5 Fodd bynnag, mae mwy a mwy o bryderon am amddiffyn pobl ar-lein. Mae astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn awgrymu bod pobl yn poeni fwyaf am faterion fel: amddiffyn plant; gweld cynnwys neu ryngweithio

¹ Ofcom, *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.14:

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/117256/CMR-2018-narrative-report.pdf

² Ofcom, *Adroddiad ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau 2018*, t.41:

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0011/113222/Adults-Media-Use-and-Attitudes-Report-2018.pdf

³ Ers dyfodiad yr iPhone a lansio BBC iPlayer yn 2007, bu cynnydd cyson yn faint o boblogaeth y DU sydd â dyfeisiau wedi'u cysylltu, gyda phedwar o bob pump o ddefnyddwyr y DU yn berchen ar ffôn clyfar a bron i hanner holl gartrefi'r DU â theledu clyfar.

⁴ Ofcom, *Adroddiad ar Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau 2018*, t.112.

⁵ Ofcom, *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.44.

niweidiol; a defnyddio data a phreifatrwydd ar-lein.⁶ Mae rhagor o bryderon y gallai'r rheini sy'n methu mynd ar y rhyngwrwd neu ei ddefnyddio'n effeithiol neu'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd gwneud hynny fod yn colli allan ar ei fanteision a'u bod yn cael llai o ddewisiadau wrth i wasanaethau symud ar-lein. Efallai eu bod hefyd yn fwy agored i niwed ar-lein.

Mae'r twf mewn gwasanaethau ar-lein wedi'i alluogi gan seilwaith telegyfathrebiadau, sy'n galw am ragor o fuddsoddiad

- 2.6 Mae mwy a mwy o ddata yn symud dros rwydweithiau sefydlog a symudol. Roedd faint o ddata band eang sefydlog sy'n cael ei ddefnyddio wedi cynyddu o 190GB y mis fesul cartref yn 2017 i 240GB yn 2018.⁷ Roedd y ffôn symudol cyfartalog yn defnyddio 2.5GB o ddata'r mis yn 2018, a oedd wedi codi o 1.9GB yn 2017 a 1.3GB yn 2016. Mae'r cynnydd yma yn cael ei gynnal gan fuddsoddiad parhaus yng nghyrrhaeddiad ac ansawdd rhwydweithiau a rheolaeth a diogelwch traffig data.
- 2.7 Mae gweithredwyr llinellau sefydlog yn buddsoddi mewn band eang cyflym iawn a gwibgyswllt, ac mae'r rhagolygon ar gyfer rhagor o fuddsoddiad yn gwella. Mae BT a Virgin Media yn cynnal rhaglenni i gyflwyno ffeibr llawn⁸. Mae gweithredwyr eraill fel CityFibre a Gigaclear wedi ennill buddsoddwyr newydd ac mae Hyperoptic wedi codi £250m mewn cyllid newydd i ariannu dyledion. Mae CityFibre wedi dweud y bydd yn buddsoddi £2.5bn i gefnogi ei ymrwymiad i gysylltu pum miliwn o gartrefi yn y DU â band eang ffeibr llawn.
- 2.8 Mae gweithredwyr symudol wedi gallu monetiddio'r cynnydd yn y defnydd o ddata symudol yn effeithiol, a ddylai ganiatáu ar gyfer rhagor o fuddsoddiad. Roedd cyfran y bobl sy'n mynd ar y rhyngwrwd ar ffonau symudol wedi codi o 66% yn 2017 i 72% yn 2018.⁹ Mae hyn wedi galluogi gweithredwyr i gynhyrchu refeniw drwy gynnig rhagor o ddata. Maen nhw wedi gweld rhagor o dwf drwy gynnig contractau sy'n cynnwys cytundebau ar gyfer gwasanaethau ar-lein fel Spotify a Netflix. Roedd Ofcom hefyd wedi llwyddo i werthu'r sbectrum radio 2.3 a 3.4 GHz yn 2018 i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau symudol.

⁶ Ofcom, *Ymchwil profiad defnyddwyr o niwed ar-lein*: <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/internet-and-on-demand-research/internet-use-and-attitudes/internet-users-experience-of-harm-online>

⁷ Ofcom, *Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2018*:

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/130736/Connected-Nations-2018-main-report.pdf

⁸ Mae rhwydweithiau ffeibr llawn yn defnyddio cebl ffeibr optig o'r gyfnewidfa yr holl ffordd i gartref neu swyddfa'r cwsmer ac mae hyn yn gallu cyflawni cyflymder dros 1Gbit yr eiliad.

⁹ Ofcom, *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.11.

Mae cynnwys ar y teledu yn cael ei wyllo'n eang ac mae darlledwyr yn addasu wrth i gynulleidfaoedd wyllo mwy a mwy o gynnwys ar-lein

- 2.9 Mae teledu a ddarlledir yn dal i gael ei wyllo'n eang, ond mae'r farchnad yn heriol, yn enwedig ar gyfer teledu lleol.¹⁰ Roedd cynnwys a ddarlledir yn cynrychioli 71% o wyllo teledu yn 2017 (ond roedd nifer y munudau a oedd wedi cael eu gwyllo wedi disgyn 4% ers y flwyddyn flaenorol).¹¹ At ei gilydd mae refeniw o hysbysebion teledu wedi bod yn weddol wastad dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddangos gostyngiad o 7.5% mewn termau real yn 2017.¹²
- 2.10 Mae chwaraewyr cyfryngau ar-lein wedi cynyddu'r gystadleuaeth drwy gynhyrchu a darparu cynnwys. Yn 2017 roedd pobl ar gyfartaledd wedi gwyllo 88 munud o raglenni heb fod yn gynnwys a ddarlledir bob dydd ar draws eu dyfeisiau. Mae llai o wyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw wrth i'r defnydd o ffonau clyfar, setiau teledu cysylltiedig a gwasanaethau ar-alw gynyddu. Mae cynulleidfaoedd hefyd yn cael eu denu gan gynnwys symudol a gwasanaethau ffrydio sy'n dod i'r amlwg (fel chwaraeon byw ar gyfryngau cymdeithasol a llwyfannau rhannu fideos).¹³ Yn 2018 roedd tanysgrifiadau fideo ar-alw wedi pasio tanysgrifiadau teledu drwy dalu traddodiadol am y tro cyntaf.¹⁴
- 2.11 Mae darlledwyr traddodiadol yn arloesi i gystadlu yn y dirwedd hon sy'n newid. Mae nifer wedi datblygu ac yn buddsoddi mewn strategaethau digidol. Mae'r rhain wedi cynnwys gwelliannau o ran sut maen nhw'n darparu cynnwys ar-lein (fel y BBC yn cyhoeddi cyfresi cyfan ar iPlayer) a chydweithredu â darlledwyr eraill (megis y cytundeb ar draws llwyfannau rhwng Sky a Channel 4). Yn ddiweddar mae'r BBC ac ITV wedi cyhoeddi cynlluniau i lansio gwasanaeth ffrydio ar y cyd y bydd yn rhaid talu amdano erbyn diwedd 2019.

Mae radio yn addasu i gynnydd mewn gwrando ar-lein

- 2.12 Mae radio yn dal yn boblogaidd er gwaethaf y gystadleuaeth gan wasanaethau sain ar-lein. Mae naw oedolyn o bob deg yn y DU yn gwrando ar y radio bob wythnos am gyfartaledd o bron i 21 awr yr wythnos, ac mae 75% o'r holl wrando ar radio yn cael ei wneud yn gwrando ar radio byw.¹⁵ Roedd refeniw radio masnachol a gofnodwyd wedi tyfu 1% mewn termau real rhwng 2016 a 2017, i £557m.
- 2.13 Mae radio traddodiadol yn dal i gofleidio fformatau digidol ac mae dros 50% o'r holl wrando ar radio nawr yn ddigidol. Er gwaethaf hyn, mae'r gwrando ar analog yn dal yn

¹⁰ Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: DU 2018*, t.6: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf

¹¹ Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: DU 2018*, t.20.

¹² Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: DU 2018*, t.34.

¹³ Ffynhonnell: Data Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB) fel y cyhoeddwyd yn *Cyfryngau'r Genedl 2018*

¹⁴ Ffynhonnell: Data Arolwg Sefydlu BARB fel y cyhoeddwyd yn *Cyfryngau'r Genedl 2018*, t.4

¹⁵ Ofcom, *Cyfryngau'r Genedl: DU 2018*, t.75.

gryf, yn enwedig mewn ceir, ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn ac yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

- 2.14 Mae'r diwydiant radio yn addasu i ddisgwyliadau defnyddwyr o ran cynnwys ar-lein. Mae gwrando ar bodlediadau wedi cynyddu, yn enwedig ymysg pobl ifanc, ac mae nifer o ddarllledwyr radio traddodiadol bellach wedi cyflwyno eu podlediadau eu hunain nawr. Wrth i ddarllledwyr barhau i ddarparu cynnwys ar-lein bydd angen iddyn nhw ystyried sut mae ei gwneud hi'n hawdd dod o hyd i'r cynnwys, sut mae creu gwasanaethau sydd wedi cael eu dylunio i weithio gyda thechnolegau newydd fel seinyddion clyfar a chwilio drwy ddefnyddio llais, a sut mae datblygu modelau hysbysebu ar gyfer fformatau ar-lein.

Mae eFasnach yn sbarduno twf mewn danfon parseli ac mae cyfathrebu electronig yn golygu bod llai o lythyrau'n cael eu hanfon

- 2.15 Mae'r DU yn farchnad bwysig ar gyfer eFasnach.¹⁶ Mae tua 72% o ddefnyddwyr rhyngwryd y DU nawr yn siopa ar-lein, sydd wedi codi o 69% yn 2017. Roedd y ddau brif safle adwerthu, Amazon ac eBay, wedi cael eu defnyddio gan 89% a 69% o ddefnyddwyr ar-lein yn y drefn honno. Mae gwerthu llyfrau, cerddoriaeth a DVDs/fideos ar-lein wedi hen sefydlu yn y DU. Mae gwasanaethau danfon newyddau yn ôl am ddim wedi helpu i gynyddu gwerthiant dillad, ategolion a gemwaith ar-lein, gyda nifer y bobl sy'n prynu'r math yma o gynydd ar-lein yn codi o 33% i 40% yn ystod chwe mis cyntaf 2018.¹⁷
- 2.16 Mae cwmnïau danfon parseli yn buddsoddi er mwyn delio â mwy o barseli. Roedd nifer y parseli wedi tyfu 11% rhwng 2016-17 a 2017-18, gan gyrraedd 2.4 biliwn eitem.¹⁸ Mewn ymateb i hynny, mae cwmnïau danfon parseli yn y DU yn buddsoddi mewn offer a chyfleusterau newydd. Er enghraifft, ym mis Mai 2018, roedd UPS wedi agor cyfleuster newydd gwerth £120m yn DP World London Gateway Logistics Park er mwyn cynyddu ei allu i brosesu parseli sy'n croesi ffiniau. Roedd DPD wedi agor canolfan ddisbarthu newydd yn Nottingham a depo yn Barking ym mis Mehefin 2018.
- 2.17 Yn y cyfamser, mae nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon a'r refeniw cysylltiedig yn disgyn. Roedd faint o lythyrau wedi'u cyfeirio a oedd wedi cael eu hanfon wedi disgyn 5% i 11.2 biliwn o eitemau yn 2017, ac roedd refeniw llythyrau yn gyffredinol wedi disgyn 6% i £4,082m dros yr un cyfnod. Mae hyn yn cael ei achosi gan lai o filiau a chyfriflenni, gan fod mwy a mwy ohonyn nhw'n cael eu hanfon yn electronig, a phost hysbysebu. Mae cwmnïau danfon yn chwilio am ffrydiau newydd o refeniw drwy wasanaethau fel rheoli ystafelloedd post, argraffu a thracio.¹⁹

¹⁶ Yn Adolygiad Ofcom o'r Farchnad Gyfathrebu Ryngwladol yn 2017 roedden ni wedi tynnu sylw at drosiant blynyddol per capita y DU ar eFasnach a'i fod yn uwch o lawer na gwledydd tebyg, a'i fod yn £2175 y pen yn 2016. Sweden a'r Iseldiroedd oedd y marchnadoedd uchaf nesaf yn yr un sampl, gyda £1002 a £977 y pen y flwyddyn yn y drefn honno.

¹⁷ Ofcom, *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.87.

¹⁸ Ofcom, Diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost 2017-18:

https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0027/128268/Annual-monitoring-update-postal-market-2017-18.pdf

¹⁹ Ofcom, *Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu 2018*, t.83.

3. Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20

- 3.1 Prif ddyletswydd Ofcom yw hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a hybu buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol.
- 3.2 I gyflawni hyn, rydym yn canolbwyntio ar dri phrif nod: hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol ar gyfer defnyddwyr; sicrhau safonau a gwella ansawdd ar gyfer defnyddwyr; a diogelu defnyddwyr rhag niwed, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed. Er bod cystadleuaeth yn helpu i ddarparu gwasanaethau darlledu a chyfathrebu fforddiadwy, eang ac o ansawdd da ar gyfer defnyddwyr, ni all cystadleuaeth ar ei phen ei hun gyflawni hyn. Pan fydd yn briodol gallwn gamu i mewn i wella canlyniadau.
- 3.3 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wneud datganiad sy'n nodi blaenoriaethau strategol y Llywodraeth ar gyfer telegyfathrebiadau, rheoli'r sbectrwm radio a'r gwasanaethau post. Fel rheol bydd y datganiad hwn ddim ond yn cael ei wneud unwaith bob pum mlynedd, neu unwaith fesul Senedd. Mae'n rhaid i Ofcom ystyried y datganiad hwn wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio, a byddwn yn gwneud hyn yn annibynnol gan ystyried ein dyletswyddau statudol ac ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.
- 3.4 Ym mis Chwefror 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth ddatganiad drafft o flaenoriaethau strategol at ddiben ymgynghori. Gan na fydd y datganiad terfynol yn cael ei wneud tan yn ddiweddarach yn 2019, rydyn ni wedi ystyried y datganiad drafft hwn o'r blaenoriaethau strategol wrth lunio ein cynllun blynyddol.²⁰
- 3.5 Mae ein meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer 2019/20²¹ wedi cael eu datblygu yn unol â'n dyletswyddau a'n nodau strategol. Maen nhw hefyd yn ystyried cyd-destun y farchnad a, phan fo'n bosibl, yn adlewyrchu'r ymatebion a gawsom gan randdeiliaid. Rydyn ni'n nodi'r meysydd gwaith blaenoriaeth hyn isod, gan gynnwys manylion prosiectau perthnasol a'r hyn rydyn ni'n disgwyl iddyn nhw ei gyflawni. Mae Atodiad 2 yn cynnwys ein cynllun gwaith ehangach gan gynnwys y meysydd gwaith hyn a amlygir.

Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi

- 3.6 Rydyn ni eisiau gweld gwasanaethau cyfathrebu yn cael eu darparu ym mhob man. Mae cael mynediad at fand eang a gwasanaethau symudol yn hanfodol i nifer o bobl, boed nhw gartref, yn y gwaith neu'n teithio. Mae gan Ofcom, llywodraethau a darparwyr telegyfathrebiadau rannau pwysig i'w chwarae i wella cysylltedd ar gyfer pobl ledled y DU.

²⁰ Pan fydd y datganiad terfynol o'r blaenoriaethau strategol yn cael ei wneud, rydyn ni'n bwriadu rhoi sylw iddo bob blwyddyn wrth lunio ein cynllun blynyddol. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw rannau perthnasol ohono wrth gyflawni ein swyddogaethau yn ystod y flwyddyn.

²¹ Mae hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol; mae Ch1 yn dechrau ym mis Ebrill.

3.7 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf bydd Ofcom yn cefnogi gwasanaethau band eang gwell drwy wneud y canlynol:

- **Sicrhau bod gwasanaethau band eang ar gael i bawb** drwy ddynodi darparwr/wyr gwasanaeth cyffredinol band eang (USP) a phennu'r amodau a fydd yn berthnasol iddyn nhw. Bydd hyn yn helpu'r rhai sy'n methu cael gwasanaeth band eang teilwng ar hyn o bryd. Byddwn yn cyhoeddi datganiad am hyn yn Ch1. Rydyn ni'n disgwyl ymgynghori ynghylch y rheoliadau ariannu yn Ch2.
- **Hyrwyddo buddsoddiad mewn rhwydweithiau ffeibr llawn.** Bydd hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi buddsoddiad tymor hir mewn rhwydweithiau ffeibr i hybu cystadleuaeth ac arloesedd. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch1 ynghylch ein hasesiad o'r farchnad ar gyfer seilwaith ffisegol, gyda golwg ar gyflwyno ateb mynediad anghyfyngedig at bibellau a pholion.

3.8 Byddwn hefyd yn cefnogi gwasanaethau symudol yn well drwy wneud y canlynol:

- **Helpu i wella darpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.** Byddwn yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau polisi a thechnolegau ar gyfer gwella darpariaeth symudol. Byddwn yn paratoi i ddyfarnu bandiau sbectrwm (700 MHz a 3.6 - 3.8 GHz) wrth iddyn nhw gael eu clirio a'u rhyddhau a byddwn yn parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer rhwymedigaethau trwydded newydd a fyddai'n mynnu bod gwelliannau mewn darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig. Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi yn Ch3, a bydd disgwyl i'r ceisiadau ar gyfer yr arwerthiant ddechrau ym mis Rhagfyr 2019. Byddwn hefyd yn cyhoeddi datganiad yn Ch2 ynghylch atebion posibl ar sail sbectrwm er mwyn gwella darpariaeth dan do ac mewn cymunedau gwledig. Byddwn hefyd yn dal i edrych ar sut mae modd mesur darpariaeth symudol ac yn rhoi gwybod am hynny'n gliriach i ddefnyddwyr.
- **Gwella'r cyfleoedd i rannu sbectrwm.** Byddwn yn cymryd camau i ymestyn y cyfleoedd i rannu sbectrwm mewn bandiau sy'n cefnogi technoleg symudol er mwyn galluogi atebion ar sail sbectrwm y byddai modd eu defnyddio i wella darpariaeth dan do ac mewn cymunedau gwledig.
- **Paratoi ar gyfer lansio gwasanaethau symudol 5G.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein dull rheoleiddio'n hybu arloesi mewn technolegau 5G newydd. Bydd hyn yn cynnwys deall goblygiadau holli rhwydweithiau o dan y rheoliadau niwtraliaeth y rhynggrwyd a defnyddio technolegau 5G er mwyn darparu gwasanaethau di-wifr sefydlog. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau ynghylch manteision gwasanaethau 5G. Byddwn yn gweithio i ddeall y paramedrau cynllunio sydd eu hangen i gyflawni darpariaeth 5G dda ar gyfer gwasanaethau di-wifr sefydlog, symudol a'r Rhynggrwyd Pethau. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth am ddarpariaeth yn y dyfodol ynghylch y gwasanaethau 5G sydd ar gael. Byddwn yn parhau i gefnogi profion yn y diwydiant a chyflwyno cynnar.

Tegwch i gwsmeriaid

- 3.9 Rydyn ni'n credu'n gryf y dylai pobl gael bargaen deg ar gyfer eu gwasanaethau cyfathrebu. Rydyn ni'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gwsmeriaid iddyn nhw er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a siopa am wasanaethau'n hyderus. Er enghraifft, rydyn ni wedi sicrhau bod darparwyr band eang yn rhoi rhagamcanion cyflymder sy'n fwy cywir ar gyfer eu cynnyrch a chaniatáu i'w cwsmeriaid adael eu contract os bydd y cyflymder yn arafach na'r hyn a gafodd ei addo.
- 3.10 Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bargaen deg i ddefnyddwyr a byddwn yn edrych yn benodol ar ddiogelu pobl rhag arferion prisio annheg neu niweidiol. Bydd y gwaith yma'n cynnwys:
- **Gwella'r prisiau ar gyfer contractau amser ar yr awyr a ffonau symudol.** Rydyn ni'n gweithio i sicrhau prisiau tecach a mwy tryloyw i gwsmeriaid ffonau symudol, yn enwedig y rheini sy'n talu am ffonau symudol ac amser ar yr awyr yn yr un contract ond hefyd ar gyfer y rheini sy'n ymrwymo i gontract lle mae'r rhain wedi'u 'hollti'. Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad yn Ch1 a datganiad yn Ch3.
 - **Ystyried arferion prisio gwahaniaethol.** Byddwn yn asesu tegwch arferion prisio sy'n golygu bod defnyddwyr yn talu mwy am wasanaethau cyfathrebu oherwydd statws eu contract, hyd eu contract neu ffactorau eraill. Byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad yn Ch2 a fydd yn nodi canfyddiadau ein hadolygiad. Bydd hyn yn amlinellu ein barn ar raddfa'r niwed i ddefnyddwyr ac unrhyw atebion priodol. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad yn Ch4 yn nodi ein penderfyniad.
 - **Hysbysiadau diwedd contract a'r tariff gorau.** Byddwn yn cadarnhau ein cynlluniau i gwmnïau band eang, symudol, llinell dir a theledu drwy dalu roi gwybod i gwsmeriaid am y fargen orau sydd ar gael ganddyn nhw pan fydd eu contract yn dirwyn i ben, a bob blwyddyn ar ôl hynny os na fyddan nhw'n newid eu cytundeb. Byddwn yn cyhoeddi datganiad yn Ch1.
 - **Newid darparwr.** Mae'r adran ar hawliau defnyddwyr yn y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd yn cynnwys nifer o fesurau diogelu pwysig ar gyfer pobl a busnesau. Yn benodol, mae'n mynnu bod y darparwr sy'n ennill y cwsmer yn arwain y broses newid, gan gynnwys ar gyfer newid ar draws llwyfannau. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull gweithredu arfaethedig i weithredu yma yn Ch3.
 - **Dyfodol data defnyddwyr.** Mae arnom eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth iawn i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd fwyaf addas i'w hanghenion nhw. Rydyn ni'n ystyried sut mae sicrhau bod data ar gael ar argaeledd, cyflymder a defnydd gwasanaethau cyfathrebu. Byddwn yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â'r Llywodraeth ar ei Hadolygiad o Ddata Clyfar.

Cefnogi darlledu yn y DU

- 3.11 Mae darlledwyr yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd mawr ac yn eithriadol o bwysig oherwydd eu rôl yn darparu gwybodaeth, adloniant ac addysg i gymdeithas. Mae arnom eisiau helpu darlledwyr i ffynnu a sicrhau bod cynulleidfaoedd yn cael gwasanaeth da drwy gynnwys o ansawdd uchel o'r DU.
- 3.12 Rydyn ni'n gweithio i gefnogi'r nod yma. Er enghraifft, rydyn ni wedi llunio cynlluniau i gryfhau ein gofynion ar gyfer cynhyrchu teledu rhanbarthol ac rydyn ni wedi adolygu amrywiaeth ac ansawdd y rhaglenni teledu sydd ar gael i blant. Mewn radio, rydyn ni'n gweithio gyda'r Llywodraeth er mwyn gallu cyflwyno DAB ar raddfa fach cyn gynted â phosibl. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus a osodwyd gan y Senedd a'i fod – fel sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus – yn gallu arloesi a gweithio mewn ffordd sydd o fudd i ddefnyddwyr yn gyffredinol, heb niweidio'r farchnad cyfryngau yn ehangach.
- 3.13 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd ein gwaith yn cynnwys:
- **Adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus.** Byddwn yn edrych ar sut mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) wedi cyflawni nodau ac amcanion a bennwyd gan y Senedd dros y pum mlynedd diwethaf. Byddwn yn edrych ar y rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud, y cynulleidfaoedd a gafodd eu cyrraedd a pha mor fodlon oedd cynulleidfaoedd ar yr allbwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
 - **Cefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.** Byddwn yn ystyried y cwestiynau polisi sy'n deillio o'r newidiadau yn ymddygiad y gynulleidfa, technolegau sy'n newid a'r heriau a berir gan gystadleuwyr newydd ar gyfer darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, gan gynnwys cwestiynau ynghylch amlygrwydd.
 - **Adolygu allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC.** Bydd ein hadolygiad yn edrych ar sut mae'r BBC yn addasu i newidiadau mewn amgylchedd newyddion i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu newyddion a materion cyfoes ar gyfer pob cynulleidfa sy'n berthnasol, o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy. Byddwn yn edrych ar sut mae'n darparu amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiad manwl ar draws teledu, radio ac ar-lein. Byddwn yn adrodd ar hyn yn Ch3.
 - **Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC.** Byddwn yn ystyried Prawf Lles y Cyhoedd y BBC ar ei gynigion iPlayer i bennu a yw'n newid sylweddol ac os oes angen Asesiad Cystadleuaeth BBC. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus eraill y BBC i sicrhau bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu craffu'n briodol o ran rheoleiddio.
 - **Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC.** Byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol i weithgareddau masnachol y BBC, gan gynnwys yng nghyswllt ei wasanaeth ffrydio newydd BritBox sy'n fenter ar y cyd. Byddwn yn adolygu esblygiad BBC Studios, gan gynnwys sut mae wedi gweithredu ein gofynion Masnachu a Gwahanu.

Codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein

- 3.14 Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd Ofcom ddogfen drafod gan ddefnyddio ein profiad o reoleiddio'r sector darlledu. Roedd hon yn cynnwys yr egwyddorion a allai fod yn sail ar gyfer rheoleiddio yn y dyfodol i fynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein. Ar yr un pryd, roedden ni wedi cyhoeddi adroddiad ar brofiad defnyddwyr y rhyngwyd o niwed, a oedd yn ddarn o ymchwil ar y cyd a gafodd ei gynnal gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yn dangos bod gan bedwar oedolyn o bob deg sy'n defnyddio'r rhyngwyd bryderon am fynd ar-lein. Er bod rhai o'r pryderon hynny'n ymwneud â meysydd fel hacio neu breifatrwydd, roedd y pryder mwyaf cyffredin, a gafodd ei godi gan ddwy ran o dair o bobl, yn ymwneud â chynnwys – yn enwedig pan roedd cynnwys yn cael ei anelu at blant.
- 3.15 Mae gan Ofcom ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â llythrennedd yn y cyfryngau. Mae llythrennedd yn y cyfryngau yn ymwneud â defnydd, agweddau a dealltwriaeth pobl o'r cyfryngau a'r gwasanaethau cyfathrebu maen nhw'n eu defnyddio, gan gynnwys ar-lein. Rydyn ni'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth gritigol pobl neu eu crebwyll digidol, yn ogystal â dadansoddi'r manteision a'r niwed sy'n berthnasol i'w gweithgareddau cyfathrebu ac ar gyfryngau.
- 3.16 Rydyn ni'n ymestyn ein gwaith llythrennedd yn y cyfryngau o dan ein hymchwil Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau newydd a'n rhaglen ymgysylltu. Mae ein dyletswydd statudol yn ein galluogi i edrych ar natur a nodweddion cynnwys ar-lein, y prosesau sydd y tu ôl i'w gyhoeddi, a sut gall defnyddwyr reoli pa gynnwys maen nhw'n ei weld. Eleni, bydd ein rhaglen waith yn cynnwys:
- **Datblygu dealltwriaeth fanwl o niwed penodol.** I ddechrau byddai hyn yn cynnwys ymchwil manylach i ddealltwriaeth pobl o sut mae llwyfannau'n defnyddio eu data (gan weithio'n agos gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) yn ogystal â'r niwed a allai effeithio ar blant ar-lein.
 - **Gweithio gyda phartneriaid allanol i ddatblygu safbwynt cyflawn o niwed ar-lein a'r atebion posibl.** Ac ystyried natur gymhleth y materion rydyn ni'n edrych arny'n nhw, byddwn yn dod ag amrywiaeth o arbenigwyr at ei gilydd – gan gynnwys llunwyr polisïau, academyddion, elusennau a llwyfannau - er mwyn cael syniadau ar sail y data a'r dystiolaeth sydd ar gael.
 - **Cyfrannu'n weithredol at y drafodaeth ryngwladol am niwed ar-lein a llythrennedd yn y cyfryngau.** Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein hymchwil a'n harbenigedd i gymryd rhan yn y ddadl fyd-eang am sut mae deall a mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â niwed ar-lein, a'r rhan gall llythrennedd yn y cyfryngau ei chwarae.

Cefnogi defnyddwyr a'r diwydiant drwy Brexit

- 3.17 Fel rheoleiddiwr cyfryngau a thelegyfathrebiadau'r DU – yn niwtral ac yn annibynnol ar y Llywodraeth a'r cwmnïau sy'n cael eu rheoleiddio gennym – nid oes gan Ofcom farn ar Brexit.

- 3.18 Mae'r Llywodraeth yn arwain y trafodaethau gyda'r UE a bydd yn pennu'r fframweithiau cyfreithiol a fydd yn berthnasol ar ôl Brexit. Rydyn ni wedi darparu cyngor arbenigol annibynnol ar y sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio drwy gydol proses Brexit a byddwn yn parhau i wneud hynny. Rydyn ni'n llawn cefnogi awydd y Llywodraeth am waith rheoleiddio effeithiol parhaus, wedi'i ddarparu drwy gydweithio'n agos â'n partneriaid yn Ewrop.
- 3.19 Bydd Ofcom yn parhau i fuddsoddi yn ein perthnasoedd dwyochrog yn yr Undeb Ewropeaidd a'r tu hwnt, er mwyn sicrhau ein bod yn dal yn gallu dysgu a chyfnewid yr arferion gorau gyda'n cymheiriaid rheoleiddio. Byddwn hefyd yn parhau i feithrin ein perthynas â gweddill y byd, gan gynnwys drwy gymryd rhan mewn ffora fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), (sy'n annibynnol ar aelodaeth o'r UE). Bydd perthynas Ofcom â rhwydweithiau rheoleiddio'r UE yn y dyfodol yn amodol ar drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Byddwn yn parhau i wneud y canlynol:
- Gweithio i sicrhau ein bod ni'n barod ar gyfer ystod o ganlyniadau Brexit posibl, gan gynnwys sefyllfa lle byddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb Gytundeb Gadael, a sefyllfa lle byddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd gyda Chytundeb Gadael;
 - Darparu cyngor technegol annibynnol i'r Llywodraeth ar agweddau ar unrhyw drafodaethau am ein perthynas â'r UE yn y dyfodol sy'n ymwneud â'n sectorau; ac
 - Ymgysylltu â'n diwydiannau er mwyn deall eu pryderon yn well a'u cynlluniau ar ôl Brexit.

Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

- 3.20 Mae diogelwch rhwydweithiau cyfathrebu'r DU yn hollbwysig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r diwydiant i fonitro'r risgiau posibl ac i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol. Rydyn ni'n helpu'r Llywodraeth gyda'i hadolygiad o'r gadwyn gyflenwi telegyfathrebiadau ac rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r diwydiant, gan gynnwys cyflenwyr i sicrhau bod y rhwydweithiau mae pobl a busnesau'n dibynnu'n arnyn nhw'n parhau yn gadarn.
- 3.21 Rydyn ni wedi dechrau gweithredu'r Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (NIS), sy'n rhoi dyletswyddau cyfreithiol ar ddarparwyr i ddiogelu gwasanaethau hanfodol y DU. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cwblhau ei ddau gynllun peilot o'r cynllun 'TBEST' – cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth sy'n asesu sut byddai cwmni yn ymdopi ag ymosodiad ar y cyd ar sail y technegau sy'n cael eu defnyddio gan seiber droseddwyr a gwladwriaethau gelyniaethus.
- 3.22 Rydyn ni nawr wedi cymryd y cynllun drosodd a byddwn yn lansio ein fersiwn yn gynnar yn 2019. Mae TBEST yn rhan o Gynllun Sicrhau Diogelwch a Chadernid roedden ni wedi'i lansio ym mis Chwefror 2019. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch a chadernid gweithredol. Pan fyddwn ni'n dod o hyd i fylchau, byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i wneud gwelliannau.

Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant

- 3.23 Ein diben yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, ac rydyn ni'n ceisio gwneud hyn i bawb yn y DU. Rydyn ni'n gweithio i'r holl gymunedau ar draws ystod eang o faterion. Mae ein gwaith ar amrywiaeth a chynhwysiant yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i gynrychioli anghenion pobl ledled y DU yn ein polisiau, rheoliadau a gwasanaethau. Yn Ofcom, rydyn ni'n cydnabod bod gennym waith ar ôl i'w wneud i sicrhau bod gennym weithlu sy'n cynrychioli'r DU ac sy'n gallu edrych ar faterion mewn ffordd gynhwysol. Rydyn ni'n gwneud cynnydd cadarnhaol, gan osod targedau ymestynnol i ni eu cyrraedd erbyn 2020.
- 3.24 Rydyn ni hefyd yn credu bod darlledu o fudd i ddefnyddwyr pan fydd yn adlewyrchu ein cymdeithas gyfoethog ac amrywiol, gan ddefnyddio'r doniau gorau o bob rhan o'n cymunedau. Rydyn ni wedi adrodd ar amrywiaeth mewn darlledu teledu a radio, ac rydyn ni wedi herio'r diwydiant i wella. Rydyn ni'n disgwyl i ddarlledwyr adeiladu ar y momentwm maen nhw wedi'i gyflawni drwy arwain cynlluniau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.
- 3.25 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn cyhoeddi:
- **Adroddiad Ofcom ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.** Bydd hwn yn adroddiad llawn ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom am y cyfnod 2018-19. Mae'n dilyn ein hadroddiad interim a gafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2018. Bydd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd ar ein Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn Ch1.
 - **Archwiliad Cyflog Cyfartal a Chyflog o ran y Rhywiau ac Ethnigrwydd.** Bydd yr adroddiad yn egluro ein data ar gyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer y cyfnod 2019/20. Ochr yn ochr â'r data, bydd yr adroddiad yn nodi'r camau mae Ofcom yn eu cymryd i sicrhau dull gweithredu cadarn a theg ar gyfer sut caiff cydweithwyr eu gwobrwyo. Bydd yr archwiliad yn cael ei gyhoeddi yn Ch4.
 - **Adroddiadau blynyddol ar amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn teledu a radio.** Byddwn yn cyhoeddi ein hail adolygiad blynyddol o amrywiaeth pobl sy'n gweithio mewn radio yn Ch1. Bydd ein trydydd adolygiad o'r bobl sy'n gweithio mewn teledu yn cael ei gyhoeddi yn Ch2.
 - **Adroddiad blynyddol ar y BBC.** Bydd yr adroddiad eang hwn, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn Ch3, yn cynnwys asesiad o sut mae'r BBC yn cydymffurfio â'i God Ymarfer comisiynu a'i dargedau amrywiaeth ar y sgrin ac ar yr awyr.

Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol

- 3.26 Mae llawer o bobl a busnesau yn dibynnu ar y gwasanaeth post cyffredinol. Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu'r gwasanaeth post cyffredinol, a monitro perfformiad a chyllid y Post Brenhinol.

- 3.27 Yn sgil y gostyngiad parhaus yn y farchnad llythyrau a newidiadau ehangach yn y farchnad parseli a disgwyliadau cwsmeriaid, rydyn ni'n bwriadu monitro mwy ar y Post Brenhinol. Byddwn yn dod â rhywfaint o'r gwaith roedden ni wedi bwriadu ei wneud fel rhan o'n hadolygiad nesaf o reoleiddio'r Post Brenhinol ymlaen, fel roedden ni wedi'i nodi yng ngwanwyn 2017,²² roedden ni wedi bwriadu ei wneud erbyn 2022.
- 3.28 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, yn ogystal â'n rhaglen waith bresennol, byddwn yn:
- **Cynnal adolygiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol.** Bydd y gwaith hwn yn dangos i ni'n well pa mor gynaliadwy gallai'r gwasanaeth post cyffredinol fod yn y dyfodol. Rydyn ni'n bwriadu darparu ein safbwynt diweddaraf ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol yn Ch3.
 - **Ceisio deall anghenion defnyddwyr post yn well.** Byddwn yn cynnal ymchwil i adolygu i ba raddau mae'r farchnad bost yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad, yn enwedig y cynnydd mewn siopa ar-lein a'r gostyngiad parhaus mewn llythyrau. Byddwn yn asesu'r goblygiadau a fydd yn deillio o'r newidiadau yn anghenion defnyddwyr post. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi ein canfyddiadau yn Ch4.

Parhau i arloesi ein dull rheoleiddio

- 3.29 Byddwn yn parhau i addasu ac arloesi yng ngoleuni newidiadau mewn polisiau a rheoleiddio. Bydd hyn yn golygu ei bod yn rhaid i ni arloesi a gwella ein gwasanaethau i ddal fyny â thechnolegau newydd. Mae hefyd yn mynnu ein bod yn rhannu a dysgu oddi wrth arferion gorau, ar y cyd â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU, i sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer defnyddwyr agored i niwed.
- 3.30 Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf byddwn yn gwneud y canlynol:
- **Galluogi defnydd gwell o ddata dadansoddi yn Ofcom.** Bydd hyn yn cefnogi datblygu polisiau ac yn golygu bod y data sydd gennym yn haws ei ddefnyddio ac yn fwy hygyrch. Byddwn yn gwella ein sgiliau a'n dealltwriaeth mewn dadansoddi data ac yn gwella ein hoffer a'n prosesau.
 - **Cydweithio i amddiffyn pobl agored i niwed.** Rydyn ni'n cefnogi ac yn amddiffyn anghenion pobl agored i niwed. Rydyn ni'n monitro effaith ein Hamod Cyffredinol ar fregusrwydd (GC C5) a byddwn yn nodi enghreifftiau o arfer gorau, y byddwn yn eu rhannu drwy ddiwyddiadau i'r diwydiant a drwy ganllaw. Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU a rheoleiddwyr eraill i gyflwyno rhaglen waith sy'n edrych ar safonau sylfaenol i gefnogi cwsmeriaid sydd â phroblemau iechyd meddwl, nam gwybyddol neu ddementia, a'r arfer gorau o ran cefnogi defnyddwyr agored i niwed. Mae Ofcom wedi ymrwymo i ddarparu adnoddau i Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU.

²² https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0033/97863/Review-of-the-Regulation-of-Royal-Mail.pdf

- **Asesu ein dyletswyddau presennol a'n gwaith rhaglennu yng ngoleuni'r symud tuag at ddarparu gwasanaethau cyfathrebu ar-lein.** Mae'r symud yma'n golygu nifer o oblygiadau i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i'n sectorau. Byddwn yn parhau i wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio'n dyletswyddau presennol ac addasu ein rhaglenni gwaith i adlewyrchu'r amgylchedd sy'n newid.

4. Gwaith parhaus i gyflawni ein nodau a'n dyletswyddau

- 4.1 Yn Adran 3 rydyn ni wedi amlygu ein blaenoriaethau ar gyfer 2019/20. Mae ein rhaglen ehangach o waith parhaus, sy'n cael ei chrynhoi fesul thema yn yr adran hon, yn chwarae rhan yr un mor bwysig o ran cyflawni ein dyletswyddau a'n nodau ac mae'n sail i reoleiddio ein sectorau.
- 4.2 Mae llawer o raglen waith gyfredol Ofcom yn orfodol, ac mae wedi'i phennu mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn cynnwys monitro'r BBC, gorfodi safonau rheoleiddiol a rheoli'r sbectrum radio. Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni'n gwneud gwaith dewisol i sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda i helpu i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb.

Telegyfathrebiadau

Diogelu defnyddwyr

- 4.3 **Galwadau niwsans.** Er mwyn helpu i leihau galwadau niwsans, rydyn ni'n gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyfathrebu'r DU i amharu ar y galwadau hyn a'u hatal. Rydyn ni hefyd yn gweithio ochr yn ochr ag asiantaethau gorfodi eraill fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a chyrrff buddiannau defnyddwyr. Yn ddiweddar, rydyn ni hefyd wedi cryfhau'r gofynion ar ddarparwyr mewn perthynas â'r cyfleuster adnabod y llinell sy'n galw (CLI), sef y broses sy'n caniatáu i'r sawl sy'n derbyn yr alwad gael gweld pwy sy'n eu ffonio.
- 4.4 **Cryfhau llais y defnyddiwr mewn telegyfathrebu.** O fis Ebrill ymlaen, byddwn yn cryfhau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y corff defnyddwyr annibynnol ar gyfer y sector telegyfathrebu. Byddwn yn cynyddu'r gyllideb sydd ar gael i'r Panel ar gyfer 2019/20 50%, a fydd yn ei alluogi i edrych ar raglen waith ehangach ac eiriol ar ran defnyddwyr gyda llais cryfach. Ar ben hynny, drwy ein Tîm Cyswllt Defnyddwyr, sy'n darparu cymorth a chynghor i bobl ac i fusnesau, a drwy ein gwaith parhaus gydag ystod eang o grwpiau defnyddwyr, byddwn yn cadw llygad ar y materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr mewn marchnadoedd cyfathrebu.
- 4.5 **Cymharu ansawdd gwasanaethau.** Mae adroddiad blynyddol Ofcom, 'Cymharu Ansawdd Gwasanaethau' yn rhoi metrigau mae modd eu cymharu ynghylch ansawdd gwasanaethau. Byddwn yn monitro sut mae'r darparwyr yn rhoi iawndal awtomatig am fethiannau mewn gwasanaeth. Byddwn yn parhau i gynhyrchu cyhoeddiadau chwarterol am gwynion a gofnodwyd a gyflwynir i Ofcom yn erbyn y darparwyr teledu drwy dalu a thelegyfathrebiadau mwyaf.

Rheoli telegyfathrebiadau

- 4.6 **Dyrannu a rheoli rhifau ffôn.** Mae Ofcom yn dyrannu rhifau ffôn i ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd wedyn yn eu rhoi i ddefnyddwyr a busnesau. Rydyn ni'n sicrhau bod y

- rhifau hyn yn cael eu defnyddio'n effeithlon, sy'n creu llai o aflonyddwch ac yn lleihau costau.
- 4.7 Byddwn yn edrych ar ddefnyddio cronfa ddata gyffredin a chanolog (neu dechnoleg arall) y gellid ei defnyddio i gefnogi rheoli rhifau, dilysu galwadau a chludadwyedd rhifau yn y dyfodol. Un agwedd ar y gwaith yma ydy prosiect ar y cyd, gyda chyllid o Gronfa Arloesi'r Rheoleiddwyr, er mwyn edrych ar ddefnyddio technoleg cadwyn atal yn arloesol er mwyn profi dull gweithredu newydd sy'n addas ar gyfer y dyfodol i reoli rhifau.
- 4.8 **Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhynggrwyd.** Wrth i wasanaethau ffeibr gael eu cyflwyno ac wrth i ddarparwyr cyfathrebu ddatblygu cynlluniau i roi'r gorau i ddefnyddio'r rhwydwaith ffôn cyfnewidfa gyhoeddus (PSTN), bydd mwy a mwy o ddefnyddwyr a busnesau yn mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhynggrwyd. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr er mwyn helpu i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn sgil y mudo hwn yn cael eu hadnabod a'u trin, er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw.
- 4.9 **Diwygio Openreach yn effeithiol.** Rydyn ni'n monitro gwahanu Openreach yn gyfreithiol oddi wrth BT ac yn adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaid BT ac Openreach ag ymrwymadau BT Group. Rydyn ni'n monitro effaith y trefniadau newydd ar ein hamcanion ehangach, fel sydd wedi cael eu nodi yn yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol 2016, er mwyn galluogi mynediad at fand eang cyflym a dibynadwy drwy ddatblygu rhwydweithiau sy'n cystadlu. Mae monitro cydymffurfiaid yn y maes hwn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Rydyn ni'n credu y bydd i ba raddau y mae'r model newydd yn llwyddo ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn dod yn amlwg cyn pen tair blynedd ar ôl ei roi ar waith. Rydyn ni'n felly'n bwriadu cyhoeddi adroddiad yn 2020/21 ar y canlyniadau cyffredinol a fydd yn asesu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i: fod o fudd i ddefnyddwyr, mynd i'r afael â'n pryderon a hybu buddsoddiadau newydd mewn rhwydweithiau.

Ansawdd, perfformiad a diogelwch rhwydweithiau

- 4.10 Fel y nodir yn yr adran flaenorol, rydyn ni'n gweithio i fonitro'r risgiau posibl a darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ar ddiogelwch a chadernid rhwydweithiau. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, byddwn yn monitro ac yn adrodd ar ansawdd a pherfformiad rhwydweithiau.
- 4.11 **Monitro ansawdd gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol.** Byddwn yn parhau i fonitro darparu a thrwsio gwasanaethau telegyfathrebiadau cyfanwerthol copr a ffeibr. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaid â'r amodau a orfodir yn sgil ein hadolygiadau o'r farchnad.
- 4.12 **Cyhoeddi ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd.** Byddwn yn parhau i adrodd ar argaeledd ac amcanion ynghylch cyflymderau band eang sefydlog cyflym iawn a gwibgyswllt ac ar gyfer rhwydweithiau symudol. Bydd data yn cael eu cyhoeddi yn ein Hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol, ein diweddariadau cyfnodol i'r adroddiad, a'r apiau symudol a'r adnoddau gweledol sy'n cyd-fynd â'r adroddiad. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r

diweddariadau yn ystod y gwanwyn a'r haf, ac wedyn y prif adroddiad yn Ch3. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein gwybodaeth yn fwy perthnasol ac yn hwylus i ddefnyddwyr.

Darlledu

BBC

- 4.13 **Monitro'r BBC.** I ddiogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol ac i asesu bod y BBC yn cyflawni yn erbyn ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, rydyn ni'n monitro gweithgareddau'r BBC (gan gynnwys ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol) drwy ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth.
- 4.14 **Gorfodi gofynion y BBC.** Pan fo'n briodol, byddwn yn gorfodi gofynion penodol sy'n berthnasol i'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb, ac o dan y Fframwaith Gweithredu a osodwyd gan Ofcom.

Trwyddedu

- 4.15 **Digwyddiadau sydd wedi'u rhestru.** Byddwn yn diweddarau'r rhestr o sianeli sydd â chaniatâd i ddangos digwyddiadau chwaraeon o bwys a digwyddiadau eraill sydd o ddiddordeb cenedlaethol, gan ystyried y newid yn y ffyrdd y mae gwylwyr yn gwyllo teledu. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad yn Ch1.
- 4.16 **Trwyddedu gwasanaethau darlledu teledu a radio.** Byddwn yn parhau i gyhoeddi trwyddedau ar gyfer pob gwasanaeth teledu masnachol lleol a chenedlaethol yn y DU a phob gwasanaeth radio masnachol a chymunedol analog a digidol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ystod ac amrywiaeth o wasanaethau ar gael ledled y DU. Rydyn ni'n gallu gosod cosbau pan nad ydyn nhw'n cydymffurfio â gofynion trwydded, ac, mewn achosion difrifol, rydyn ni'n gallu dirymu trwyddedau.

Safonau darlledu

- 4.17 **Gorfodi gofynion ar gyfer gwasanaethau mynediad.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod darlledwyr yn darparu cyfran o'u rhaglenni â gwasanaethau mynediad i bobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw (isdeitlo, arwyddo a disgrifiadau sain). Ddwywaith y flwyddyn byddwn yn adrodd ar sianeli darlledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alw (ODPS) fel All 4 ac Amazon Prime Video. Rydyn ni'n gweithio gyda'r Llywodraeth i gyflwyno rheoliadau ar hygyrchedd gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda darlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw i fynd i'r afael â materion eraill fel ansawdd a hwylustod defnyddio gwasanaethau mynediad.
- 4.18 **Gorfodi safonau rhaglenni.** Byddwn yn parhau i sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar y teledu a radio yn bodloni'r safonau sydd wedi cael eu gosod yn y Cod Darlledu. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau ynghylch niwed a thramgwydd, trosedd, crefydd, cywirdeb dyladwy a didueddrwydd, tegwch a phreifatrwydd a chyfeiriadau masnachol. Rydyn ni'n asesu cwynion gan wylwyr a gwrandawyr. Ar ben hynny rydyn ni'n chwilio am achosion o dorri ein rheolau, ac yn canfod achosion o'r fath, a hynny drwy waith monitro parhaus wedi'i dargedu. Os ydy'r achos o dorri'r rheolau yn ddifrifol neu wedi'i ailadrodd, gallwn ni

roi sancsiwn statudol i'r darlledwr sy'n gallu cynnwys cosb ariannol, ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, gallwn ddirymu ei drwydded i ddarlledu.

- 4.19 Rydyn ni'n rheoleiddio cynnwys ar sianeli teledu'r BBC, ei orsafoedd radio, yr iPlayer a gwefan y BBC. Byddwn yn ystyried cwynion a fydd yn cael eu cyfeirio atom os nad ydy'r sawl sy'n cwyno yn fodlon â'r ateb gan y BBC, ond gallwn hefyd gamu i mewn yn gynharach os bydd raid. O ran deunydd ar-lein ar wefan ac apiau'r BBC, mae modd atgyfeirio cwynion atom i gael ein barn arnyn nhw.
- 4.20 Rydyn ni hefyd yn rheoleiddio gwasanaethau fideo ar-alw sydd yn y DU. Mae'n rhaid i'r rhain ddiwallu cyfres o safonau golygyddol sy'n edrych ar amddiffyn plant, casineb ar lafar a chyfeiriadau masnachol.
- 4.21 Mae disgwyliadau cynulleidfaoedd o ran safonau ar wasanaethau darlledu ac ar-alw yn esblygu dros amser. Bydd ymchwil sydd wedi cael ei gynllunio ar ddisgwyliadau o ran safonau ar draws llwyfannau gwahanol yn ein helpu i ddefnyddio rheolau'n briodol ac yn gymesur gan adlewyrchu newidiadau yn ymddygiad gwyllo a disgwyliadau cynulleidfaoedd.

Post

- 4.22 **Monitro'r farchnad bost a pherfformiad y Post Brenhinol.** Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y Post Brenhinol o ran effeithlonrwydd, ansawdd gwasanaeth, perfformiad ariannol y rhwydwaith gwasanaeth cyffredinol, a chystadleuaeth mewn parseli a llythyrau. Byddwn hefyd yn monitro profiadau defnyddwyr yn y sector post. Byddwn yn parhau i adrodd ar y patrymau hyn yn ein Diweddariad Monitro Blynyddol ar y farchnad bost, a gyhoeddir ddiwedd 2019.
- 4.23 **Braenaru'r tir ar gyfer ein hadolygiad nesaf o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post.** Byddwn yn ymestyn ein rhaglen waith i gynnal adolygiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol ac ystyried anghenion rhesymol defnyddwyr er mwyn paratoi ar gyfer ein hadolygiad nesaf o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post. Byddwn yn cwblhau ein gwaith ar fodelu cost rhwydwaith danfon y Post Brenhinol ac yn ei ymestyn i gynnwys rhannau eraill o weithrediadau'r Post Brenhinol, ac rydyn ni'n bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy weithdai ganol 2019-20. Byddwn hefyd yn cwblhau ein gwaith o adolygu adroddiadau ariannol rheoleiddiol y Post Brenhinol ac yn disgwyl datganiad yn ystod hanner cyntaf 2019-20.

Gwaith ar draws sectorau

Gorfodi

- 4.24 Mae ein gwaith gorfodi'n rhedeg ar draws ein sectorau. Rydyn ni'n gorfodi'r amodau rheoleiddio rydyn ni'n eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebu, yn ogystal â chyfraith defnyddwyr gyffredinol a chyfraith cystadleuaeth. Rydyn ni'n monitro cwynion, yn dadansoddi tystiolaeth ac yn gweithredu pan fyddwn ni'n gweld niwed, gan gynnwys cynnal ymchwiliadau ffurfiol, cyhoeddi cosbau a cheisio iawn pan fydd hynny'n briodol.

- 4.25 Byddwn yn canolbwyntio mwy ar gydymffurfiaid ar draws ein sectorau. Byddwn yn gwneud hyn wrth i uwch swyddogion ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n rhaglen cydymffurfiaid ac eiriolaeth defnyddwyr newydd. I ddechrau bydd y rhaglen hon yn canolbwyntio ar ddiogelu defnyddwyr agored i niwed, a sicrhau bod telerau contractau (gan gynnwys ffioedd terfynu cynnar) yn glir ac yn deg. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro a gorfodi'r rheolau yn y meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â mynd i'r afael â galwadau niwsans a diogelwch a chadernid rhwydweithiau cyfathrebu.
- 4.26 Mae arnom eisiau gwella cydymffurfiaid rhanddeiliaid wrth ymateb i'n ceisiadau ffurfiol am wybodaeth. Rydyn ni wedi cyhoeddi ymchwiliadau i brydlondeb, cyflawnrwydd a chywirdeb yr ymatebion a geir i'n ceisiadau statudol am wybodaeth.

Rheoli sbectrwm

- 4.27 **Dadansoddi a rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm.** Rydyn ni'n rhyddhau gwybodaeth am y defnydd o sbectrwm mewn fformat agored, gan gynnwys mapiau sbectrwm daearyddol rhyngweithiol, er mwyn galluogi rhanddeiliaid i ddeall yn well sut mae sbectrwm yn cael ei ddefnyddio.
- 4.28 **Awdurdodi'r defnydd o sbectrwm.** Mae Ofcom yn darparu cyngor a chymorth i ystod eang o ddefnyddwyr sbectrwm. Mae ein timau Sbectrwm arbenigol yn dadansoddi'r dechnoleg yn fanwl ac yn defnyddio mesuriadau go iawn i ddefnyddio a rhannu mwy o sbectrwm. Rydyn ni'n ymchwilio i adroddiadau o ymyriant radio niweidiol (gan gynnwys i gyfathrebu diogelwch-bywyd), ac rydyn ni'n defnyddio camau gorfodi rhagweithiol ac wedi'u targedu i adnabod a datrys achosion o ddefnyddio sbectrwm heb ei awdurdodi ac er mwyn atal gwerthu neu ddefnyddio offer nad yw'n cydymffurfio.
- 4.29 Mae ein timau Sbectrwm hefyd yn darparu cymorth arbenigol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a gwladwriaethol mawr yn y DU, ac mae'n rhoi trwyddedau radio i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr er mwyn galluogi mynediad i sbectrwm a hyrwyddo gwasanaethau arloesol. Rydyn ni'n cydweithio'n rhyngwladol i sicrhau cydlyniant wrth ddefnyddio sbectrwm ac rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o ofynion deddfwriaeth sy'n ymwneud â sbectrwm, fel y Rheoliadau Offer Radio, ar yr un pryd â datblygu strategaethau ar gyfer gorfodi ei darpariaethau.
- 4.30 **Rheoli sbectrwm a chynllunio ar gyfer gofynion y dyfodol.** Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod sbectrwm radio'r DU yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy gynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol, fel ar gyfer data symudol a dolenni di-wifr sy'n cysylltu gorsafoedd sylfaen â'r rhwydwaith craidd. Rydyn ni hefyd yn dadansoddi'r defnydd a wneir o sbectrwm ar draws sectorau penodol er mwyn cefnogi ein hadolygiadau strategol a chyfrannu at ein polisiau.

Strategaeth sy'n edrych i'r dyfodol

- 4.31 Mae ein gwaith yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'n sectorau a disgwyliadau pobl yng nghyswllt gwasanaethau cyfathrebu. Mae'r gwaith canlynol yn siapio ein strategaeth ar

gyfer y dyfodol, gan ein galluogi i gynllunio'n effeithiol ac addasu i newidiadau yn yr amgylchedd cyfathrebu:

- 4.32 **Ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y farchnad.** Rydyn ni'n ymchwilio i'r marchnadoedd cyfathrebu a dewisiadau ac ymddygiad defnyddwyr. Mae hyn yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drwyadl a chyfredol o ddefnyddwyr a busnesau yn y marchnadoedd rydyn ni'n eu rheoleiddio. Rydyn ni'n casglu data'n uniongyrchol gan randdeiliaid yn y diwydiant ac yn darparu'r data hynny drwy gyhoeddiadau a diweddariadau ar ein gwefan.
- 4.33 **Llythrennedd yn y cyfryngau.** Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth oedolion a phlant. Byddwn yn astudio dealltwriaeth pobl o ddefnyddio data a'u hagweddau at hynny. Byddwn hefyd yn edrych yn fanwl ar ymddygiad ac agweddau plant ar-lein yng nghyd-destun y niwed y gallen nhw ei weld, gan gynnwys y berthynas rhwng niwed ar-lein ac all-lein. Drwy wneud hynny, byddwn yn cydweithio â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn deall y materion hyn yn well a helpu i siapio a chyfrannu at y ddadl yn y maes yma.
- 4.34 **Monitro datblygiadau technegol a masnachol i baratoi ar gyfer y dyfodol.** Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau technegol a newidiadau yn y farchnad cyfathrebu, gan gynnwys newidiadau yn ymddygiad a disgwyliadau defnyddwyr. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at ein gwaith polisi a gwneud penderfyniadau, gan helpu i sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn elwa o arloesedd technegol yn y sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio.

Ymgysylltu

- 4.35 **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrrff eraill ynghylch diogelu cynulleidfaoedd.** Rydyn ni'n ymgysylltu â llywodraethau, diwydiant a chyrrff eraill i ddiogelu cynulleidfaoedd, ar draws amgylcheddau traddodiadol ac ar-lein. Rydyn ni hefyd yn aelod o Gyngor Llywodraeth y DU ar Ddiogelwch ar y Rhynggrwyd (UKCIS) ac yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill ar draws Ewrop, drwy Wasanaethau Cyfryngau'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Clyweledol (ERGA), i wella'r diogelwch ar gyfer gwasanaethau clyweledol.
- 4.36 **Gweithio gyda Llywodraeth y DU, llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a chyrrff eraill ar seilwaith rhwydweithiau.** Rydyn ni'n ymgysylltu â llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig a nifer o gyrff eraill ar draws y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol. Rydyn ni'n cynghori Llywodraeth y DU a llywodraethau a gweinyddiaethau datganoledig ynghylch materion sy'n ymwneud ag argaeledd, gan gynnwys drwy ein gwaith gyda Llywodraeth y DU ar ei Hadolygiad o Seilwaith Telegyfathrebiadau yn y Dyfodol, a drwy ein cefnogaeth ar gyfer gwella darpariaeth symudol ar draws y DU.
- 4.37 **Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol.** Rydyn ni'n ymgysylltu â nifer o rhanddeiliaid rhyngwladol ynghylch rheoleiddio cyfathrebiadau, i ddysgu o'u profiadau ac i sicrhau bod syniadau polisi sy'n dod i'r fei, ac unrhyw ddeddfwriaeth rhyngwladol sy'n berthnasol yn y

DU, yn ymateb i anghenion ein sector cyfathrebiadau. Byddwn yn ceisio cynnal y cysylltiadau sydd gennym yn barod a meithrin rhai newydd â rhanddeiliaid yn Ewrop ac yng ngweddill y byd.

- 4.38 Bydd Ofcom yn parhau i gynrychioli'r DU, o dan gyfarwyddyd gweinidogol, ar gyrff rhyngwladol fel yr Undeb Telegyfathrebiadau Ryngwladol (ITU) a'r Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT). Bydd perthynas Ofcom â rhwydweithiau rheoleiddio'r UE yn y dyfodol yn amodol ar drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Byddwn yn parhau â'n rhaglen ymgysylltu ar draws yr holl sectorau rydyn ni'n eu rheoleiddio, gyda rhanddeiliaid a chymheiriaid rheoleiddio o Ewrop a'r tu hwnt.

5. Cyflawni ein nodau ledled y DU

- 5.1 Mae gwaith Ofcom yn rheoleiddio telegyfathrebiadau, gwasanaethau post a darlledu yn bwysig i bobl ac i fusnesau ar draws y DU. Mae gwasanaethau cyfathrebu o ansawdd da yn hanfodol i bobl ac i fusnesau, lle bynnag maen nhw.
- 5.2 Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni ar gyfer pobl ar draws holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Rydyn ni'n ystyried amrywiaeth genedlaethol a rhanbarthol drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob gwlad drwy ein swyddfeydd cenedlaethol, a drwy weithio'n agos gyda phedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol Ofcom. Mae'r rhain yn cynrychioli buddiannau a barn pobl ym mhob un o bedair gwlad y DU.
- 5.3 Mae datblygiadau diweddar mewn datganoli wedi arwain at newidiadau i drefn llywodraethu Ofcom. Mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth rhwng y llywodraethau datganoledig, yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom yn nodi'r broses ar gyfer ymgynghori â'r llywodraethau datganoledig ynghylch ein Cynllun Blynyddol, pa mor aml mae Ofcom yn ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig, a'n dyletswydd i ddarparu tystiolaeth i Bwyllgorau Seneddol a Chynulliad. Ar hyn o bryd mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng Ofcom a Llywodraethau'r Alban a'r DU a Senedd yr Alban,²³ a rhwng Ofcom a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.²⁴ Mae disgwyl y cytunir ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth tebyg gyda'r weinyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon maes o law.
- 5.4 Mae'r gweinyddiaethau yng Nghaerdydd, Caeredin a Belfast bellach yn gyfrifol am benodi aelod newydd i Fwrdd Ofcom, a hynny mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ym mis Chwefror 2018, penododd Llywodraeth yr Alban Bob Downes yn aelod cyntaf o Fwrdd Ofcom ar gyfer yr Alban. Mae'r broses o recriwtio aelod Cymru ar Fwrdd Ofcom bron â gorffen, ac mae disgwyl penodi aelod ar gyfer Gogledd Iwerddon pan gaiff y llywodraeth ddatganoledig ei hadfer. Mae'r aelodau Bwrdd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at flaenoriaethau a gwaith Ofcom, gan sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein nodau ar draws y DU.

Heriau cyffredin

- 5.5 Mae darparu gwasanaethau band eang sefydlog, symudol a phost sy'n diwallu anghenion defnyddwyr a busnesau mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn peri heriau penodol. Mae nifer anghymesur o'r ardaloedd hyn yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond mae'r un heriau yn effeithio ar rai o ranbarthau Lloegr hefyd. Dylai gwasanaethau darlledu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol hefyd ddiwallu anghenion ac adlewyrchu amrywiaeth

²³ Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Senedd yr Alban a'r Swyddfa Gyfathrebiadau, Ebrill 2017: <https://www.gov.uk/government/publications/memorandum-of-understanding-between-the-uk-government-scottish-government-scottish-parliament-and-the-office-of-communications>

²⁴ Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gyfathrebiadau, Gorffennaf 2018: <https://www.gov.uk/government/publications/memorandum-of-understanding-between-the-uk-government-welsh-government-welsh-assembly-and-the-office-of-communications>

cynulleidfaoedd ar draws hol ranbarthau a gwledydd y DU. Ar hyn o bryd rydyn ni mewn cyfnod o newid a fydd yn effeithio ar holl wledydd y DU, gyda dadleuon ynghylch dyfodol rheoleiddio ar-lein, datblygiadau mewn rheoliadau seiber, a chwestiynau ynghylch effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd.

5.6 Yn 2019/20, byddwn yn:

- Cyhoeddi ein hadroddiad **Cysylltu'r Gwledydd** a diweddariadau ar ddarpariaeth a chyflymderau band eang a symudol, gan gynnwys yr amrywiadau rhwng defnyddwyr gwledig a dinesig ac mewn gwahanol rannau o'r DU. Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i ddefnyddwyr i'w helpu i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.
- Cymryd camau i **wella darpariaeth symudol** drwy rwymedigaethau trwydded arfaethedig sy'n gysylltiedig â dyfarnu'r bandiau sbectrum 700 MHz a 3.6-3.8 GHz. Byddwn yn edrych hefyd ar amrywiaeth o opsiynau polisi eraill a thechnolegau newydd ar gyfer gwella darpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- Datblygu'r prosiect **rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang**. Mae cyfran uwch o bobl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon heb fynediad i wasanaeth band eang teilwng. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi datganiad yn Ch1.
- Cyhoeddi datganiad a chanllawiau wedi'u diweddarau ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran diwallu amodau eu trwyddedau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu gwneud y **tu allan i Lundain** ac yn y gwledydd.
- Cyhoeddi **adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC**, gan gynnwys asesu ei berfformiad yn erbyn ei Drwydded Weithredu, sy'n cynnwys cyflawni ym mhob un o wledydd y DU.
- Parhau i fonitro ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch **codi tâl ychwanegol am barseli** yng Ngogledd Iwerddon, Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban, a rhannau eraill o'r DU.
- **Hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal mewn darlledu** drwy gyhoeddi adroddiadau ar y diwydiannau teledu a radio a monitro cynnydd darlledwyr o ran cyrraedd ymrwymadau a thargedau 2020 yng nghyswllt cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth.
- Cymryd rhan yn y ddadl am **ddyfodol rheoleiddio ar-lein** a darparu cyngor i wneuthurwyr polisiau. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyntaf a fydd yn amlinellu'r tueddiadau yn y sector ar-lein ac yn asesu sut mae pobl yn cael eu gwasanaethu gan raglenni a chynnwys ar-lein.
- Adeiladu'r gallu i **sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau yn rheoli risgiau diogelwch ac yn sicrhau lefelau priodol o gadernid**. Rydyn ni wedi gweithredu gofynion o dan y Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth (NIS), sy'n rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr i ddiogelu gwasanaethau hanfodol y DU. Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cwblhau ei dau gynllun pilot o'r cynllun 'TBEST' – cynllun treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth sy'n asesu sut byddai cwmni yn ymdopi ag ymosodiad ar y cyd ar sail y technegau sy'n

cael eu defnyddio gan seiber droseddwr a gwladwriaethau gelyniaethus. Rydyn ni wedi cymryd y cynllun TBEST drosodd a byddwn yn lansio ein fersiwn yn gynnar yn 2019. Mae TBEST yn rhan o Gynllun Sicrhau Diogelwch a Chadernid roedden ni wedi'i lansio ym mis Chwefror 2019. Bydd y fenter hon yn ein galluogi ni i ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch a chadernid gweithredol. Pan fyddwn ni'n dod o hyd i fylchau, rydyn ni'n bwriadu gweithio gyda'r diwydiant i wneud gwelliannau.

Lloegr

- 5.7 Ein nod ydy sicrhau bod ein polisiau'n ystyried yr holl gymunedau yn Lloegr. Bydd rhai materion yn dal yn bwysig, o ddarpariaeth symudol a'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang i amrywiaeth darlledwyr ar y sgrin ac oddi ar y sgrin. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth, Aelodau Seneddol Lleol ac awdurdodau lleol, yn ogystal â chymryd rhan mewn grwpiau fel y Bwrdd Buddsoddi mewn Ffeibr Llawn Lleol.

Gogledd Iwerddon

- 5.8 Wrth i'r DU adael yr UE, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n cymheiriaid yng Ngweriniaeth Iwerddon, ComReg ac Awdurdod Darlledu Iwerddon er mwyn cydlynu a chynnal gwasanaethau cyfathrebu trawsffiniol.
- 5.9 Byddwn yn cynnig cyngor rheoleiddiol a thechnegol, yn enwedig i gefnogi Project Stratum²⁵ a darpariaeth symudol, i adrannau Llywodraeth Gogledd Iwerddon ac i gynghorau lleol yno.

Yr Alban

- 5.10 Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban, Pwyllgorau ac Aelodau o Senedd yr Alban yn ogystal â Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Alban wrth gyflawni ein rhaglen waith 2019/20. Byddwn yn parhau i ddarparu cyngor technegol a data, er enghraifft drwy helpu i sicrhau rhyngweithio llyfn rhwng rhaglen 'Reaching 100%' Llywodraeth yr Alban a'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang, a darparu data am ddarpariaeth symudol i gyfrannu at Raglen Llenwi Symudol 4G Llywodraeth yr Alban.
- 5.11 Byddwn hefyd yn cefnogi ein rhwydwaith ehangach o randdeiliaid yn yr Alban yn ein rôl fel Ysgrifenyddiaeth i Grŵp Trawsbleidiol Senedd yr Alban ar Gyfranogiad Digidol. Rydyn ni wedi datblygu canolfan polisi a gweithrediadau yng Nghaeredin i helpu i sicrhau ein bod yn gallu ymgynghori'n effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys y diwydiant, ac i gynrychioli buddiannau pobl ar amrywiaeth o faterion.
- 5.12 Fel rhan o'n cyfrifoldebau dros adolygu perfformiad y BBC, byddwn yn monitro'r sianel BBC Scotland newydd i sicrhau ei bod yn diwallu ei gofynion yn Nhrwydded Weithredu'r BBC.

²⁵ Y prosiect yma ydy'r cynnig i fuddsoddi £150m o arian cyhoeddus mewn band eang fel rhan o'r cytundeb Hyder a Chyflenwi rhwng y Ceidwadwyr a'r DUP.

Byddwn hefyd yn parhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol mewn perthynas â MG ALBA;²⁶ er enghraifft yng nghyswllt unrhyw benodiadau ar Fwrdd MG ALBA a drwy sicrhau ymatebion amserol i unrhyw newidiadau gweithredol sy'n cefnogi amcan strategol MG ALBA sef sicrhau bod rhaglenni teledu Gaeleg o ansawdd uchel ar gael i bobl yr Alban.

Cymru

- 5.13 Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i helpu i wella cysylltedd llais a data symudol i lefelau sy'n cyfateb i gyfartaledd y DU. Byddwn hefyd yn cynghori sefydliadau a chymunedau ledled Cymru sy'n gweithio i wella darpariaeth.
- 5.14 Byddwn yn cydweithio â phartïon sydd â diddordeb fel y Ganolfan Sbectrwm Genedlaethol arfaethedig a'r Grŵp Ymgynghorol 5G a sefydlwyd yn ddiweddar er mwyn helpu Cymru i chwarae ei rhan yn datblygu ac yn darparu technoleg 5G.
- 5.15 Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i ddod â gwasanaethau band eang cyflymach i eiddo yng Nghymru nad ydyn nhw'n cael mynediad iddo ar hyn o bryd.
- 5.16 Byddwn yn gweithio gyda busnesau, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael ag anghenion cyfathrebu busnesau bach a chanolig Cymru.
- 5.17 Byddwn yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn ffordd arloesol a phwrpasol, gan annog pobl i ymgysylltu ag Ofcom yn eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg, tra'n cynnal ein hanes llwyddiannus o weithredu Safonau'r Gymraeg.

²⁶ MG ALBA ydy'r Gwasanaeth Cyfryngau Gaeleg

6. Sicrhau gwerth am arian

Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian

- 6.1 Ers dechrau Adolygiad o Wariant 2015 Llywodraeth y DU rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau arbedion termau real sy'n gyson â'r sector cyhoeddus, ac wedi ymrwymo hefyd i'n hymgyrch ni i fod yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol.
- 6.2 Rydyn ni wedi pennu cyllideb o £124.2m ar gyfer 2019/20. Dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant, rydyn ni wedi ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol yng nghyswllt Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol a'r BBC, ac mae ein cyllideb yn adlewyrchu hyn. Ar sail debyg am debyg, mae ein cyllideb wedi aros yn wastad yn nhermau arian parod (£115.7m); mewn termau real, mae hyn yn cynrychioli 7% o ostyngiad. Rydyn ni'n parhau i sicrhau gostyngiadau cyllidebol cyfatebol tebyg am debyg mewn termau real, a byddwn yn parhau i ganfod arbedion effeithlonrwydd lle bo'n bosibl.

Cap gwariant ar gyfer 2019/20

- 6.3 Rydyn ni wedi cytuno ar gap gwariant o £124.2m gyda'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Trysorlys ar gyfer 2019/20, sy'n cynnwys capasiti ar gyfer ein cyfrifoldebau yn rheoleiddio'r BBC, gweithio ar y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang a seiberddiogelwch. Mae hyn yn cynrychioli arbediad effeithlonrwydd real o 2% wrth gymharu â 2018/19.
- 6.4 Mae ein costau'n cael eu dyrannu i sectorau rhanddeiliaid a bydd y rhaniad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon yn ein Tablau Tariffau. Mae'r cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydyn ni wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y dull rydyn ni wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2019/20

- 6.5 Mae adolygu sut rydyn ni'n gweithio'n gyson yn ein helpu i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Pan fydd adnoddau'n brin, byddwn yn gwneud dewisiadau, wedi'u harwain gan ein nodau a'n dyletswydd i hybu buddiannau pobl.
- 6.6 Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau i gyflawni ein dyletswyddau drwy gynllunio strategol a drwy ddelio â'n cyllidebau a'n rhagolygon mewn ffordd integredig. Byddwn yn adolygu blaenoriaethau, capasiti a galw yn rheolaidd i sicrhau ein bod yn gallu bodloni ein hamcanion. Byddwn hefyd yn parhau i gynyddu ein harbedion effeithlonrwydd drwy ein gwaith masnachol yn sicrhau'r prisiau a'r ansawdd gorau gan ein cyflenwyr.
- 6.7 Mae gwella ein swyddfeydd wedi arwain at amgylchedd gwaith sy'n fwy hyblyg ac ystwyth ar gyfer ein gweithlu ac mae wedi lleihau ein hól troed yn Llundain. Yn y pen draw bydd hyn yn arwain at arbed o leiaf £3m y flwyddyn.

A1. Beth rydym yn ei wneud

- A1.1 Pwrpas Ofcom yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri phrif nod:
- hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr;
 - sicrhau safonau a gwella ansawdd; a
 - diogelu defnyddwyr rhag niwed.
- A1.2 Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio, gwasanaethau fideo ar-alw, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag triniaeth ac ymarfer niweidiol. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.
- A1.3 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Rydyn ni'n darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein gwaith ar weithredu darparwr gwasanaeth cyffredinol band eang yn y DU) ac, mewn rhai achosion, rydyn ni'n gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol Llywodraeth y DU (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

- A1.4 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu'n unol â nifer o Ddeddfau Seneddol.²⁷ Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaethau post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth; mae ein pwerau cystadleuaeth yn cael eu hamlinellu yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

- A1.5 Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:

²⁷ Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddfau yr Economi Ddigidol 2010 a 2017 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

- sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebu electronig;
 - sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm radio;
 - sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd da yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
 - sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu;
 - mae'r BBC yn cael ei ddal i gyfrif am ei gydymffurfiaid â safonau priodol, ei berfformiad yn erbyn ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus, ac effaith ei weithgareddau ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a
 - sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.
- A1.6 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion defnyddwyr unigol ynghylch gwasanaethau post a thelegyfathrebiadau, yn wahanol i'w bwerau gyda theledu a radio. Pan fo'n briodol, rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.
- A1.7 Mae gan Ofcom ddyletswydd hefyd i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau mewn perthynas â deunyddiau sy'n cael eu darlledu neu eu dosbarthu drwy rwydwaith cyfathrebiadau electronig (sy'n cynnwys ar-lein). Mae cwmpas y ddyletswydd llythrennedd yn y cyfryngau yn eang, ac mae'n cynnwys bod Ofcom yn gweithredu i wella dealltwriaeth y cyhoedd o natur a nodweddion deunydd a gyhoeddir ar-lein; y prosesau a ddefnyddir i ddewis neu i ddarparu deunydd o'r fath, ar gyfer ei gyhoeddi ar-lein; y systemau sydd ar gael i reoleiddio neu y gellid eu defnyddio i reoleiddio mynediad at ddeunydd a gyhoeddir ar-lein; a'r systemau sydd ar gael i bobl reoli'r hyn a dderbynnir ac at ba ddefnydd mae modd defnyddio systemau o'r fath. Mae gan Ofcom ddyletswydd ar wahân i gynnal ymchwil ymysg defnyddwyr, gan gynnwys ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau.

Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

- A1.8 Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio a nodir uchod, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau i:
- orfodi gwaharddiadau ar gytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol, fel y nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998, a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
 - ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).
- A1.9 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol penodol.

A2. Y rhaglen waith ar gyfer 2019/20

A2.1 Isod, rydym yn nodi ein rhaglen waith ar gyfer 2019/20. Rydym yn darparu manylion am y prosiectau sy'n sail i'n meysydd gwaith blaenoriaeth, yn ogystal â'n cynllun gwaith ehangach i gyflawni ein nodau. Ers y Cynllun arfaethedig, rydym wedi ychwanegu sawl prosiect yn dilyn cyhoeddiadau rheoleiddio diweddar, ac rydym hefyd wedi cadarnhau ein prif gyhoeddiadau o ran ymchwil i'r farchnad.

Darpariaeth band eang a symudol gwell – lle bynnag fyddwch chi

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Clirio'r sbectrwm 700MHz: Byddwn yn parhau i weithio i glirio gwasanaethau teledu daearol digidol oddi ar y band 700 MHz er mwyn rhyddhau'r sbectrwm hwn ar gyfer data symudol. Byddwn yn parhau i weinyddu cynllun grantiau i ariannu'r costau ychwanegol a gaiff darlledwyr o ganlyniad i'r newidiadau mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â chlirio 700 MHz. Ein cynllun ydy sicrhau bod y band 700 MHz ar gael i wasanaethau symudol erbyn mis Mai 2020.	Bydd digwyddiadau clirio yn parhau mewn ardaloedd yng Nghymru, Gorllewin Lloegr, Gogledd Lloegr, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn 2019/20.
Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang (USO): Byddwn yn gweithredu rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang. Yn benodol bydd Ofcom yn gwneud y canlynol: dynodi un neu fwy o Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol i ddarparu'r gwasanaeth; sefydlu'r rhwymedigaethau y mae'n rhaid i'r Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol eu diwallu er mwyn cyflawni'r cynllun yn unol â'r ddeddfwriaeth; a phenderfynu sut gellid gwneud iawn am y costau a gaiff Darparwyr Gwasanaeth Cyffredinol. Wrth weithredu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, dyma ein hamcanion: darparu'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol mor gyflym â phosibl, er mwyn i ddefnyddwyr elwa cyn gynted â phosibl; sicrhau bod unrhyw ddarparwr dynodedig yn gallu darparu gwasanaethau sy'n diwallu gofynion y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol; a sicrhau bod cost cyflawni, ac felly'r effaith ar ddiwydiant ac ar ddefnyddwyr, yn cael ei chadw mor isel â phosibl.	Datganiad Ch1 2019/20
Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes: Byddwn yn cwblhau ein hasesiad cystadleuaeth o'r farchnad ar gyfer cysylltiadau busnes cyflym, gyda golwg ar ddarparu llwyfan sefydlog ar gyfer buddsoddi mewn rhwydweithiau newydd.	Datganiad Ch1 2019/20
Datblygu strategaeth rheoli sbectrwm wedi'i diweddarau: Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddatblygu ein strategaeth rheoli sbectrwm,	Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid Ch2 2019/20

gan gasglu gwybodaeth gan randdeiliaid i sicrhau bod y sbectrwm ar gael i ddiwallu newidiadau mewn gofynion.	
Galluogi rhagor o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau symudol gan gynnwys gwasanaethau 5G: Byddwn yn ymgysylltu'n rhyngwladol, ar lefel Ewropeaidd ac yn fyd-eang, i sicrhau bod yr amodau technegol ar gyfer y bandiau sbectrwm blaenoriaeth yn briodol ar gyfer gwasanaethau symudol, gan gynnwys gwasanaethau 5G. Byddwn yn parhau â'n gwaith i ddeall y galw am sbectrwm yn y dyfodol.	Cyfrannu at Gynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd - 19
Gwella darpariaeth symudol (atebion sbectrwm): Rydyn ni'n gweithredu er mwyn galluogi atebion ar sail sbectrwm y gellid eu defnyddio i wella darpariaeth dan do ac mewn cymunedau gwledig. Er enghraifft, galluogi celloedd bach wedi'u gosod eu hunain, neu ryddhau sbectrwm y byddai modd ei ddefnyddio gydag ychydig o bŵer mewn lleoliadau penodol, neu addasu rheolau mynediad at sbectrwm er mwyn gallu datblygu atebion.	Datganiad Ch2 2019/20
Gwella darpariaeth symudol: Rydyn ni'n parhau i edrych ar ffyrdd o wella darpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac i gefnogi'r gwaith o barhau i ddyfarnu'r band sbectrwm 700MHz. Mae'r gwaith hefyd yn edrych ar sut i fesur ac adrodd ar ddarpariaeth symudol, mewn ffordd ystyrlon i ddefnyddwyr a busnesau.	Parhaus
Adolygiad o'r farchnad seilwaith ffisegol: Byddwn yn cwblhau ein hasesiad o'r gystadleuaeth yn y farchnad ar gyfer seilwaith ffisegol, gyda golwg ar gyflwyno ateb mynediad anghyfyngedig at bibellau a pholion.	Datganiad Ch1 2019/20
Paratoi ar gyfer dyfarniadau sbectrwm yn y dyfodol wrth iddyn nhw gael eu clirio a'u rhyddhau: Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'n cynigion ar gyfer dyfarnu'r bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz, gan gynnwys cymhellion i wella darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig. Byddwn yn dod i gasgliad gyda phenderfyniad ynghylch sut mae bwrw ymlaen â'r dyfarniad a bydd hyn wedi'i nodi mewn Datganiad, gyda golwg ar gwblhau'r dyfarniad erbyn Gwanwyn 2020.	Cyhoeddi datganiad Ch3 2019/20, Ceisiadau arwerthiant c. Rhag 2019
Adrodd ar brofiad symudol defnyddwyr: Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar y perfformiad a ddarperir i ffonau clyfar defnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o berfformiad cysylltiadau symudol ar gyfer gwasanaethau llais a data a sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl	Adroddiad Ch3 2019/20

<p>ystod o ffactorau gan gynnwys technoleg, daearyddiaeth ac amser o'r dydd.</p>	
<p>Adrodd ar berfformiad band eang yn y cartref: Byddwn yn adrodd ar ddata a gasglwyd gan banel o ddefnyddwyr band eang preswyl sydd ag unedau monitro wedi'u cysylltu â'u llwybrydd band eang. Bydd yn cynnwys asesiadau o'r modd mae cyflymderau a metrigau perfformiad eraill yn amrywio yn ôl technoleg, darparwr, amser o'r dydd a daearyddiaeth.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2019/20</p>
<p>Rhannu sbectrwm: Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio mor effeithlon â phosibl, drwy agor mynediad at sbectrwm i chwaraewyr a busnesau newydd lle nad ydy'r sbectrwm yn cael ei ddefnyddio, a drwy fwy o rannu pan fydd hynny'n briodol. I ddechrau byddwn yn canolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> - agor mynediad i ddefnyddwyr ychwanegol yn y band gwarchod 3.8-4.2GHz, 2.3GHz a 1800MHz; a - mynediad trydydd parti i sbectrwm symudol. <p>Byddwn yn cadarnhau ein dull gweithredu, gan gynnwys ystyried y mecanwaith awdurdodi a'r ffioedd priodol.</p> <p>Ein cynllun fyddai ychwanegu sbectrwm arall at y fframwaith hwn pan fo'n briodol.</p>	<p>Datganiad Ch2 2019/20</p>
<p>Cefnogi lansio rhwydweithiau a gwasanaethau 5G: Rhaglen waith y bwriedir iddi baratoi ar gyfer lansio rhwydweithiau 5G yn fasnachol. Mae hyn yn asesu'r cysylltiadau rhwng hollti rhwydweithiau a rheoliadau niwtraliaeth y rhyngwyd a defnyddio technolegau 5G er mwyn darparu gwasanaethau di-wifr sefydlog. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â defnyddwyr a busnesau ynghylch manteision amrywiaeth eang o wasanaethau 5G. Byddwn yn darparu rhagor o gefnogaeth rheoleiddio ar gyfer cynnal profion yn y diwydiant a chyflwyno'n gynnar drwy gydol y flwyddyn, er mwyn sicrhau canlyniadau da i ddiwydiant ac i ddefnyddwyr yn y DU.</p>	<p>Parhaus</p>

Tegwch i gwsmeriaid

Manylion y Prosiect	Carreg Filtir
<p>Prisiau ar gyfer amser ar yr awyr a contractau ffôn symudol wedi'u bwndelu: Rydyn ni'n gweithio i sicrhau prisiau tecach, mwy tryloyw i gwsmeriaid ffonau symudol sy'n talu am y ffôn ei hun ac am amser ar yr awyr o dan yr un contract.</p>	<p>Ymgynghoriad Ch1 2019/20 Datganiad Ch3 2019/20</p>

<p>Arferion prisio gwahaniaethol: Byddwn yn edrych ar degwch arferion prisio sy'n golygu bod defnyddwyr yn talu mwy am wasanaethau cyfathrebu oherwydd statws eu contract, hyd eu contract neu ffactorau eraill.</p>	<p>Ymgynghoriad Ch2 2019/20 Datganiad Ch4 2019/20</p>
<p>Hysbysiadau diwedd contract a'r tariff gorau: Cadarnhau ein cynlluniau i gwmnïau band eang, symudol, llinell dir a theledu drwy dalu roi gwybod i gwsmeriaid am y fargen orau sydd ar gael ganddyn nhw pan fydd eu contract yn dirwyn i ben, a bob blwyddyn ar ôl hynny os na fyddan nhw'n newid eu cytundeb.</p>	<p>Datganiad Ch1 2019/20</p>
<p>Dyfodol data defnyddwyr: Mae arnom eisiau i ddefnyddwyr gael yr wybodaeth iawn i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd fwyaf addas i'w hanghenion nhw. Rydyn ni'n ystyried y ffordd orau o sicrhau bod data ar gael ar argaeledd, cyflymder a defnydd gwasanaethau cyfathrebu defnyddwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â'r Llywodraeth ar ei Hadolygiad o Ddata Clyfar.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Cyfranogiad a bregusrwydd: Rydyn ni'n gweithio i gefnogi anghenion a buddiannau'r rheini sy'n anabl, yn oedrannus, ar incwm isel neu'n byw mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal â'r rheini y mae'n ymddangos bod eu hamgylchiadau'n golygu bod angen eu hamddiffyn yn arbennig. Byddwn yn cyfrannu at waith polisi ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr agored i niwed.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Prisiau personol: Byddwn yn adolygu'r materion posibl o ran cystadleuaeth a defnyddwyr a fydd yn deillio o brisiau personol, gan gynnwys defnyddio 'data mawr' ac algorithmau i hwyluso prisiau personol.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Cynllun Achredu Pris: Byddwn yn adolygu ein cynllun achredu ar gyfer gwefannau cymharu prisiau i sicrhau ei fod yn parhau i weithio i ddefnyddwyr yn y farchnad fodern, ac i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag amcanion y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd.</p>	<p>Adolygiad Ch3 2019/20</p>
<p>Adrodd ar ganlyniadau i gynulleidfaoedd y DU: Byddwn yn cyhoeddi ein hail adroddiad Cyfryngau'r Genedl, sy'n edrych ar sut mae cynulleidfaoedd yn y DU yn cael eu gwasanaethu gan gynnwys fideo a sain. Bydd hyn yn asesu'r nifer sy'n cymryd ac yn defnyddio teledu a radio a ddarlledir ac effaith gwasanaethau ar-alw a ffrydio. Bydd hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.</p>	<p>Adroddiad Ch2 2019/20</p>

<p>Adrodd ar batrymau prisio: Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar batrymau prisio gwasanaethau sefydlog, symudol a theledu drwy dalu. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r prisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr sy'n prynu mathau gwahanol o wasanaethau a chrynodeb o beth mae defnyddwyr, ar gyfartaledd, yn ei dalu. Bydd hefyd yn edrych ar strwythurau tariff a sut mae prisiau 'gostyngedig' yn amrywio o brisiau safonol neu brisiau 'rhestr'.</p>	Adroddiad Ch3 2019/20
<p>Adolygiad o'r Amodau Cyffredinol a'r Amodau Gwasanaeth Cyffredinol i weithredu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd: Mae adran hawliau defnyddwyr y cod yn rhoi sylw i nifer o feysydd pwysig i ddefnyddwyr ac i fusnesau, fel newid rhwng darparwyr a hyd a therfynu contractau. Byddwn yn adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol (yr amodau rheoleiddio sy'n darparu diogelwch i ddefnyddwyr ac i fusnesau), gan ystyried beth ellid fod angen ei ddiwygio i gydymffurfio â'r cod newydd.</p>	Adolygiad Ch3 2019/20
<p>Cefnogi defnyddwyr yn y marchnadoedd cyfathrebiadau: Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y cynlluniau mae Ofcom yn eu cymeradwyo neu'n eu goruchwyllo sy'n cefnogi defnyddwyr yn uniongyrchol fel cynlluniau ADR.</p>	Parhaus

Cefnogi darlledu yn y DU

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
<p>Gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC: Parhau i gasglu gwybodaeth a monitro cydymffurfiad y BBC â'n gofynion (gan gynnwys asesu pa mor sylweddol ydy unrhyw newidiadau i'r gweithgareddau hyn).</p>	Parhaus
<p>Adolygiad o BBC Studios: Byddwn yn adolygu esblygiad BBC Studios, gan gynnwys sut mae wedi gweithredu ein gofynion Masnachu a Gwahanu. Byddwn yn cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl yn ystod hydref 2019, ar sail materion a godwyd gan randdeiliaid a'r wybodaeth a gasglwyd o dan ein rhaglen monitro barhaus. Rydyn ni'n disgwyl i'r gwaith yma barhau i 2020/21.</p>	Cylch Gorchwyl Ch3 2019/20
<p>Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC: Byddwn yn ystyried asesiad y BBC ynghylch a ydy ei wasanaeth ffrydio menter ar y cyd newydd, BritBox, yn newid sylweddol i'w weithgareddau masnachol. Yn benodol, byddwn yn ystyried a oes risg sylweddol o ystumio'r farchnad neu fod mantais gystadleuol annheg o ganlyniad i'r berthynas gyda'r Gwasanaeth Cyhoeddus.</p>	Parhaus

<p>Newidiadau sylweddol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC: Byddwn yn ystyried Prawf Lles y Cyhoedd y BBC ar ei gynigion iPlayer i bennu a yw'n newid sylweddol ac os oes angen Asesiad Cystadleuaeth BBC. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus eraill y BBC i sicrhau bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu craffu'n briodol o ran rheoleiddio.</p>	Parhaus
<p>Adroddiad ar newyddion: Byddwn yn parhau i ddarparu trosolwg o agweddau ac arferion cael gafael ar newyddion ledled y DU, ar sail data ein harolwg blynyddol</p>	Adroddiad Ch1 2019/20
<p>Cyhoeddi adolygiad o allbwn newyddion a materion cyfoes y BBC: Bydd ein hadolygiad yn edrych ar sut mae'r BBC yn addasu i newidiadau mewn amgylchedd newyddion i sicrhau ei fod yn gallu parhau i ddarparu newyddion a materion cyfoes sy'n berthnasol, o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy ar gyfer pob cynulleidfa. Byddwn yn edrych ar sut mae'n darparu amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiad manwl ar draws teledu, radio ac ar-lein.</p>	Adroddiad Ch3 2019/20
<p>Cyhoeddi adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC: Byddwn yn nodi sut rydym wedi cynnal ein dyletswyddau ac yn asesu cydymffurfiad y BBC â'r gofynion penodol yn y Fframwaith Gweithredu a'r Drwydded Weithredu. Byddwn yn hefyd cyhoeddi adroddiad ar wahân yn mesur perfformiad y BBC o ran cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus ar draws ei wasanaethau cyhoeddus.</p>	Adroddiad Ch3 2019/20
<p>Adroddiad ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau: Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser.</p>	Adroddiad Ch1 2019/20
<p>Ymateb i Ddatganiad Polisi Cynnwys Cyfryngau blynyddol Corfforaeth Channel 4: Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i sut mae Channel 4 yn cyflawni ei gynlluniau a'i ddyletswyddau cynnwys cyfryngau ar gyfer y flwyddyn ganlynol, fel y nodir yn ei ddatganiad.</p>	Adroddiad Ch1 2019/20
<p>Adolygu cynnwys plant: Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r cynlluniau a ddatblygwyd gan ddarlledwyr i fynd i'r afael â'n pryderon o ran darparu cynnwys i blant.</p>	Adroddiad ar ymatebion darlledwyr Ch2 2019/20
<p>Adolygu'r Cod cyfeirydd rhaglenni electronig (EPG) a dyfodol amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: Yn 2018/19 roedden ni wedi ymgynghori ynghylch diweddariadau i'r adran ar</p>	Casgliadau cychwynnol Ch1 2019/20

amlygrwydd yng Nghod EPG Ofcom, ochr yn ochr â chynigion ar gyfer ymestyn y drefn amlygrwydd i wasanaethau ar-lein.	
Adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus: Byddwn yn edrych ar sut mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni nodau ac amcanion a bennwyd gan y Senedd dros y pum mlynedd diwethaf. Byddwn yn edrych ar y rhaglenni sydd wedi cael eu gwneud, y cynulleidfaoedd a gafodd eu cyrraedd a pha mor fodlon oedd cynulleidfaoedd ar yr allbwn darlledu gwasanaeth cyhoeddus.	Dogfen ar amseru Ch1 2019/20
DAB graddfa fach: Nes bydd cynnig statudol yn cael ei osod gerbron y Senedd, byddwn yn ymgynghori ynghylch fframwaith trwyddedu arfaethedig ar gyfer DAB graddfa fach, gan gynnwys amodau trwydded, prosesau ar gyfer dyfarnu trwyddedau a chynllun amllder, er mwyn cefnogi rownd gyntaf o drwyddedu amblecsau graddfa fach.	Datganiad Ch3 2019/20 Hysbysebion trwydded Ch4 2019/2020

Codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Cynnwys niweidiol ar-lein: Cyfrannu at drafodaethau polisi ar fynd i'r afael â chynnwys niweidiol ar-lein, wedi'i gefnogi gan raglen o ymchwil manwl o brofiadau pobl a'u hagweddau at ddiogelwch ar-lein.	Parhaus
Adrodd ar sut mae defnyddwyr a dinasyddion yn cael eu gwasanaethu gan gynnwys a rhaglenni ar-lein. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol newydd a fydd yn amlinellu'r tueddiadau yn y sector ar-lein ac yn asesu sut mae defnyddwyr a dinasyddion yn cael eu gwasanaethu gan gynnwys a rhaglenni ar-lein.	Adroddiad Ch1 2019/20

Cefnogi defnyddwyr a'r diwydiant drwy Brexit

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol: Pan fo'n briodol ac yn angenrheidiol, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i drosi deddfwriaeth Ewropeaidd berthnasol i gyfraith genedlaethol. Drwy wneud hyn, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gymesur ac yn briodol, ei bod yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn diwallu anghenion defnyddwyr nawr ac yn y dyfodol.	Parhaus

<p>Goblygiadau strategol y newid yn natur ein perthynas â'r UE: Nid oes gan Ofcom farn ar Brexit. Byddwn yn darparu cyngor i'r Llywodraeth yn ôl y gofyn i gefnogi'r trafodaethau gyda'r UE ar fanylion ein perthynas yn y dyfodol. Pan fo'n berthnasol, byddwn hefyd yn darparu cyngor ar unrhyw newidiadau deddfwriaethol sydd eu hangen i ategu'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Wrth i'r broses esblygu, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i ddeall eu sefyllfa a'u blaenoriaethau.</p>	Parhaus
---	---------

Galluogi rhwydweithiau cryf a diogel

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
<p>Adeiladu gallu seiberddiogelwch a pharhau i sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau a gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn rheoli risgiau diogelwch a lefelau priodol o gadernid: Mae'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cwblhau ei ddau gynllun peilot o'r cynllun 'TBEST' – cynllun profion treiddio bygythiadau sy'n seiliedig ar wybodaeth sy'n asesu sut byddai cwmni yn ymdopi ag ymosodiad ar y cyd ar sail y technegau sy'n cael eu defnyddio gan seiber droseddwyr a gwladwriaethau gelyniaethus. Rydyn ni wedi cymryd y cynllun drosodd a byddwn yn lansio ein fersiwn yn gynnar yn 2019. Mae TBEST yn rhan o Gynllun Sicrhau Diogelwch a Chadernid roedden ni wedi'i lansio ym mis Chwefror 2019. Bydd y fenter hon yn ein galluogi ni i ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch a chadernid gweithredol. Pan fyddwn ni'n dod o hyd i fylchau, rydyn ni'n bwriadu gweithio gyda'r diwydiant i wneud gwelliannau.</p>	Cynllun Sicrhau Diogelwch a Chadernid dechrau 2019

Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
<p>Adroddiad Ofcom ar Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd hwn yn adroddiad llawn ar broffil amrywiaeth cydweithwyr yn Ofcom am y cyfnod 2018-19. Mae'n dilyn ein hadroddiad interim a gafodd ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2018. Bydd yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd ar ein Rhaglen Amrywiaeth a Chynhwysiant.</p>	Adroddiad Ch1 2019/20

<p>Archwiliad Cyflog Cyfartal a Chyflog o ran y Rhywiau ac Ethnigrwydd. Bydd yr adroddiad yn egluro ein data ar gyflog o ran y rhywiau ac ethnigrwydd ar gyfer y cyfnod 2019/20. Ochr yn ochr â'r data, bydd yr adroddiad yn nodi'r camau mae Ofcom yn eu cymryd i sicrhau dull gweithredu cadarn a theg ar gyfer sut caiff cydweithwyr eu gwobrwyo.</p>	<p>Archwiliad Ch4 2019/20</p>
<p>Cynyddu hygyrchedd ar deledu a gwasanaethau rhaglenni ar-alw: Pan fydd y Llywodraeth wedi pennu rheoliadau newydd yn y maes yma (yn seiliedig ar ein hargymhellion), byddwn yn ymgynghori ar god newydd ar ofynion gwasanaethau mynediad ar gyfer gwasanaethau ar-alw.</p>	<p>Ymgynghoriad Ch2 2019/20</p>
<p>Monitro amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu: Byddwn yn parhau i adrodd ar amrywiaeth yn niwydiannau teledu a radio'r DU er mwyn darparu darlun cynhwysfawr o berfformiad darlledwyr unigol – a'r diwydiant drwyddo draw – yng nghyswllt cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant yn eu sefydliadau.</p>	<p>Cyhoeddi 2il adroddiad ar y diwydiant radio Ch1 2019/20</p> <p>Cyhoeddi 3ydd adroddiad ar y diwydiant teledu Ch2 2019/20</p>
<p>Adolygu'r canllawiau i ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ar gynhyrchu y tu allan i Lundain: Byddwn yn cyhoeddi datganiad ar ein hadolygiad o'r canllawiau ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran diwallu amodau eu trwyddedau ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain ac yn y gwledydd.</p>	<p>Datganiad Ch1 2019/20</p>

Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
<p>Adroddiad monitro'r post: Mae hwn yn nodi'r prif ddata a phatrymau yn y sector post fel rhan o'n dyletswydd statudol o sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol.</p>	<p>Adroddiad blynyddol Ch3 2019/20</p>
<p>Adolygiad o ddyraniad costau'r Post Brenhinol: Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o rai o ddulliau dyrannu costau'r Post Brenhinol a'n rheolau costio, ac os bydd angen, byddwn yn diweddarau ein rheolau i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben.</p>	<p>Datganiad Ch1 2019/20</p>
<p>Model costau'r Post Brenhinol: Byddwn yn ymestyn ein gwaith modelu costau o'r gwaelod i fyny ar gyfer rhwydwaith danfon y Post Brenhinol er mwyn iddo fod yn berthnasol i rannau eraill o</p>	<p>Gweithdai rhanddeiliaid Ch2 2019/20</p>

weithrediadau'r Post Brenhinol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi ein hasesiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol.	
Adolygiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol: Byddwn yn cynnal adolygiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Bydd y gwaith hwn yn dangos i ni'n well drwy ddadansoddiad mewnol pa mor gynaliadwy gallai'r gwasanaeth post cyffredinol fod yn y dyfodol. Rydyn ni'n bwriadu darparu ein safbwynt diweddaraf ar gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol, yn ein Diweddariad Monitro Blynyddol o'r farchnad bost.	Diweddariad Ch3 2019/20
Adolygiad o anghenion rhesymol defnyddwyr post: Byddwn yn cynnal ymchwil marchnad a dadansoddiad i adolygu i ba raddau mae'r farchnad bost yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad, yn enwedig y cynnydd mewn siopa ar-lein a'r gostyngiad parhaus mewn llythyrau. Byddwn yn asesu'r goblygiadau a fydd yn deillio o'r newidiadau yn anghenion defnyddwyr post.	Canfyddiadau cychwynnol Ch4 2019/20

Parhau i arloesi ein dull rheoleiddio

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Gweithredu AVMSD: Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ei chynlluniau i weithredu'r Gyfarwydeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMSD) newydd a'i heffaith bosibl ar Ofcom. Mae gofynion newydd yn y Gyfarwydeb yn cynnwys rheolau ar gyfer llwyfannau rhannu fideos i ddiogelu plant rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol a diogelu'r cyhoedd oddi wrth ddeunyddiau sy'n cynnwys cymhelliant a chasineb ar lafar.	Ch2 2020/21
Strategaeth data: Byddwn yn defnyddio dull gweithredu er mwyn defnyddio dadansoddiadau o ddata a deallusrwydd artiffisial yn well i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiau, a byddwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl eraill gael gafael ar y data sydd gennym a'u defnyddio. Bydd hyn yn cynnwys datblygu sgiliau a dealltwriaeth mewn dadansoddi data ac yn gwella offer a phrosesau.	Rhoi dull gweithredu ar waith ar sail archwiliad o'n gallu ar hyn o bryd a gofynion yn y dyfodol Ch1 2019/20
Gweithredu EECC: Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ei chynlluniau i drosi'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd (EECC). Bydd hyn yn golygu adolygu ein Hamodau Hawliau Cyffredinol (yr amodau rheoleiddio sy'n darparu diogelwch i	I'w gwblhau erbyn diwedd 2020

ddefnyddwyr ac i fusnesau), gan ystyried beth ellid fod angen ei ddiwygio i gydymffurfio â'r cod newydd.	
Adroddiadau ariannol rheoleiddiol yn y dyfodol: Byddwn yn ymgynghori ar gynigion i sicrhau bod dyletswyddau adrodd ariannol BT yn cefnogi ein hamcanion rheoleiddiol ehangach.	Ymgynghoriad Ch3 2019/20
Profi dull gweithredu newydd i reoli rhifau ffôn y DU yn well: Mae cludadwyedd rhifau yn galluogi defnyddwyr a busnesau i newid darparwr gwasanaeth gan gadw eu rhif, sy'n arwain at ddewis a chystadleuaeth effeithiol heb gost neu anhwylystod. Fodd bynnag, yn y DU nid oes cronfa ddata gynhwysfawr o'r holl rifau sydd wedi'u dyrannu ac efallai na fydd nifer o atebion cyfredol yn gweithio yn y dyfodol wrth i rwydweithiau fudo i seilwaith protocol rhyngwryd yn llwyr. Yn gydweithrediad â diwydiant, mae'r prosiect yma'n defnyddio technoleg cadwyn atal arloesol i brofi dull gweithredu newydd ar gyfer rheoli rhifau a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol.	Diweddariad statws Ch3 2019/20 Beta yn barod ar gyfer profion Ch4 2019/20

Meysydd Gwaith Eraill

Prosiectau sy'n cefnogi dyfodol teleffoni

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Adolygiad o bolisi rhifo yn y dyfodol: Byddwn yn cynnal adolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn i sicrhau ei fod yn darparu'r hyn mae defnyddwyr yn ei ddeall, yr hyn mae arnyn nhw ei eisiau a'i angen gan rifau ar gyfer y degawd nesaf.	Ymgynghoriad Ch3 2019/20
Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwryd: Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau i helpu i sicrhau bod y materion a godwyd drwy eu mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwryd, gan gynnwys posibilrwydd diffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus yn y dyfodol, yn cael eu hadnabod ac yn cael sylw gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr rhag niwed ac amharu cyn lleied â phosibl arnyn nhw.	Parhaus
Adolygiad o fand cul a therfynu galwadau: Byddwn yn adolygu rheoleiddio'r marchnadoedd band cul sefydlog er mwyn hwyluso disodli gwasanaethau'r Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus gyda gwasanaethau protocol llais dros y rhyngwryd, gan gynnwys unrhyw fesurau diogelu angenrheidiol ar gyfer defnyddwyr.	Ymgynghoriad Ch4 2019/20

Cludadwyedd rhifau: Byddwn yn nodi ein cynigion cychwynnol ar gyfer ateb strategol i gludadwyedd rhifau sefydlog, er mwyn rhoi sylw i lwybro galwadau aneffeithiol a lefel y methiannau mewn cludo rhifau busnes.	Ymgynghoriad Ch1 2019/20
Adolygiad o ryng-gysylltu Byddwn yn rhoi arweiniad ar sut rydyn ni'n disgwyl rheoleiddio rhyng-gysylltu a therfynu galwadau mewn dyfodol sy'n gyfan gwbl ar brotocol rhynggrwyd ac yn ystod y cyfnod pontio i brotocol rhynggrwyd. Mae'n debyg y bydd unrhyw newidiadau i reoleiddio'n debygol o ddod i rym ym mis Ebrill 2021 ar ôl cwblhau adolygiad o'r marchnadoedd terfynu galwadau a band cul.	Ymgynghoriad Ch1 2019/20
Adolygiad o'r farchnad telegyfathrebiadau sefydlog sengl: Byddwn yn ymgynghori ar asesu'r farchnad a chynigion atebion ar gyfer gwasanaethau telegyfathrebiadau sefydlog. Bydd hyn yn cynnwys cysylltiadau llais/band eang cyfanwerthol a llinellau cyfanwerthol ar brydles. Byddai unrhyw atebion yn dod i rym ym mis Ebrill 2021.	Ymgynghoriad Ch3 2019/20

Prosiectau sy'n cefnogi rheoli sbectrwm

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
Clirio 700 MHz - cefnogaeth PMSE: I gefnogi'r gwaith o glirio PMSE, byddwn yn rheoli cynllun grantiau i ariannu cyfran o'r costau mae defnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig yn eu hwynebu o ganlyniad i golli mynediad at y band 700 MHz. Byddwn yn parhau i hybu a galluogi defnyddio'r sbectrwm ychwanegol sydd ar gael ar gyfer PMSE yn y band 960-1164 MHz.	Gorffen cofrestru ar gyfer y cynllun grantiau a dechrau ildio offer a thalu grantiau Ch1 2019/20
Radio cymunedol analog: Byddwn yn gwneud y gwaith cynllunio sbectrwm angenrheidiol i gynyddu'r mynediad ar gyfer radio cymunedol a chefnogi'r bedwaredd rownd o drwyddedu ar gyfer radio cymunedol analog.	Cwblhau'r rownd Ch2 2019/20
Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd (WRC-19): Gan weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, bydd Ofcom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y DU a phartneriaid yn Ewrop i bennu safbwyntiau'r DU ac Ewrop ar gyfer Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2019, gyda'r nod o sicrhau'r canlyniadau sy'n cyd-fynd orau â buddiannau'r DU. Wrth fynd â hyn rhagddo, bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod safbwyntiau'r holl ddefnyddwyr sbectrwm yn cael eu hystyried yn briodol.	Diweddariadau yn y cyfnod cyn WRC 2019

Prosiectau sy'n diogelu defnyddwyr rhag niwed

Manylion y Prosiect	Carreg Filltir
---------------------	----------------

<p>Polisi a rheoleiddio hysbysebion: Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu ymgynghori ar gyfyngiadau ychwanegol ar hysbysebion teledu ar gyfer bwyd a diod sydd â llawer o fraster, halen a siwgr (HFSS), gan gynnwys gwaharddiad cyn 9 o'r gloch. Petai cyfyngiadau llymach yn cael eu cyflwyno, byddai'n rhaid i Ofcom a'i gyd-reoleiddwyr (BCAP ac ASA) weinyddu hyn.</p>	<p>Yn amodol ar ymgynghoriad/datganiad gan y Llywodraeth.</p>
---	---

Prosiectau sy'n darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr a'r farchnad

Manylion y Prosiect	Carreg Filtir
<p>Disgwyliadau cynulleidfaoedd yn y byd digidol: Byddwn yn ymchwilio i safbwyntiau a disgwyliadau pobl o safonau ar draws teledu, radio, ar-alw ac ar-lein. Mae Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio gwasanaethau darlledu ac ar-alw ac mae'n bwysig bod y rheolau sy'n berthnasol i'r rhain yn briodol ac yn gymesur a'u bod yn adlewyrchu newidiadau yn ymddygiad a disgwyliadau cynulleidfaoedd.</p>	<p>Adroddiad Ch3/4 2019/20</p>
<p>Data traws-sector ar y farchnad gyfathrebu: Yn lle ein hadroddiad ysgrifenedig blynyddol i'r farchnad gyfathrebu byddwn yn cyhoeddi porth data rhyngweithiol a fydd yn cynnwys yr holl setiau data allweddol y mae Ofcom yn eu casglu ar draws teledu a chlyweledol, radio a sain, teleffoni symudol a sefydlog, y nifer sydd â'r rhyngwrwyd ac yn ei ddefnyddio, a phost. Byddwn yn diweddarau hwn i sicrhau ei bod hi'n hawdd cael gafael ar ddata mwyaf cyfredol Ofcom.</p>	<p>Porth data rhyngweithiol Ch2 2019/20</p>
<p>Gwella'r wybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch darpariaeth sefydlog a symudol a pherfformiad: Rydyn ni'n parhau i ddarparu gwybodaeth gywir ac mae modd ei chymharu i ddefnyddwyr ar rwydweithiau sefydlog a symudol drwy ein apiau offer gwirio ar-lein a'n rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API). Rydyn ni'n bwriadu gwella swyddogaethau ein apiau ac ehangu ar yr wybodaeth am ddarpariaeth symudol sydd ar gael i fudiadau allanol drwy ryddhau API newydd i ddarparu gwybodaeth am ddarpariaeth symudol dros ardal ddaearyddol ehangach.</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Darparu adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau yn y sectorau symudol a sefydlog: Byddwn yn rhoi metrigau mae modd eu cymharu ynghylch ansawdd gwasanaeth darparwyr cyfathrebiadau i ddefnyddwyr a'r diwydiant.</p>	<p>Adroddiad Ch1 2019/20</p>
<p>Adroddiad ar lythrennedd oedolion yn y cyfryngau: Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau, gan edrych ar lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion y DU. Bydd yn cynnwys data ar ddefnydd, agweddau a</p>	<p>Adroddiad Ch1 2019/20</p>

<p>dealltwriaeth oedolion 16 oed a hŷn yng nghyswllt cyfryngau, a sut mae'r rhain yn newid dros amser.</p>	
<p>Rhoi adroddiad ar lythrennedd plant yn y cyfryngau: Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol ar Agweddau a Defnydd Plant o Gyfryngau, gan roi tystiolaeth fanwl am ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth ymhlith plant a phobl ifanc 5-15 oed, yn ogystal â gwybodaeth fanwl am fynediad i'r cyfryngau a defnydd ymhlith plant 3-4 oed. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwyntiau rhieni am ddefnydd eu plant o gyfryngau, a'r ffyrdd mae rhieni yn monitro neu'n cyfyngu ar ddefnyddio gwahanol fathau o gyfryngau.</p>	<p>Adroddiad Ch3 2019/20</p>

A3. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Digwyddiadau ymgynghori ac ymatebion

- A3.1 Fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Blynyddol Arfaethedig ar 3 Rhagfyr 2018 at ddiben ymgynghoriad.
- A3.2 Ym mis Ionawr 2019 fe wnaethom gynnal digwyddiadau yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Roedd hyn yn gyfle i ni ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid a chlywed safbwyntiau amrywiol am flaenoriaethau Ofcom.
- A3.3 Cawsom 47 o ymatebion ysgrifenedig i'n Cynllun Blynyddol Arfaethedig gan gwmnïau cyfryngau a chyfathrebu, cyrff masnach, sefydliadau budd defnyddwyr, ac unigolion.
- A3.4 Rydyn ni wedi ystyried pob cyflwyniad wrth lunio ein Cynllun Blynyddol terfynol, ac rydyn ni wedi cyhoeddi pob cyflwyniad nad oedd yn gyfrinachol yn llawn ar ein gwefan.²⁸ Isod, rydym wedi darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd, ynghyd â'n hymatebion i'r prif bwyntiau, wedi'u grwpio yn ôl maes blaenoriaeth.

Darpariaeth band eang a symudol gwell – i bawb

Darpariaeth symudol

- A3.5 Gwnaeth **BT** annog Ofcom i barhau i weithio gyda'r diwydiant i drafod ffyrdd o ddiffinio, mesur ac adrodd ar ddarpariaeth gwasanaethau 4G a gwasanaethau 5G sy'n datblygu.
- A3.6 Mae **Llywodraeth Cymru** yn cefnogi gwaith Ofcom i wella'r ddarpariaeth symudol ond mae'n credu y dylai Ofcom weithio gyda Llywodraeth Cymru ac y dylai adlewyrchu'r ymrwymiad hwn i gydweithio yn y Cynllun Blynyddol. Mae'n cefnogi crwydro mewn ardaloedd gwledig i wella'r ddarpariaeth. Byddai'n hoffi gweld gwaith i ddatblygu ac ymgynghori ar gynigion cwmnïau ar gyfer cynnig crwydro rhanbarthol, gan ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig.
- A3.7 Mae **Senedd yr Alban** o blaid cymell cwmnïau rhwydwaith symudol i ddefnyddio'r sbectrwm sydd ganddynt yn llawn gyda'r opsiwn o gynnig i drydydd partion mewn ffordd rwyddach. Mae'n cefnogi gwaith Ofcom ar agor mynediad i'r sbectrwm, sy'n golygu y bydd yn fwy deinamig ac yn cefnogi'r cyfleoedd newydd a gynnigir gan 5G.
- A3.8 Mae **Llywodraeth Cymru** yn credu bod angen i Ofcom fanylu mwy yn 'rhagor o ddewisiadau ar gyfer gwella darpariaeth symudol' i nodi pa waith mae'n disgwyl ei wneud, yn enwedig ynghylch rhannu seilwaith (mastiau, yn benodol) gan gynnwys amserlenni.
- A3.9 Hefyd, hoffai **Llywodraeth Cymru** weld sylw'n cael ei roi ar sut gallai rhannu sbectrwm annog chwaraewyr newydd i ddarparu gwasanaethau symudol lle ceir ychydig neu ddim darpariaeth. Mae'n awyddus i weld sylw ar sut gallai sbectrwm a rennir fod o fudd i

²⁸ Ofcom, Ymgynghoriad: Cynllun Blynyddol Arfaethedig 2019/20, Ymatebion, <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/annual-plan-2019-20>

ymchwil academaidd a busnes a chefnogi ceisiadau newydd mewn ardaloedd gwledig, fel y Rhyngrwyd Pethau (IoT).

- A3.10 Mae **Which?** yn gefnogol o'r gwaith arfaethedig i wella darpariaeth a dywed bod dal oddeutu 23% o eiddo yn y DU heb signal 4G da dan do gan bob gweithredwr. Mae'n dweud y dylai'r rhwymedigaethau sydd ynghlwm wrth yr arwerthiant 700MHz fod yn uchelgeisiol, a dylid bwrw ymlaen â mesurau ychwanegol ar ben y gofynion hyn.
- A3.11 Mae **Senedd yr Alban** yn dweud bod 700 MHz yn bwysig i wella'r ddarpariaeth symudol. Mae'n siomedig â'r targed is newydd o 74% sydd gan yr Alban ar gyfer darpariaeth ddaeryddol ac yn gofyn i Ofcom ailystyried hyn gan ei fod yn ategu'r bwlch darpariaeth sydd eisoes yn bodoli rhwng yr Alban a gweddill y DU. Mae **Llywodraeth Cymru** o'r farn nad yw'r rhwymedigaethau darpariaeth ddaeryddol arfaethedig ar gyfer Cymru, sy'n is na Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn dderbyniol. Bydd yn ymateb yn fanwl i'r ymgynghoriad ar 'Dyfarnu bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz. Mae **BT** o'r farn ei bod yn hanfodol bod Ofcom yn cynllunio rhwymedigaethau'r ddarpariaeth ar gyfer 700MHz yn gywir, ac mae'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at hyn.

Ein hymateb

- A3.12 Ar 18 Rhagfyr 2018, fe wnaethom gyhoeddi ein cynigion ar gyfer dyfarnu bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz. Mae'r band 700 MHz yn addas iawn i gynnig darpariaeth symudol ar draws ardaloedd eang a mannau o dan do. Mae ein cynigion yn cynnwys disgowntiau mawr ar brisiau'r arwerthiant i unrhyw ddau gynigydd sy'n ymrwymo i rwymedigaethau darpariaeth sylweddol, gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau symudol o ansawdd da mewn ardaloedd gwledig ledled y DU gan ganolbwytio ar le mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn teithio. Rydyn ni'n credu bod ein cynigion yn gallu cynnig budd i lawer o bobl, yn enwedig y rheini sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig heb ddarpariaeth symudol cystal. Rydyn ni'n cydnabod hefyd, er y byddai ein cynigion yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig, efallai na fydden nhw'n cynnig ateb cynhwysfawr i'r holl broblemau ynghylch darpariaeth symudol. Rydyn ni'n ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad ar ddyfarnu bandiau sbectrwm 700MHz a 3.6-3.8GHz, ac yn bwriadu cyhoeddi datganiad terfynol yn ystod yr haf. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a chyda Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar ragor o fesurau lle mae angen hynny. Byddwn yn edrych hefyd ar amrywiaeth o opsiynau polisi eraill a thechnolegau newydd ar gyfer gwella darpariaeth symudol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig..
- A3.13 Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae Ofcom wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau rhwydweithiau symudol i ganfod modd o ddiffinio a mesur darpariaeth mewn ffyrdd sy'n mynd ati'n well i adlewyrchu profiad go iawn defnyddwyr. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu'r lefelau darpariaeth a gynigir gan gwmnïau gwahanol. Hyd yma, mae'r gwaith hwn wedi bod yn canolbwytio ar y rhwydweithiau 2G, 3G a 4G, ond yn y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu dechrau gweithio ar asesu cryfder y signal isaf sydd ei angen i sicrhau darpariaeth 5G dda. Byddwn yn parhau i drafod â'r diwydiant drwy gydol y broses hon.

- A3.14 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i wella'r ddarpariaeth symudol ar gyfer pobl a busnesau ledled y DU. Rydyn ni'n croesawu'r gefnogaeth gan Lywodraeth yr Alban yn y broses hon, a byddwn yn parhau i drafod y cysylltiad rhwng ein cynigion a'r rhaglen Llenwi 4G. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y rhwymedigaeth arfaethedig ar ddarpariaeth yn helpu i hybu buddsoddiad yn y rhaglen honno.
- A3.15 Mae Ofcom yn edrych ar opsiynau i sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau cyfathrebu priodol. Rydyn ni eisoes yn cefnogi rhannu seilwaith symudol.
- A3.16 Yn 2018, fe wnaethom roi cyngor i Lywodraeth y DU, gan nodi'r dulliau posib i wella'r ddarpariaeth symudol. Roedd hyn yn cynnwys cyngor am grwydro mewn ardaloedd gwledig. Yn ein hymgyngoriad ar ddyfarnu sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz, fe wnaethom nodi bod manteision rhwymedigaeth crwydro yn ansicr. Byddai hyn yn dibynnu ar barodrwydd darparwr symudol i brynu'r rhwymedigaeth, a dim ond i'r sbectrwm sy'n cael ei ddyfarnu y byddai hyn yn berthnasol. Ni fyddai sicrwydd ychwaith y bydd gweithredwyr symudol eraill yn manteisio ar y cynnig i grwydro ar rwydwaith arall. Fodd bynnag, rydyn ni'n cynnig y dylai trefniadau crwydro lle mae'r ddwy ochr yn cytuno arnynt allu cyfrif tuag at gyflawni'r gofynion daearyddol ac eiddo yn y rhwymedigaethau darpariaeth rydyn ni'n eu cynnig. Yn ogystal â'n cynigion i gynnwys rhwymedigaethau darpariaeth wrth ddyfarnu'r sbectrwm 700MHz a 3.6-3.8 GHz, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i asesu opsiynau eraill ar gyfer gwella'r ddarpariaeth symudol.
- A3.17 Fe wnaethom gyhoeddi ein hymgyngoriad, Galluogi Cyfleoedd ar gyfer Arloesi, ym mis Rhagfyr 2018. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ystyried yr ymatebion, a byddwn yn cyhoeddi datganiad yn yr haf.

Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Band eang

- A3.18 Mynegodd **The UK Competitive Telecommunications Association (UKCTA)** bryderon mai ychydig o fanylion, os o gwbl, oedd ar gael ynghylch sut byddai'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ariannu.

Ein hymateb

- A3.19 Bydd sawl ffactor yn effeithio ar y gost net o ddiwallu rhwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol, ac mae ansicrwydd ynghylch y ffactorau hynny ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys nifer yr adeiladau sy'n gymwys ar gyfer y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol, y technolegau a ddefnyddir i gyflenwi eiddo rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol a'r gost o adeiladu'r seilwaith angenrheidiol. Mae lefel unrhyw gyllid yn cael ei phennu gan lefel baich annheg y gost net sydd ond yn cael ei hasesu yn dilyn cais gan y Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol, sydd wedi'i ddilysu gan Ofcom.
- A3.20 Nid ydym yn credu bod angen i ddarpar Ddarparwyr Gwasanaeth Cyffredinol gael gwybodaeth am y trefniadau ariannu cyn ein bod yn gwneud ein penderfyniad dynodi. Ni ddylai hyn effeithio ar sut byddan nhw'n cyflawni'r rhwymedigaeth i ddarparu cysylltiadau Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i gwsmeriaid cymwys. Rydyn ni'n disgwyl

ymgyngori ynghylch y rheoliadau ariannu yn Ch2. Erbyn y cam hwnnw, byddwn yn gallu ystyried ein penderfyniadau ynghylch pwy ddylai gael ei ddynodi a pha rwymedigaethau gwasanaeth cyffredinol ddylai fod yn berthnasol iddyn nhw.

-
- A3.21 Mynegodd **Openreach** a **BT** bryderon ynghylch pa mor ymarferol oedd yr amserlenni a gynigiwyd gan Ofcom ar gyfer creu rhwydwaith sefydlog, gan dynnu sylw at yr heriau o adeiladu mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd BT y dylid ychwanegu'r gwaith o adennill costau a chyllid at y Cynllun Blynyddol.

Ein hymateb

- A3.22 Rydyn ni wedi ymgynghori ynghylch amserlen o 12 mis fan bellaf ar gyfer darparu, a byddwn yn nodi ein safbwynt terfynol mewn datganiad ddechrau haf 2019.
- A3.23 Rydyn ni wedi nodi'r egwyddorion manwl o ran cyllido'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn ein datganiad o ddi-ddordeb a'r dogfennau ymgynghori y llynedd. Sef, bod modd defnyddio cronfa diwydiant i adennill unrhyw gostau effeithlon sy'n cael eu hystyried yn faich annheg.
- A3.24 Byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am gyllido mewn ymgynghoriad a datganiad yn nes ymlaen eleni.

-
- A3.25 Mynegodd **Llywodraeth Cymru** bryder ynghylch gallu rhaglen y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i ddarparu mewn ardaloedd gwledig iawn yng Nghymru; a mynegodd bryder ynghylch cyflymder y broses llwytho i lawr a gynigir a'r trothwy costau.

Ein hymateb

- A3.26 Cafodd yr elfennau hyn o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol eu nodi gan y Llywodraeth yn y Gorchymyn Gwasanaeth Cyffredinol Band Eang. Rôl Ofcom yw gweithredu'r Gorchymyn yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut mae'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn gallu darparu i adeiladau mewn ardaloedd gwledig iawn yn y ffordd fwyaf effeithiol.

-
- A3.27 Dywedodd **Intelsat** ei fod yn creu y byddai angen cymysgedd o dechnolegau er mwyn diwallu gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Fe wnaeth **Intelsat** ac **OneWeb** dynnu sylw at y rôl y gallai lloerennau ei chwarae wrth ddarparu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

- A3.28 Mynegodd **CityFibre** bryder fod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn canolbwyntio gormod ar atebion technolegol i gyflawni'r diffiniad presennol, yn hytrach na chymell rhywbeth a fyddai'n sicrhau cyflymder uwch.

Ein hymateb

- A3.29 Yn ein cyngor technegol yn 2016, fe wnaethom gydnabod bod modd defnyddio technolegau eraill, fel gofod gwyn teledu a lloerennau sy'n cylchdroi'n isel o gwmpas y ddaear, i ddarparu band eang teilwng yn y dyfodol. Mae ansicrwydd o hyd ynghylch a fydd darparwyr sy'n defnyddio gofod gwyn teledu yn gallu cael mynediad at y sbectrwm gofynnol bob amser a chyflawni manyleb dechnegol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn effeithiol bob tro. Nid yw gwasanaethau lloerennau sy'n cylchdroi'n isel o gwmpas y ddaear ar gael eto, ond efallai y byddan nhw'n gallu darparu gwasanaethau band eang yn y DU yn y blynyddoedd nesaf, ac y byddan nhw wedyn yn fwy tebygol o allu cyflawni manyleb dechnegol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn agos.
- A3.30 Er mwyn cyfrannu at y dasg o lunio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, gofynnodd y Llywodraeth i Ofcom ym mis Mawrth 2016 i ddarparu cyngor technegol am sawl agwedd ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, gan gynnwys cyflymder y gwasanaeth, y galw tebygol, a'r costau darparu posib. Fe wnaethom dynnu sylw at dystiolaeth bod yn rhaid i'r cyflymder llwytho i lawr fod yn o leiaf 10Mbit yr eiliad er mwyn i ddefnyddwyr allu cymryd rhan lawn mewn cymdeithas ddigidol. Byddai cyflymder llwytho i lawr sydd yn o leiaf 10Mbit yr eiliad yn caniatáu i sawl defnyddiwr ddefnyddio'r rhyngwyd ar yr un pryd, gan gynnwys pori ar y we, ffrydio fideos HD, galwadau fideo a chwarae gemau.
- A3.31 Nod y fanyleb dechnegol yn y gorchymyn yw ceisio sicrhau bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r gwasanaethau cyfathrebu digidol sydd eu hangen arnyn nhw y dyddiau hyn, ond efallai y bydd yn rhaid i'r fanyleb gynyddu dros amser i fodloni disgwyliadau a gofynion cynyddol y defnyddwyr. Mae Deddf yr Economi Ddigidol 2017 yn cynnwys adolygiad awtomatig o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol. Mae'n datgan bod yn rhaid adolygu manyleb dechnegol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol pan fydd o leiaf 75% o adeiladau yn y DU yn tanysgrifio i wasanaeth band eang sy'n darparu cyflymder llwytho i lawr o 30Mbit yr eiliad o leiaf.
-
- A3.32 Mynegodd **CityFibre** bryder ynghylch sut byddai'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn rhyngweithio ag ymyriadau cyhoeddus eraill (fel Rhwydweithiau Ffibr Llawn Llywodraeth Leol neu raglen R100 Llywodraeth yr Alban); ac y gallai'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ddod yn ffordd o helpu i ddefnyddio hen dechnoleg. Mae **Llywodraeth yr Alban** yn gweld cyfleoedd i gydweithio ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol a'i Rhaglen Reaching 100%.

Ein hymateb

- A3.33 Mae Ofcom yn parhau i ymgysylltu â rhaglenni band eang sy'n cael eu hariannu ag arian cyhoeddus ar draws y wlad er mwyn deall sut mae'r rhaglenni hyn yn rhyngweithio â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ac i sicrhau cymaint o fudd â phosib i ddefnyddwyr. Ar yr un pryd â datblygu gwaith i gyflawni ein cyfrifoldebau ynghylch y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, rydyn ni'n parhau i drafod â Llywodraeth yr Alban i ddeall ei chynlluniau manwl ar gyfer y rhaglen "Reaching 100%".

Diwygio Openreach yn effeithiol

- A3.34 Tynnodd **Openreach** sylw at yr holl newidiadau sydd wedi'u rhoi ar waith a sut mae wedi cyflwyno'r newidiadau hynny i Ofcom a'r diwydiant. Mae'n nodi hefyd y bydd yn parhau i weithio'n agos gydag Uned Monitro Openreach i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r ymrwymadau newydd, yn ogystal ag ymateb i geisiadau cymesur.
- A3.35 Dywedodd **CityFibre** fod y pwyslais newydd ar gystadleuaeth yn y seilwaith yn cyfiawnhau adolygiad pellach o wahanu Grŵp BT, oherwydd bydd Openreach yn cynnig mewnbwn goddefol i rwydweithiau ffibr eraill a'u prif gystadleuydd Mae'n credu y dylai Ofcom gydnabod y broblem hon yn fwy pendant a dechrau gweithio i ganfod atebion.
- A3.36 Dywedodd **TalkTalk** nad oes dulliau monitro a thryloywder effeithiol yn cael eu defnyddio, gan gynnwys monitro Openreach yn rhagweithiol, i weld sut mae cystadleuaeth yn datblygu ac adnabod ymddygiad sy'n wrth-gystadluol. Mae am weld cyfeiriad at y gwaith hwn yn y Cynllun Blynyddol.

Ein hymateb

- A3.37 Rydyn ni'n monitro perfformiad Openreach i asesu pa mor effeithiol yw'r trefniadau newydd o ran sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr a busnesau ledled y DU. Rydyn ni'n credu y daw hi'n glir i ba raddau y bydd y model newydd yn llwyddo i gyflawni'r manteision hyn ar gyfer defnyddwyr a busnesau, a hynny cyn pen tair blynedd ar ôl ei roi ar waith.
- A3.38 Mae ein gwaith monitro yn canolbwyntio ar asesu a yw BT ac Openreach yn cadw at eu hymrwymadau mewn gweithred ac mewn ysbryd. Mae'r cynnydd yn cael ei ystyried yng nghyd-destun ehangach amcanion yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol. Mae ein gwaith monitro yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd ar gyfer ein hadolygiadau Cysylltu'r Gwledydd a drwy ein Huned Monitro Openreach (mae hyn yn cynnwys monitro cynnydd PIA yn ogystal â gwaith Openreach wrth iddo gyflwyno ei ffibr ei hun), gan ganolbwyntio ar sut mae perfformiad ac ymddygiad Openreach yn cyfrannu at newid cadarnhaol. Mae monitro cydymffurfiad yn y maes hwn yn un o'r prif flaenoriaethau yn rhaglen waith Uned Monitro Openreach ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
- A3.39 Rydyn ni wedi nodi'r materion a godwyd gan rai darparwyr cyfathrebiadau yn eu hymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac rydyn ni'n dal i groesawu adborth gan randdeiliaid am unrhyw bryderon sy'n ymwneud â gweithgarwch neu ymddygiad Openreach.

Rheoleiddio daearyddol

- A3.40 Dywedodd **Llywodraeth Cymru** fod angen i ni ystyried sut y gallwn annog buddsoddiad mewn ardaloedd ag ychydig neu ddim darpariaeth symudol a band eang. Dywedodd fod angen cael ymrwymiad yn y Cynllun Blynyddol i adeiladu ar y gwaith rheoleiddio daearyddol, gan gynnwys ymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw ddull newydd yn adlewyrchu anghenion Cymru.

Ein hymateb

- A3.41 Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd gwahanol amodau daearyddol wrth ystyried darpariaeth ac argaeledd, a byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth wneud unrhyw asesiad o'r fath.

Newid darparwr

- A3.42 Mae **CityFibre** wedi annog Ofcom i flaenoriaethu gwaith sy'n edrych ar newid rhwng darparwyr seilwaith, gan ddadlau bod y cyfraddau newid yn isel ac y gallai'r prosesau cyfredol ei gwneud yn haws i'r rheini sy'n defnyddio rhwydwaith Openreach. Tynnodd **TalkTalk** sylw at y ffaith y dylai'r Cynllun Blynyddol gynnwys manylion gweithgareddau arfaethedig Ofcom ar newid rhwng rhwydweithiau.

Ein hymateb

- A3.43 Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd yn cynnwys nifer o fesurau mewn perthynas â newid, ac mae'r rhain yn berthnasol i newid ar draws llwyfannau. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull gweithredu arfaethedig i weithredu yn Ch3.

Paratoi ar gyfer gwasanaethau 5G

- A3.44 Croesawodd **Three** y ffaith ein bod yn cydnabod bod paratoi ar gyfer gwasanaethau 5G yn bwysig a'n bwriad i ddeall y goblygiadau rheoleiddiol wrth eu lansio. Mae Three yn credu bod ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch a fydd rhai achosion o ddefnyddio 5G yn cael eu caniatáu o dan y rheoliadau presennol ar niwtraliaeth y rhyngwlad. Byddai'r diwydiant yn elwa o gael eglurhad am y maes hwn wrth iddo baratoi ar gyfer lansio gwasanaethau 5G yn fasnachol.
- A3.45 Mae **Techuk** yn gefnogol o waith 5G Ofcom i alluogi sbectrwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau symudol gan gynnwys gwasanaethau 5G. Byddai'n fodlon cydweithio ag Ofcom i ymgysylltu â'r aelodau i sicrhau bod amodau technegol y sbectrwm ar gyfer y bandiau blaenoriaeth yn briodol ar gyfer gwasanaethau symudol, gan gynnwys gwasanaethau 5G.
- A3.46 Mae **BT** am weld cyfeiriad penodol yn y cynllun blynyddol at sbectrwm mmWave ar gyfer 5G, gan gynnwys gwybodaeth am awdurdodi mynediad i'r band 26 GHz a'r trefniadau ar gyfer defnyddwyr presennol. Mae **TechUK** yn credu y dylai cynlluniau awdurdodi ar gyfer y band 26GHz at ddefnydd 5G yn y DU gael eu cynnwys hefyd yng nghynllun gwaith Ofcom yn 2019/20. Mae'r band 26GHz wedi cael ei nodi'n fand arloesol ar gyfer 5G yn Ewrop, a bydd yn caniatáu digon o led band fesul gweithredwr rhwydwaith symudol i ddarparu'r cyfraddau data uchel iawn a'r oedi isel a addawyd gan 5G. Byddai awdurdodi 26 GHz yn caniatáu i Ofcom sicrhau bod gwasanaethau 5G y DU yn parhau i fod ar flaen y gad yn Ewrop ac yn fyd-eang.
- A3.47 Mae **Three** yn cefnogi ymgysylltu rhyngwladol Ofcom i sicrhau bod amodau technegol priodol ar gyfer gwasanaethau symudol, ac mae'n cefnogi Ofcom yn ei waith i nodi bod 23.25-27.5GHz, 40.5-43.5GHz a 66-71GHz yn fandiâu blaenoriaeth ar gyfer 5G yng

Nghynhadledd Radio'r Byd 2019. Fodd bynnag, mae'n credu y dylai Ofcom edrych ar y band 28GHz hefyd.

- A3.48 Nododd **BT** y bydd rhwydweithiau 5G yn galluogi ystod o wasanaethau arloesol. Nododd y bydd angen dynodwr penodol ar wasanaethau Rhyngrwyd Pethau (IoT), fel rhif ffôn symudol, ac efallai y bydd angen gosod amrywiaeth o rifau o'r fath i'r naill ochr at y diben hwn.

Ein hymateb

- A3.49 Byddwn yn ystyried goblygiadau hollti rhwydweithiau mewn rhwydweithiau 5G o dan reoliadau niwtraliaeth y rhyngrwyd. Mae hyn er mwyn deall yn union sut mae'r drefn reoleiddio bresennol yn berthnasol i amrywiol achosion o ddefnydd 5G posib er mwyn i'r drefn allu parhau i fod yn gyson â'r buddsoddiad mewn seilwaith rhwydweithiau newydd.
- A3.50 Rydyn ni'n cydnabod y bydd 5G yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau newydd ac arloesol, gan gynnwys y Rhyngrwyd Pethau. Fel rhan o'n paratodau ar gyfer lansio gwasanaethau 5G yn fasnachol, byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i ddeall yn well yr angen am ddynodwyr ar gyfer gwasanaethau Rhyngrwyd Pethau.
- A3.51 Rydyn ni'n parhau i fonitro'r galw am sbectrwm mmWave, a byddwn yn ymateb i newidiadau yn y galw i sicrhau bod sbectrwm ar gael pan fydd ei angen gan ddefnyddio dulliau awdurdodi priodol.
- A3.52 Rydyn ni'n parhau i gefnogi treialon 5G, gan gynnwys gyda mmWave, i sicrhau canlyniadau da ar gyfer defnyddwyr a'r diwydiant yn y DU. Byddwn yn ymgysylltu'n rhyngwladol ar lefel Ewrop ac yn fyd-eang i weithio ar yr amodau technegol priodol ar gyfer y bandiau blaenoriaeth, gan gynnwys gwasanaethau 5G mmWave.
- A3.53 Gallwn gadarnhau bod y band 28 GHz eisoes yn cael ei ddyfarnu ar gyfer trwyddedau mynediad i sbectrwm.
- A3.54 Fel rhan o'n gwaith i baratoi ar gyfer lansio gwasanaethau rhwydweithiau 5G yn fasnachol a'n rheolaeth barhaus dros rifau ffôn, byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant i ddeall yn well yr angen am ddynodwyr ar gyfer gwasanaethau Rhyngrwyd Pethau sy'n datblygu.

Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cyfathrebu

- A3.55 Mae **Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon** wedi awgrymu y dylai gwaith ansoddol, fel astudiaethau achos, gael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag adroddiad Cysylltu'r Gwledydd. Byddai hyn yn rhoi darlun gwell o effaith gwasanaethau o ansawdd gwael ar ddefnyddwyr a busnesau.

Ein hymateb

- A3.56 Rydyn ni'n cytuno, mewn egwyddor, fod gwerth o bosib mewn cysoni cyhoeddiadau'n fwy manwl sy'n cynnwys dadansoddiad ansoddol a meintiol, os bydd hyn yn helpu i gyfleu negeseuon pwysig. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i roi sylw i gynnwys ansoddol, fel rhan o

adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, ac i ddangos adroddiadau'r gwledydd unigol yn benodol. Bydd prif adroddiad Cysylltu'r Gwledydd ei hun yn dal i fod yn seiliedig ar ddata meintiol, gan nad ydym ni'n casglu data ansoddol i gefnogi ei gyhoeddi.

Paratoi at ddyfarnu bandiau sbectrwm yn y dyfodol

- A3.57 Roedd **Nominet** yn annog Ofcom i gyfuno dwy ffrwd waith: y bwriad i ryddhau bandiau 700MHz a 3.6GHz, a "galluogi cyfleoedd ar gyfer arloesi," i lunio un datganiad gyda dull cyd-gysylltiedig o rannu, a fydd yn cysylltu'r bandiau sydd eisoes yn bodoli a'r bandiau newydd. Mae'n credu bod hyn yn bwysig iawn i ddatgloi darpariaeth 5G a allai, fel arall, gael ei gadael ar ôl heb fuddsoddiad gan weithredwyr rhwydwaith symudol.
- A3.58 Mae **Oneweb** wedi gofyn i ni agor rhan uchaf y band 14 GHz i wasanaethau lloeren mewn orbit heb fod yn ddaearsefydlog (NGSO) sydd ar gael ymhob man. Mae **Intelsat** yn nodi y dylid rhannu sbectrwm mewn ffordd sy'n diogelu'r modd mae'r bandiau'n cael eu defnyddio yn awr ac yn y dyfodol gan ddefnyddwyr presennol. Ar ben hynny, mae'n argymhell defnyddio band 14.25-14.5 GHz i wella effeithlonrwydd y sbectrwm ac i ddiwallu'r angen cynyddol am gysylltedd wrth hedfan.

Ein hymateb

- A3.59 Rydyn ni'n ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddyfarnu bandiau sbectrwm 700MHz a 3.6-3.8GHz a Galluogi Cyfleoedd ar gyfer Arloesi. Byddwn yn cyhoeddi datganiadau terfynol yn ystod yr haf.
- A3.60 Rydyn ni'n nodi cynnig Oneweb o ran agor mynediad i ran uchaf band 14GHz. Mae angen i ni sicrhau bod y broses o ddyrannu pob rhan o'r sbectrwm yn cael ei gwneud yn deg ac yn gymesur, yn enwedig lle mae'r galw'n gystadleuol. Rydyn ni'n nodi argymhelliad Intelsat.

Tegwch i gwsmeriaid band eang, ffôn a theledu

Arferion prisio niweidiol

- A3.61 Roedd cefnogaeth eang i waith ar arferion prisio niweidiol, gan gynnwys gan **Gyngor ar Bopeth yr Alban, UKCTA** a'r **Cyngor Defnyddwyr**. Tynnodd **Which?** sylw at bryderon ynghylch defnyddwyr yn talu am ffonau symudol maen nhw wedi talu amdany'n nhw'n barod, ac yn galw arnom ni i ni ddod â'r arfer hwn i ben. Roedd **BT** yn ein hannog i ystyried 'contractau sydd wedi'u hollti', lle mae cyllido ar gyfer ffonau symudol ar wahân i'r amser ar yr awyr.
- A3.62 Roedd **Which?** yn croesawu ein gwaith a oedd yn delio ag arferion busnes annheg, gan ddweud ei fod yn hanfodol nad yw defnyddwyr yn talu am y ffonau maen nhw eisoes wedi talu amdany'n nhw. Roedd **Cyngor ar Bopeth** yn gefnogol, gan bwysleisio bod angen sicrhau bod y disgownt ffôn awtomatig yn cael ei roi ar ddiwedd cyfnod contract sylfaenol. Roedd **Cyngor ar Bopeth** a'r **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** yn poeni am yr amserlen ac yn teimlo y dylid cyhoeddi datganiad yn gynt.

- A3.63 Roedd **Three** yn cefnogi cynigion Ofcom ar hysbysiadau diwedd contract ac ar hybu ymgysylltiad â'r defnyddwyr. Mae Three yn cefnogi ein gwaith i helpu defnyddwyr agored i niwed, ond mae'r cwmni'n poeni y bydd yr ateb ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed sy'n ymwneud â bwndeli ffôn symudol yn cael eu defnyddio gyda phob cwsmer.

Ein hymateb

- A3.64 Yn ein hymgyngoriad ym mis Medi 'Helpu defnyddwyr i gael bargaen well mewn marchnadoedd cyfathrebiadau - ffonau llaw symudol', fe wnaethom nodi y gallai contractau sydd wedi'u hollti arwain at glymu defnyddwyr mewn contractau hirach. Gallai hyn eu hannog i beidio â newid o bosib a'u hamddifadu o fanteision cystadleuaeth. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, roedd rhai rhanddeiliaid yn cytuno â'r pryderon hyn, tra bod eraill o'r farn bod contractau sydd wedi'u hollti yn decach ac yn fwy tryloyw. Fel rhan o'n gwaith ar ffonau symudol, rydyn ni wrthi'n gweithio i ddeall yr effaith y byddai dyluniad y contractau hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr ac yn ystyried a oes unrhyw fesurau sy'n briodol i sicrhau eu bod yn gweithio er lles iddyn nhw. Byddwn yn ymgynghori ynghylch unrhyw gynigion y byddwn yn penderfynu eu gwneud fel rhan o'n hymgyngoriad arfaethedig ar ffonau symudol yn Ch1 2019/2020.
- A3.65 Rydyn ni'n croesawu adroddiad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), sy'n cefnogi ein gwaith parhaus yn y maes hwn, a byddwn yn ystyried argymhellion yr awdurdod hwn fel rhan o'r gwaith hwn.

-
- A3.66 Mae **BT** yn credu bod gwahaniaethau mewn pris yn dda i gystadleuaeth ac o fantais i ddefnyddwyr, felly byddai angen cydbwysu unrhyw atebion yn ofalus. Fe wnaeth BT gydnabod pryderon yn ymwneud â defnyddwyr agored i niwed ac maen nhw'n gweithio gydag Ofcom ar gynlluniau i fynd i'r afael â hyn. Roedd **First Utility** yn gefnogol o'r gwaith ar arferion prisio gwahaniaethol, ond bydden nhw'n croesawu diffiniadau clir o niwed a chwmpas ymyriadau, a'r cynnyrch sydd o dan sylw.

Ein hymateb

- A3.67 Mae cylch gorchwyl ein hadolygiad o arferion prisio yn y sector band eang sefydlog wedi'u nodi ym mhennod 13 ein hymgyngoriad 'Helpu Defnyddwyr i gael Bargeinion Gwell', a gafodd ei gyhoeddi ar 14 Rhagfyr 2018. Bydd yr adolygiad yn edrych ar raddfa unrhyw niwed sy'n deillio o arferion prisio mewn gwasanaethau dau wasanaeth yn y farchnad band eang sefydlog. Hefyd, bydd yn edrych i weld ar bwy mae hyn yn effeithio ac a oes unrhyw gamau penodol ychwanegol y dylem ni eu cymryd i ddiogelu cwsmeriaid band eang. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar bobl agored i niwed, sy'n gallu cynnwys pobl hŷn, pobl ar incymau is, neu bobl sydd â salwch corfforol neu feddyliol.
-
- A3.68 Cyfeiriodd **TalkTalk** at y potensial i wneud rhagor o waith i fynd i'r afael â niwed sy'n deillio o gynnydd aml mewn prisiau ar ganol contract. Fe wnaeth y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** ddweud bod contractau

heb fod o'r un hyd yn arwain at arferion prisio niweidiol ac y dylid eu cynnwys yn yr adolygiad o arferion prisio gwahaniaethol ar gyfer band eang.

Ein hymateb

A3.69 Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd yn cynnwys nifer o fesurau cryfach i ddiogelu defnyddwyr, gan gynnwys mewn perthynas â newidiadau i'r contract yn ystod y cyfnod sylfaenol. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull gweithredu arfaethedig i weithredu yn Ch3 2019/20. Nid yw contractau heb fod o'r un hyd o fewn cwrpas yr adolygiad o arferion prisio mewn band eang sefydlog, ond byddwn yn ystyried ein safbwynt ymhellach yng nghyswllt contractau o'r fath fel rhan o drosi'r Cod newydd yn rheolau rheoleiddio.

Cymharu ansawdd gwasanaethau

A3.70 Byddai'r **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** yn hoffi gweld Ofcom yn mynd ati i sicrhau bod data ar gael yn helaeth mewn fformat sydd fwyaf defnyddiol i ddefnyddwyr.

Ein hymateb

A3.71 Mae'r data hwn yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi i sicrhau tryloywder yn y farchnad er mwyn i ddefnyddwyr, gan gynnwys busnesau, allu cymharu darparwyr ac er mwyn cymell darparwyr i gystadlu ar y mesurau sy'n bwysig i ddefnyddwyr. Er mwyn i hyn fod yn effeithiol, mae'r rhaid i'r data fod ar gael mor hwylus â phosib. Byddwn yn defnyddio'r siartiau rhyngweithiol a ffeithluniau er mwyn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ei ddefnyddio. Byddwn yn ceisio defnyddio'r cyfryngau i godi ymwybyddiaeth o'r prif ganfyddiadau a byddwn yn cyhoeddi data mewn fformat agored er mwyn i drydydd partïon a chyfryngwyr (fel gwefannau cymharu prisiau) allu defnyddio'r data hefyd a'i gyflwyno i ddefnyddwyr.

Bilio cyfrannol

A3.72 Mae'r **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** am i Ofcom ystyried bilio cyfrannol ar gyfer cyflymderau band eang. Maen nhw o'r farn os yw pobl yn cael gwasanaeth sy'n methu'n gyson o ran darparu'r cyflymderau a addawyd, dylai'r rheini dalu cyfran lai.

Ein hymateb

A3.73 Daeth ein Codau Ymarfer ar Gyflymderau Band Eang i rym ar 1 Mawrth 2019, ac maen nhw'n nodi hawliau defnyddwyr i ymadael os bydd eu cyflymderau band eang yn gostwng islaw'r lefel sylfaenol a gafodd ei gwarantu. Yn ein barn ni, byddai biliau cyfrannol lle codir tâl ar bob defnyddiwr ar sail cyflymder mae'n ei gael yn achosi llawer mwy o gymhlethdod i ddefnyddwyr ac yn lleihau tryloywder. Hefyd, byddai bilio cyfrannol yn effeithio ar bob un cwsmer. Rydym o'r farn bod ein dull gweithredu ni'n fwy penodol a chymesur am ei fod yn canolbwyntio ar gwsmeriaid sy'n cael cyflymderau is na'r cyflymder llwytho i lawr a gafodd

ei warantu. Mae ein codau ymarfer hefyd yn annog darparwyr gwasanaeth rhyngryd i ystyried rhoi gostyngiadau, ynghyd â'r hawl i adael y contract, i'r cwsmeriaid hynny sydd â chyflymderau is na'r cyflymder sylfaenol a gafodd ei warantu.

Cefnogi darlledu yn y DU

Trwydded Weithredu'r BBC

A3.74 Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** awgrymu y dylai Ofcom ystyried, fel rhan o adroddiad blynyddol y BBC, a yw'r drwydded weithredu'n addas i'r diben a nodi unrhyw newidiadau gofynnol. Yn y lle cyntaf, maen nhw'n awgrymu y dylai Ofcom adolygu'r materion a amlygwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru.

Ein hymateb

A3.75 Rydyn ni'n sylweddoli y bydd Trwydded Weithredu'r BBC a fframwaith mesur perfformiad Ofcom yn esblygu dros amser. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi gwneud newidiadau i'r Drwydded Weithredu i adlewyrchu sianel deledu newydd, BBC Scotland. Rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn gwneud newidiadau pellach os bydd ein hasesiad o berfformiad y BBC yn tynnu sylw at feysydd sy'n destun pryder, ac wrth i'r ffordd mae'r BBC yn cyflawni ei wasanaethau esblygu.

Goruchwylio'r BBC

A3.76 Roedd **Pact** yn awgrymu y dylai Ofcom annog y BBC i fod yn fwy tryloyw ynghylch y gystadleuaeth am greu cynnwys ar-lein a sut mae'r newid i sicrhau 100% o gystadleuaeth yn ystod cyfnod y siarter presennol yn mynd rhagddo. Hefyd, gofynnodd i Ofcom fabwysiadu ei argymhelliad i gynnal archwiliad annibynnol o Grŵp y BBC (Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC a BBC Studios) ac adolygiad o system brisiau trosglwyddo'r BBC.

A3.77 Awgrymodd **Yr Athro Robert Beveridge** y dylai'r cynllun blynyddol gynnwys gwaith, ac ymgynghoriad, ar gyllid y BBC mewn perthynas â ffi'r drwydded i bobl dros 75 oed ac effaith hynny ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac economi greadigol y DU.

Ein hymateb

A3.78 Ar 11 Chwefror 2019, cyhoeddodd Ofcom ei ddatganiad terfynol ar Gomisiynau'r BBC. Mae'r BBC wedi ymrwymo i gyhoeddi'r cynnydd mae'n ei wneud o ran cyrraedd y cwota ar gyfer cystadleuaeth am greu cynnwys ar-lein bob blwyddyn. Byddwn yn parhau i drafod â'r BBC i ddatblygu ei ddull adrodd ar gyfer comisiynu ar-lein sy'n dod o dan y Cytundeb ar hyn o bryd, a'i ddull adrodd ar elfen gystadluol podlediadau sydd ddim ar yr amserlen a rhaglenni teledu ffurf hir ar-alw yn unig.

A3.79 Fe wnaethom gyhoeddi datganiad am newidiadau i'r gofynion a'r canllawiau ynghylch gweithgareddau masnachol a masnachu'r BBC ym mis Chwefror 2019. Roedd hyn yn datgan ein barn nad oedd angen archwiliad annibynnol ychwanegol ar yr adeg honno. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro canfyddiadau archwiliadau annibynnol ac yn edrych ar

unrhyw archwiliadau mewnol ychwanegol a wneir gan y BBC. Byddwn yn ailystyried ein safbwynt os nad yw'r lefel sicrwydd a geir o'r ffynonellau hyn yn digoni ein hanghenion. Ar ben hynny, byddwn yn ystyried a ddylid cynnal asesiad unwaith yn unig o brisiau trosglwyddo fel rhan o'n hadolygiad o BBC Studios.

- A3.80 Cytunir ar drefniadau Ffi Trwydded y BBC rhwng y Llywodraeth a'r BBC. Nid oes gan Ofcom rôl yn hyn. Yn ddiweddar, mae'r BBC wedi ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau sy'n ymwneud â chyllido ffi'r drwydded ar gyfer pobl dros 75 oed.

BBC Studios

- A3.81 Roedd y **BBC** yn poeni am sut bydd Ofcom yn cynnal yr adolygiad o BBC Studios ac ystyried gofynion diweddar Ofcom ar fasnachu a gwahanu a fyddai'n sail i'r adolygiad. Roedd yn credu y byddai unrhyw adolygiad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 yn asesu cydymffurfiaid y BBC â'r rheolau blaenorol. Awgrymodd felly y byddai'n well ac yn fwy effeithlon gohirio'r adolygiad nes i'r gofynion newydd gael eu rhoi ar waith.
- A3.82 Awgrymodd **Pact** y dylai'r adolygiad o BBC Studios ystyried a yw'r BBC yn cyflawni'r prif addewidion a nodwyd yn Siarter y BBC ar delerau masnachol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yn poeni am y posibilrwydd o ystumio'r farchnad a'r effaith ar y gystadleuaeth os bydd asedau UKTV yn cael eu rhannu rhwng Discovery a BBC Studios (fel rydyn ni'n rhagweld y bydd yn digwydd). Dywedodd Pact hefyd y dylai Ofcom geisio pennu'r broses a fyddai'n caniatáu i is-gwmnïau masnachol y BBC (gan gynnwys llinellau busnes) fethu. Gofynnodd am eglurhad ynghylch trefn lywodraethu penderfyniadau o'r fath.

Ein hymateb

- A3.83 Byddwn yn gwneud rhagor o waith i'n helpu i ddeall cwmpas gwaith BBC Studios a sut mae'n cael ei gyflawni. Yn dilyn sylwadau gan y BBC a rhanddeiliaid eraill yn ogystal â chyhoeddiadau diweddar gan y BBC, gan gynnwys ei fenter newydd ar y cyd i gyflwyno gwasanaeth ffrydio, BritBox, rydyn ni wedi penderfynu oedi'r adolygiad hwn tan nes ymlaen yn 2019/20. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi Cylch Gorchwyl yn rhyngor yr hydref 2019 hefyd. Cyn dechrau'r adolygiad, byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth am waith BBC Studios a sut mae'n gweithredu ein gofynion Masnachu a Gwahanu.
- A3.84 Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni, erbyn mis Ebrill 2019, ystyried a ddylid cynnal adolygiad ynghylch a yw gweithgareddau cynhyrchu'r BBC yn bodloni ein gofynion Masnachu a Gwahanu. Rydyn ni'n annhebygol o gynnal yr adolygiad y tro hwn gan ein bod wedi adolygu a diweddarau ein gofynion Masnachu a Gwahanu yn ddiweddar. Byddwn yn gwneud y gwaith pellach a ddisgrifir uchod.
- A3.85 Mewn perthynas â phryderon Pact, os nad oedd llinell busnes/is-gwmni masnachol yn llwyddo, neu ddim yn disgwyl llwyddo i gael cyfradd enillion masnachol, bydden ni'n edrych ar nifer o ffactorau cyn penderfynu pa gamau pellach i'w cymryd. Mae hyn fel y nodir yn ein datganiad ym mis Chwefror 2019 ar weithgareddau masnachol a masnachu'r BBC. Gallai hyn gynnwys adolygiad o gylch bywyd y gweithgareddau penodol ac asesiad o

beth allai fod wedi achosi'r enillion isel. Y BBC ddylai benderfynu ar drefniadau llywodraethu priodol, yn amodol ar ein gofynion a'n canllawiau.

- A3.86 O ran pryderon Pact am unrhyw drafodion UKTV posib, bydd angen i'r BBC ystyried a yw unrhyw gytundeb o'r fath rhwng y BBC a Discovery ar UKTV yn golygu newid sylweddol i'w weithgareddau masnachol. Ein rôl yw ystyried canlyniad asesiadau'r BBC o ba mor sylweddol fyddai hyn yn unol â'n dyletswyddau i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol.

Cwynion darlledu

- A3.87 Byddai **BT** yn croesawu adolygiad gan Ofcom ynghylch a ddylid mabwysiadu proses ar gyfer pob darlledwr, a fydd yn edrych ar gwynion ar ôl iddyn nhw gael eu cyflwyno gerbron y darlledwr yn gyntaf (fel sy'n digwydd gyda'r BBC).

Ein hymateb

- A3.88 Yn unol â Siarter a Chytundeb y BBC, mae'n rhaid i Ofcom ystyried cwynion am gynnwys y BBC os yw'r achwynydd wedi cwyno'n barod wrth y BBC yn gyntaf, oni bai fod amgylchiadau eithriadol neu yn achos cwynion am Degwch a Phreifatrwydd. Aethom ati i ddefnyddio'r broses hon ar ôl i ni ysgwyddo'r gwaith o reoleiddio'r BBC yn llawn ym mis Ebrill 2017. Mae'r broses hon yn dal yn gymharol newydd, a byddai angen i ni ystyried yn ofalus sut mae'n gweithio cyn ystyried ymestyn y dull gweithredu hwn i ddarlledwyr eraill.
- A3.89 Nid oes galw mawr wedi bod i ystyried y dull hwn o ddelio â chwynion, ac nid oes gennym gynlluniau ar waith i adolygu'r dull presennol yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n werth nodi bod ein gweithdrefnau cwynion nad ydynt yn gwynion am y BBC eisoes yn annog y rheini sy'n cwyno i gyflwyno eu cwynion yn uniongyrchol i'r darlledwr perthnasol cyn cyflwyno cwyn i Ofcom.

Cynnwys Plant

- A3.90 Byddai **Pact** yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar gynlluniau darlledwyr ynghylch cynnwys plant. Mae'n credu y dylai cynlluniau gynnwys mwy o fuddsoddiad mewn cwtâu cynnwys plant.

Ein hymateb

- A3.91 Rydyn ni'n croesawu trafodaethau parhaus â Pact ar ein gwaith ar gynnwys plant. Disgwylir i gynlluniau darlledwyr gael eu cyflwyno i Ofcom erbyn diwedd mis Mawrth 2019, a byddwn yn ymgysylltu â Pact a rhanddeiliaid eraill cyn ein cyhoeddiad yn yr haf.

Radio

- A3.92 Mae'r **Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol** wedi gofyn bod Ofcom yn ychwanegu ymchwil am y Gronfa Radio Cymunedol at ei gynllun gwaith. Pwrpas yr ymchwil fyddai dangos effaith y gronfa a sut mae gorsafodded radio cymunedol yn defnyddio'r grantiau o'r gronfa i helpu i gael mynediad at fathau eraill o gyllid.

- A3.93 Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** annog Ofcom i gymryd sylw o'u tystiolaeth ac ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar radio yng Nghymru.

Ein hymateb

- A3.94 Rydyn ni wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch y Gronfa Radio Cymunedol, ac rydym wrthi'n trafod y gronfa gyda nhw fel rhan o'n cynllun gwaith ar DAB Graddfa Fach.
- A3.95 Rhoddodd Ofcom dystiolaeth i'r ymchwiliad ar radio yng Nghymru, ac rydyn ni wedi nodi'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad. Fe wnaethom gynnal digwyddiad Radio yng Nghymru ar 13 Mawrth i drafod datblygiadau diweddar yn y sector a'u goblygiadau. Rydyn ni'n parhau i drafod y materion hyn â rhanddeiliaid.

Cod Cyfeirydd Rhaglenni Electronig (EPG) ac amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

- A3.96 Mae **PACT** yn credu y bydd yn rhaid gosod yr un dyletswyddau a chyfrifoldebau â'r rhai a osodir ar wasanaethau llinol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth ymestyn trefn amlygrwydd i wasanaethau a dyfeisiau newydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Dylai adroddiad Ofcom gydnabod hefyd y gallai unrhyw newidiadau i'r rheolau amlygrwydd gael effaith niweidiol ar y cwmnïau aml-sianel o ran eu referniw hysbysebu a'u hamlygrwydd ar yr EPG.
- A3.97 Dywedodd y **BFI** ei fod wedi ymrwymo i sicrhau'r gwerth cyhoeddus gorau posib ac y byddai am weld hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd o edrych ar amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.
- A3.98 Mae BT yn credu y dylai dull Ofcom barhau i fod yn niwtral o ran technoleg. Maen nhw'n awgrymu y dylem fonitro newidiadau yn arferion defnyddwyr a gweithio gyda Digital UK i sicrhau bod Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig yn addas ar gyfer y dyfodol.

Ein hymateb

- A3.99 Rydyn ni wedi nodi'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion i'r Cynllun Blynyddol, ac rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi ein casgliadau cychwynnol ynghylch amlygrwydd yn Ch1 2019/20.

Newyddion a materion cyfoes

- A3.100 Argymhellodd **Pact** fod Ofcom yn lansio adolygiad ymgynghori ar ba mor gystadleuol yw comisiynu materion cyfoes, yn enwedig yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Maen nhw'n awgrymu y dylai'r adolygiad hefyd geisio gweld a oes modd cael diffiniad cliriach o'r ffin rhwng materion cyfoes newyddion a materion cyfoes nad yw'n ymwneud â newyddion.
- A3.101 Awgrymodd **Llywodraeth Cymru** y dylai adolygiad y BBC o'i wasanaethau newyddion yn y gwledydd yn 2016 gael ei ystyried yn llawn yn adolygiad nesaf Ofcom. Dylai ystyried a oes

cyfleoedd i'r BBC neu ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wella'r sylw a roddir i faterion Cymreig a llywodraethau datganoledig.

- A3.102 Awgrymodd **Yr Athro Robert Beveridge** y dylai adolygiad o gynnyrch newyddion a materion cyfoes y BBC gynnwys pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a chynnwys adolygiad o'r safonau sy'n berthnasol i adrodd yn y gwledydd.

Ein hymateb

- A3.103 Yn dilyn ein datganiad ar gomisiynu ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y BBC, rydyn ni'n ymgysylltu â'r BBC am sut mae'n cyflawni yng nghyswllt y gofynion cystadleuaeth sydd yng Nghytundeb y BBC, a gyda rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod gennym yr wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd pryder posib. Rydyn ni'n falch bod Pact wedi codi'r mater hwn.
- A3.104 Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC, fe wnaethom nodi cyfrifoldeb penodol y BBC i barhau i fod yn ddarparwr newyddion dibynadwy sy'n cynnig amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiad manwl nad yw ar gael yn unman arall. Fel rhan o'n hadolygiad, byddwn yn cynnal gwaith ymchwil ar draws y DU, gan gynnwys Cymru, er mwyn deall yn well y newidiadau yn anghenion gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr y BBC.
- A3.105 Yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar y BBC, fe wnaethom nodi ei gyfrifoldeb penodol i gynnig amrywiaeth o gynnwys a dadansoddiad manwl nad yw ar gael yn unman arall. Wrth ystyried y rôl honno, roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar allbwn y BBC yn fwy cyffredinol. Byddwn yn ystyried yr allbwn newyddion sydd ar gael ar wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fwy cyffredinol, fel rhan o'r adolygiad nesaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Adolygu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus

- A3.106 Mae **Directors UK** yn awgrymu y dylai'r adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus edrych ar gyflwr darlledwyr ar draws cyd-destun teledu, ar-lein a fideo ar alwad. Mynegodd bryderon penodol ynghylch ansawdd yr allbwn, cyflogaeth ar gyfer talent yn y DU, ac iawndal teg i ddeiliaid hawliau am gael defnyddio cynnwys mwy nag unwaith ar draws llwyfannau.

Ein hymateb

- A3.107 Mae dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â'r adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys ystyried sut mae modd cynnal a chryfhau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, byddwn yn ystyried newidiadau yn y farchnad a sut maen nhw'n debygol o effeithio ar argaeledd cynnwys y DU drwy'r amser.

Codi ymwybyddiaeth o niwed ar-lein

- A3.108 Roedd **TalkTalk**, **UKCTA**, a **BT** yn cydnabod y ddadl am reoleiddio ar-lein, ac roedden nhw'n gefnogol o'n gwaith.

Ein hymateb

A3.109 Rydyn ni'n croesawu'r gefnogaeth a roddir yn yr ymatebion i'r cynllun blynyddol. Byddwn yn parhau i fod yn rhan o'r drafodaeth ynghylch rheoleiddio ar-lein. Rydyn ni'n awyddus i gynnal deialog agored â rhanddeiliaid ynghylch y materion hyn.

Cefnogi defnyddwyr a'r diwydiant drwy Brexit

- A3.110 Roedd **Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon** a'r **Cyngor Defnyddwyr** yn annog Ofcom i sicrhau bod cwsmeriaid a busnesau cyfathrebiadau yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried yn llawn, wrth feddwl am yr heriau unigryw sy'n wynebu Gogledd Iwerddon yn sgil Brexit.
- A3.111 Cyfeiriodd **Which?, Openreach, ac Ewan Sutherland** at effaith bosib Brexit ar berthynas ac aelodaeth Ofcom a'i waith gyda chyrrff rheoleiddio eraill, yn Ewrop a gweddill y byd. Cynigiodd Openreach gefnogaeth i barhau â'r cydweithio rhwng partneriaid rhyngwladol a phartneriaid Ewropeaidd i sicrhau rheoleiddio effeithiol a throsglwyddo didrafferth ar ôl Brexit.
- A3.112 Gofynnodd **Cymdeithas Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd (ISPA)** ac **Openreach** sut bydd Ofcom yn rheoleiddio'r diwydiant ar ôl Brexit, gan gynnwys gwaith presennol ar y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC), a sut bydd yn darparu corff rheoleiddio cymesur, annibynnol a rhagweladwy.
- A3.113 Roedd **CityFibre** yn poeni bod y Llywodraeth wedi bod yn gwneud penderfyniadau heb ddigon o drafod, ac fe wnaethon nhw annog Ofcom i gychwyn trafodaeth gyhoeddus ynghylch i ba raddau y bydd modd cysoni rheoliadau ar delegyfathrebiadau'r DU gyda fframwaith yr UE yn y dyfodol.
- A3.114 Gofynnodd **un ymatebydd cyfrinachol** am eglurder ynghylch ei rwymedigaethau rheoleiddio ar ôl Brexit. Fe ymrwymodd i weithio gydag Ofcom ar ôl Brexit i egluro a deall gofynion rheoleiddio newydd.
- A3.115 Gofynnodd **Oneweb** i Ofcom gadw polisiau na fydd yn effeithio ar barodrwydd y DU i fod yn agored i fuddsoddiad uniongyrchol o dramor, nac ar economi agored a deinamig y DU, nac ar ymrwymiad y Llywodraeth i wneud y Deyrnas Unedig yn un o'r llefydd gorau i ddechrau a meithrin busnes lloeren neu ofod.

Ein hymateb

- A3.116 Mae tîm Brexit Ofcom a Swyddfa Gogledd Iwerddon wedi bod, ac yn dal yn canolbwyntio ar yr heriau unigryw sy'n wynebu cwsmeriaid yng Ngogledd Iwerddon. Un o brif faterion Ofcom yw sicrhau bod gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus Gweriniaeth Iwerddon ar gael yng Ngogledd Iwerddon ac osgoi dychwelyd i'r ffioedd sy'n gysylltiedig â chrwydro anfwriadol.
- A3.117 Beth bynnag fydd canlyniad Brexit, bydd Ofcom yn parhau i fuddsoddi yn ein perthynas ddwyochrog yn yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn sicrhau ein bod yn dal yn gallu dysgu a chyfnwid yr arferion gorau gyda'n cymheiriaid rheoleiddio. Byddwn hefyd yn parhau i

ddatblygu ein perthynas ddwyochrog y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â pharhau i ymgysylltu mewn fforymau a rhwydweithiau rhanbarthol a byd-eang.

- A3.118 Bydd perthynas Ofcom â rhwydweithiau rheoleiddio'r UE yn y dyfodol yn amodol ar drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Bydd Ofcom yn parhau i gymryd rhan yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sy'n annibynnol ar aelodaeth y DU yn yr Undeb Ewropeaidd.
- A3.119 Ein hymrwymiad i sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb sy'n ein harwain yn ein gwaith – bydd hyn yn dal yn wir, ni waeth sut bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw lle bynnag y maen nhw yn y DU, a bod cwmnïau'n trin eu cwsmeriaid yn deg bob amser, yn ganolog i'r gwaith hwn, a bydd yn aros felly ar ôl Brexit. Rydyn ni wedi bod yn rhoi cyngor technegol i'r Llywodraeth ar draws ein sectorau, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys ar brosesau trosi Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd a Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol. Byddwn yn parhau i gynnig amgylchedd rheoleiddio sefydlog sy'n cefnogi buddsoddiad yn rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu'r DU.
- A3.120 Mae'r Llywodraeth yn arwain y trafodaethau gyda'r Undeb Ewropeaidd ac mae'n gyfrifol am bennu'r fframweithiau cyfreithiol a fydd yn berthnasol i'n sectorau ar ôl Brexit. Mae Ofcom wedi bod yn rhoi cyngor technegol annibynnol i'r Llywodraeth am elfennau o'r trafodaethau sy'n berthnasol i'n sectorau, yn ogystal â rhoi cyngor arbenigol am sut i sicrhau bod unrhyw drefniadau ar gyfer ein sector yn mynd rhagddynt yn ddidrafferth yn y dyfodol. Byddwn yn cyfleu unrhyw newidiadau i'r gofynion rheoleiddio drwy ein sianeli cyfathrebu arferol.
- A3.121 Byddwn yn parhau i gynnig amgylchedd rheoleiddio sefydlog sy'n cefnogi buddsoddiad yn rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu'r DU.

Rhwydweithiau cryf a diogel

- A3.122 Dywedodd **UKCTA** ei bod hi'n bwysig bod gwaith diogelu Ofcom yn annibynnol ar y Llywodraeth, bod y gwaith hwnnw'n dryloyw a'i fod yn glir pa elfennau o'r gwaith sy'n orfodol. Mae'n cydnabod bod gan Ofcom gyfrifoldebau newydd o dan reoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS) ond yn teimlo nad yw'r rheoliadau hyn yn cyfiawnhau union faint y gwaith y mae Ofcom yn bwriadu ei wneud. Awgrymodd y dylai Ofcom ddiffinio ei rôl a'i berthynas â chyrrff perthnasol eraill yn ofalus, gan gynnwys y Llywodraeth ac asiantaethau'r Llywodraeth.

Ein hymateb

- A3.123 Mae Ofcom yn gweithio'n agos iawn â chyrrff perthnasol, gan gynnwys y Llywodraeth, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'n cymheiriaid rhyngwladol, gan gynnwys ein swyddogaeth fel rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer ein sectorau. Diben yr hyn a wnawn yw sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau i orfodi cydymffurfiad ag a105A-D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a rhannau perthnasol rheoliadau NIS. Rydyn ni'n ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau perthnasol.

A3.124 Mynegodd **ISPA** bryder mai ychydig iawn o wybodaeth sydd wedi bod am rôl Ofcom o dan reoliadau NIS, gan gynnwys sut mae Ofcom yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau eraill. Gofynnodd am ragor o wybodaeth am TBEST hefyd ac awgrymu y dylai Ofcom fod yn fwy tryloyw am gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ein hymateb

A3.125 Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n uniongyrchol â chwmnïau sydd wedi dweud eu hunain eu bod o fewn cwmpas rheoliadau NIS. Rydyn ni wedi cyhoeddi canllawiau hefyd, a byddwn yn diweddarau'r rhain o bryd i'w gilydd, fel rydyn ni'n ei wneud â'n canllawiau ar gyfer a105A-D.

A3.126 Roedd **Llywodraeth yr Alban** yn gefnogol o waith Ofcom ar gadernid rhwydweithiau. Nododd fod angen digon o gadernid yn rhan o bob rhwydwaith telegyfathrebu.

A3.127 Roedd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hÿn a Phobl Anabl** yn gefnogol iawn o'n gwaith ar gadernid rhwydweithiau hefyd. Fe wnaethon nhw annog Ofcom yn daer i fynnu bod darparwyr rhwydweithiau yn rhoi tystiolaeth o gynllunio cadarn a gwydn, gan gynnwys elfennau o ddiogelwch.

Ein hymateb

A3.128 Rydyn ni'n bwrw ymlaen â gwaith penodol ar gadernid telegyfathrebiadau, fel sydd wedi'i nodi yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2018. Mae ein rhaglen waith yn cynnwys casglu tystiolaeth gan weithredwyr am eu cynlluniau cadernid a diogelwch.

A3.129 Dywedodd **Nominet** nad yw'n bodloni diffiniadau o Ddarparwr Cyfathrebiadau neu Ddarparwr Gwasanaeth Cyfathrebiadau. Gofynnodd i Ofcom adolygu ei ddefnydd o iaith fel ei fod yn berthnasol i bob darparwr o dan gylich gwaith NIS. Gofynnodd Nominet hefyd am eglurder ynghylch cwmpas rheoliadau NIS yn y DU a lefel y manylder wrth i Ofcom weithredu'r fframwaith newydd. Yn olaf, gofynnodd i Ofcom ystyried busnesau bach wrth gynllunio sut mae'n gweithredu, ac ystyried sut mae asesiadau, archwiliadau a holiaduron blaenorol gan gyrff rheoleiddio a chyrrff cydymffurfio yn gorgyffwrdd â'r gofynion newydd, er mwyn osgoi dyblygu diangen.

Ein hymateb

A3.130 Rydyn ni'n cytuno y dylai teitl y llif gwaith gynnwys "cwmnïau gwasanaethau hanfodol" er mwyn cynnwys y cwmnïau hynny yng nghwmpas rheoliadau NIS.

Cynyddu Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gwasanaethau mynediad

- A3.131 Roedd **ACNI** yn annog Ofcom i barhau i weithio tuag at gael cysondeb o ran argaeledd ac ansawdd gwasanaethau mynediad fel sain ac is-deitlau ar draws amrywiaeth o ddarlledwyr.
- A3.132 Awgrymodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** y dylid gwneud mwy i wella gwasanaethau mynediad ar gyfer rhaglenni ar-alw.

Ein hymateb

- A3.133 Rydyn ni'n parhau i adrodd bob 6 mis ar ddarparu gwasanaethau mynediad ar gyfer gwasanaethau darlledu a gwasanaethau ar-alw, gan sicrhau bod darlledwyr yn bodloni eu gofynion a bod gan ddefnyddwyr fynediad parod i wybodaeth ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael.
- A3.134 Rydyn ni wedi cynnig argymhellion ynghylch beth ddylai'r rheoliadau fod o ran hygyrchedd darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw, ac rydyn ni'n gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth cyn eu cyflwyno.

Amrywiaeth a chyfle cyfartal

- A3.135 Awgrymodd **Directors UK** y dylai adroddiadau blynyddol am amrywiaeth a chyfle cyfartal gynnwys monitro ac adrodd blynyddol gorfodol ar weithwyr llawrydd. Maen nhw'n galw hefyd am gyhoeddi data gorfodol ar amrywiaeth a chydaddoldeb mewn swyddi uwch gynhyrchu unigol.

Ein hymateb

- A3.136 Rydyn ni'n ymwybodol iawn o'r angen i'r diwydiant gyfleu'r gwaith o fonitro gweithwyr llawrydd. Fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad monitro amrywiaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018 y byddai hyn yn faes ffocws i ni, ac rydyn ni'n awyddus i hwyluso trafodaethau gyda'r diwydiant am sut gallwn ni gydweithio ar hyn. Fe wnaethom gynnal sesiwn diwydiant o amgylch y bwrdd ym mis Chwefror i drafod monitro gweithwyr llawrydd a oedd yn cynnwys Directors UK a rhanddeiliaid eraill â diddordeb i annog mwy o gydweithio yn y maes hwn.

Trwyddedau

- A3.137 Awgrymodd **Llywodraeth Cymru** y dylai'r iaith Gymraeg gael ei hystyried wrth ddyfarnu neu adolygu trwyddedau yng Nghymru. Dywedodd y dylai nifer benodol o oriau ar gyfer darlledu yn Gymraeg gael eu pennu yn y contract, a dylid cael datganiad am gynnwys gwe yn y Gymraeg fel testun, ffrydio a chlipiau.

Ein hymateb

A3.138 Mae Ofcom yn ymwybodol o nod Llywodraeth Cymru i geisio cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'i dymuniad i gynnwys rhwymedigaethau ynghylch rhaglenni Cymraeg ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol a masnachol a theledu lleol. Nid oes gennym ni'r pŵer statudol i osod amodau o'r fath ar drwyddedeion. Wrth wneud cais am drwydded, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cynnig pa fath o wasanaeth mae'n bwriadu ei ddarparu. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i newid hyn.

Cynnal y gwasanaeth post cyffredinol

Effeithlonrwydd

A3.139 Mae'r **Gymdeithas Defnyddwyr Post** yn credu bod angen targedau allanol ar y Post Brenhinol er mwyn sicrhau mwy o effeithlonrwydd. Mae'r **Fforwm Cystadleuaeth Post** yn dadlau bod gan y Post Brenhinol fonopoli effeithiol heb reolaeth prisiau, ac felly nid oes llawer i'w hannog i fod yn fwy effeithlon. Mae'n credu y dylid ystyried opsiynau rheoleiddio i ddiogelu defnyddwyr a sicrhau bod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn parhau. Gofynnodd **Whistl** i ni ystyried adolygiad ffurfiol o restr cynnyrch Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol a gosod targedau gwella effeithlon ar gyfer y Post Brenhinol a'u dal i gyfrif.

Ein hymateb

A3.140 Wrth i berfformiad effeithlonrwydd y Post Brenhinol ddirywio a chyda tueddiadau mwy heriol yn y farchnad llythyrau, byddwn yn gwella ein dull o fonitro'r Post Brenhinol. Byddwn yn dod â rhywfaint o'r gwaith roedden ni wedi bwriadu ei wneud fel rhan o'n hadolygiad nesaf o reoleiddio'r Post Brenhinol ymlaen. Fel y nodwyd yn ystod tymor y gwanwyn 2017, roedden ni wedi bwriadu gwneud hyn erbyn 2022. Yn ogystal â'n rhaglen waith gyfredol, byddwn felly yn cynnal adolygiad o effeithlonrwydd y Post Brenhinol. Bydd y gwaith hwn yn llywio ein barn am ba mor gynaliadwy yw'r gwasanaeth post cyffredinol yn y dyfodol. Er bod hyn yn debygol o olygu dadansoddiad mewnol yn bennaf, byddwn yn darparu ein safbwynt diweddaraf am gynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol, yn ein diweddariad monitro blynyddol o'r farchnad bost.

A3.141 Byddwn hefyd yn ceisio deall anghenion rhesymol defnyddwyr post yn well. Byddwn yn cynnal ymchwil marchnad a dadansoddiad i adolygu i ba raddau mae'r farchnad bost yn bodloni anghenion rhesymol defnyddwyr yng ngoleuni newidiadau yn y farchnad, yn enwedig y cynnydd mewn siopa ar-lein a'r gostyngiad parhaus mewn llythyrau. Byddwn yn asesu unrhyw oblygiadau a fydd yn deillio o'r newidiadau yn anghenion defnyddwyr post. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r canfyddiadau cychwynnol tua dechrau 2020.

Monitro

A3.142 Galwodd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** ar Ofcom i fonitro'r Post Brenhinol yn fwy manwl ac i weithredu'n fwy cadarn pan fydd angen.

Ein hymateb

A3.143 Mae gan Ofcom raglen reolaidd o fonitro gwasanaethau post, gan gynnwys monitro ansawdd gwasanaeth, cymryd camau priodol lle bo angen. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cynnal ymchwiliad ar fethiant y Post Brenhinol i gyrraedd safonau perfformiad yn 2017/18. Fel rhan o hyn, rydyn ni'n ystyried yn ofalus unrhyw ffactorau a allai fod wedi effeithio ar berfformiad y Post Brenhinol yn ogystal â'r camau lliniaru a gymerodd i reoli effaith y ffactorau hynny. Mae hyn yn golygu ein bod yn dwyn y Post Brenhinol i gyfrif am ei berfformiad yn gyffredinol yn ogystal â pha mor briodol yw ei gynlluniau wrth gefn.

Modelu costau

- A3.144 Roedd y **Post Brenhinol** yn credu na fyddai'n briodol ar hyn o bryd i ymestyn y gwaith modelu costau i rannau eraill o'r hyn sydd gan y Post Brenhinol yn yr arfaeth, a bod Ofcom wedi mynd y tu hwnt i'r cylch gwaith gwreiddiol a gafodd ei gynnig ac a oedd yn destun ymgynghoriad. Mae'r **Fforwm Cystadleuaeth Post** yn credu y dylai'r gwaith modelu costau arfaethedig gael ei ymestyn i ystyried a ddylai'r Post Brenhinol fabwysiadu gwahanol fodelau gweithredu i leihau costau.
- A3.145 Byddai **Whistl** yn croesawu adolygiad gan Ofcom ar gynaliadwyedd modelau gweithredol y Post Brenhinol.

Ein hymateb

- A3.146 Yn unol â'n dyletswyddau sy'n ymwneud â'r gwasanaethau post cyffredinol, mae'n rhaid i ni edrych yn fanwl ar gostau'r Post Brenhinol. Mae'r model costau yn ein helpu i ddeall yn well beth yw elfennau cost y busnes. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni diweddariad y Post Brenhinol ar fasnachu a gyhoeddwyd heb ei drefnu ym mis Hydref 2018 lle nad oedd perfformiad ar effeithlonrwydd yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Post Brenhinol.
- A3.147 Diben ein gwaith modelu costau yw edrych yn fanwl ar gostau'r Post Brenhinol. Cyfrifoldeb y Post Brenhinol yw penderfynu sut mae'n rhedeg ei gwmni; rydym hefyd yn nodi bod y Post Brenhinol wrthi'n ystyried ei strategaeth ac yn cynnal adolygiad o'i rwydwaith. O ran effeithlonrwydd, rydyn ni'n parhau i gredu bod effeithlonrwydd yn dal yn hollbwysig i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol.
- A3.148 Rydyn ni'n credu bod data costau'r Post Brenhinol yn fewnbwn allweddol yn y dangosyddion cyffredinol rydyn ni'n eu defnyddio yn ein trefn fonitro, a'i fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer dadansoddi cwestiynau rheoleiddio penodol yn y dyfodol.²⁹ Fodd bynnag, rydyn ni'n cydnabod na fydd y data hwn o reidrwydd yn fesur priodol o'r costau ar gyfer pob cwestiwn rheoleiddio y bydd angen i ni ei ateb. Yn dibynnu ar natur unrhyw bryderon penodol ynghylch rheoleiddio, efallai y byddwn yn addasu dyraniadau

²⁹ Mae hyn yn cael ei nodi yn ein Hadolygiad o Adroddiadau Ariannol Rheoleiddiol ar gyfer y Post Brenhinol, Ymgynghoriad ar Ddyrannu Costau a Phrisiau Trosglwyddo. Mae data costau'r Post Brenhinol yn cael ei baratoi'n unol â'n gofynion a nodir yn yr Amod Cyfrifyddu Darparwr Gwasanaeth a'r Canllawiau Cyfrifyddu Rheoleiddiol.

costau'r Post Brenhinol, defnyddio dulliau gwahanol i ddyrannu costau, neu ddefnyddio safonau costau amgen.

Cystadleuaeth yn y farchnad

A3.149 Roedd y **Gymdeithas Defnyddwyr Post** yn dadlau nad oedd dewis yn bodoli o ran danfon eitemau i'w cyrchfan derfynol, a bod y cwmnïau dosbarthu post swmp wedi lleihau'r dewis mewn mynediad am i lawr oherwydd bod llai o gwmnïau.

Ein hymateb

A3.150 Rydyn ni'n cytuno bod cystadleuaeth yn allweddol; mae'n un o'r ffyrdd o ddiogelu'r drefn reoleiddio bresennol. Mae'r drefn bresennol wedi llwyddo i hyrwyddo cystadleuaeth mynediad, hynny yw, mae gweithredwyr mynediad wedi parhau i gael cyfran o gyfanswm y farchnad llythyrau, er gwaethaf gostyngiad parhaus yn nifer y llythyrau. Yn 2018-19, gwelwyd cynnydd o ddau bwynt canran yng nghyfran y llythyrau a gafodd eu cludo gan ddarparwyr mynediad am i lawr, gan godi i 63% o'r llythyrau â chyfeiriad arnyn nhw. 47% oedd y ganran chwe blynedd yn ôl.

Gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor ar Bopeth

A3.151 Awgrymodd y **Fforwm Cystadleuaeth Post** y dylai Ofcom weithio gyda'r Cyngor ar Bopeth i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd yn y gwaith. Mae'n awyddus hefyd i weld rhai o'r materion a nodwyd yn eu rhestr o bryderon y llynedd yn cael sylw.

Ein hymateb

A3.152 Mae Ofcom mewn cysylltiad rheolaidd â'r Cyngor ar Bopeth, ac rydyn ni'n cyfnewid gwybodaeth am y rhaglenni gwaith perthnasol. O ran y Rhestr o Bryderon, mae angen i ni flaenoriaethu'r rheini sydd fwyaf perthnasol i'n dyletswyddau post.

Busnesau mawr

A3.153 Byddai'r **Gymdeithas Defnyddwyr Post** yn hoffi gweld anghenion busnesau mawr yn cael eu hystyried a'u cynnwys yng ngwaith Ofcom. Dywedodd **Whistl** y dylai Ofcom gynnal arolwg o'r prif gwmnïau dosbarthu busnes mawr fel rhan o'r drefn fonitro yn y dyfodol.

Ein hymateb

A3.154 Rydyn ni'n ymgysylltu â chwmnïau dosbarthu mawr yn uniongyrchol neu drwy'r Gymdeithas Defnyddwyr Post fel rhan o'n rhaglen fonitro. Rydyn ni'n cytuno bod dulliau ymgysylltu strwythuredig yn ddefnyddiol gyda'r holl randdeiliaid a'r cwmnïau dosbarthu mawr, yn enwedig yng nghyswllt ein penderfyniadau polisi allweddol. Mae hyn yn parhau i fod yn bwysig yn ein gwaith o fonitro'r post, a byddwn yn ystyried y ffordd orau i ymgysylltu ymhellach.

Partneriaeth Diogelu Defnyddwyr

A3.155 Roedd **Cyngor ar Bopeth yr Alban** yn cefnogi gwaith Ofcom. Bydden nhw'n croesawu cefnogaeth gan Ofcom i dasglu'r Bartneriaeth Diogelu Defnyddwyr ar godi tâl ychwanegol am barseli er mwyn dadansoddi'r berthynas gymhleth rhwng gwir gost danfon i ardaloedd lle codir tâl ychwanegol a'r prisiau sy'n cael eu trosglwyddo i'r defnyddwyr.

Ein hymateb

A3.156 Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch codi tâl ychwanegol, gan gynnwys sut y gallwn gefnogi gwaith y Bartneriaeth Diogelu Defnyddwyr.

Y farchnad barseli

A3.157 Roedd y **Fforwm Cystadleuaeth Post** yn credu y dylai Ofcom gynnal adolygiad trylwyr o'r farchnad barseli i sicrhau nad yw'r Post Brenhinol yn defnyddio arian rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol i ddatblygu ei fusnes parseli, a hefyd i ddeall yn well pa rannau sy'n gystadleuol.

Ein hymateb

A3.158 Mae twf yn niferoedd y parseli'n dangos pwysigrwydd cynyddol gwasanaethau parseli i ddefnyddwyr. Rydyn ni'n parhau i fonitro'r farchnad barseli fel rhan o'n rhaglen waith i fonitro'r post.

Effaith cynnydd ym mhrisiau'r Post Brenhinol

A3.159 Lleisiodd y **Gymdeithas Defnyddwyr Post** bryderon ynghylch y cynnydd mewn prisiau gan y Post Brenhinol, gan gwestiynu a fyddai rheolaeth prisiau'n briodol. Gofynnodd **Whistl** i Ofcom ystyried astudiaeth annibynnol ar effaith y cynnydd mewn prisiau ar niferoedd yr eitemau post yn gyffredinol.

Ein hymateb

A3.160 Mae post swmp eisoes yn dilyn rheolau gwasgu elw. Mae'r rhain wedi'u creu fel nad oes gan y Post Brenhinol fantais gystadleuol annheg o'i gymharu â'r gweithredwyr mynediad sy'n prynu gwasanaethau mynediad cyfanwerthol gan y Post Brenhinol i ddarparu gwasanaethau post swmp yn y farchnad. Fodd bynnag, mater masnachol i'r Post Brenhinol yw prisiau gwasanaethau busnes yn gyffredinol.

A3.161 Rydyn ni'n deall y pryderon ynghylch niferoedd yr eitemau post a'r potensial i gwsmeriaid ddefnyddio dulliau electronig amgen, yn dilyn y cynnydd sylweddol mewn prisiau. Byddwn yn parhau i fonitro prisiau'r post, y niferoedd a'r refeniw yn ofalus, fel rhan o'n rhaglen fonitro.

Dadansoddi parseli mae modd eu ffitio drwy'r blwch llythyrau

A3.162 Byddai **Whistl** yn hoffi pe bai Ofcom yn ystyried dadansoddi'r farchnad parseli mae modd eu ffitio drwy'r blwch llythyrau (<1kg), gan gynnwys rhai wedi'u tracio, a sicrhau bod hynny'n orfodol.

Ein hymateb

A3.163 Er mwyn gorfodi unrhyw fath o fynediad cyfanwerthol, byddai angen i Ofcom fod yn fodlon ei fod yn diwallu gofynion Deddf Gwasanaethau Post 2011 ac, yn benodol, gofynion adran 38. O dan yr amgylchiadau hynny, byddai gan Ofcom yr hawl i roi amod mynediad Darparwr Gwasanaeth Cyffredinol. Fodd bynnag, yn ein Datganiad ar Adolygu'r Broses o Reoleiddio'r Post Brenhinol 2017, daethom i'r casgliad bod y gyfundrefn mynediad a gyflwynwyd yn 2012 yn briodol ac y dylai barhau mewn grym tan 2022. Er mwyn i Ofcom ystyried gosod mynediad gorfodol o'r fath cyn 2022, byddai angen tystiolaeth gref arnom ni sy'n dangos yn glir bod gosod rheoliad o'r fath cyn 2022 yn briodol ac yn gymesur. Yn benodol, byddai angen i ni gael tystiolaeth ynghylch pam y byddai gorfodi'r math hwn o fynediad yn gwella'r farchnad a ddim yn niweidio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.

Parhau i arloesi ein dull rheoleiddio

Strategaeth data

A3.164 Roedd **BT** ac **Openreach** yn croesawu bwriad Ofcom i gynnal adolygiad o sut mae'r sefydliad yn cael gafael ar ddata, yn ei storio, ei ddefnyddio ac yn ei gyhoeddi. Awgrymodd y ddau y dylem ni weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r strategaeth, ac y dylai'r gwaith o adolygu'r prosesau a'r arferion sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau am wybodaeth statudol fod yn un o'r prif elfennau. Yn benodol, dylai'r strategaeth edrych ar ffyrdd i osgoi dyblygu ceisiadau am wybodaeth statudol a sicrhau dull mwy cyson i ofyn am ddata.

A3.165 Awgrymodd **CityFibre** y dylai Ofcom ddangos mwy o arweiniad wrth gasglu a chyhoeddi data a allai fod yn sail i amcanion polisi cyhoeddus, fel gwelliannau i wasanaethau band eang sydd wedi'u hariannu gan y llywodraeth. Dywedodd y dylai Ofcom ddechrau trafodaethau gyda'r diwydiant ynghylch cwmpas a fformat y data mae Ofcom yn ei gasglu am ddefnyddio rhwydweithiau yn y dyfodol.

A3.166 Roedd y **BBC**, **Cyngor ar Bopeth**, a **Phwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon** yn cefnogi gwaith Ofcom o gasglu, ymchwilio, a dadansoddi data am y diwydiannau a reoleiddir ganddo, a phwysigrwydd y gwaith hwn. Dylai Ofcom ystyried ffyrdd i rannu'r wybodaeth hon.

Ein hymateb

A3.167 Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n cwmpasu ein strategaeth data, ac rydyn ni'n disgwyl cwblhau cam cychwynol y gwaith erbyn mis Ebrill 2019. Os bydd cwmpas y strategaeth yn cynnwys

Ceisiadau am Wybodaeth Statudol, byddem ni'n disgwyl ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu unrhyw brosesau newydd neu edrych eto ar brosesau sydd eisoes yn bodoli.

- A3.168 Rydyn ni'n casglu data gan amrywiaeth o randdeiliaid gan ddefnyddio pwerau ffurfiol i gasglu gwybodaeth at ddibenion sy'n cynnwys llunio ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd. Rydyn ni'n cydnabod y byddai'n bosib defnyddio'r data hwn yn sail i ymyriadau polisi cyhoeddus, fel y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang. Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod y data hwn ar gael i lunwyr polisiau, yn amodol ar y cyfyngiadau cyfreithiol priodol sy'n rhoi sylw i rannu a defnyddio data o'r fath. Byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r data rydym yn ei gasglu ar gyfer y dibenion hyn, a byddwn yn ymgysylltu yn y camau cynnar gyda rhanddeiliaid am unrhyw newidiadau arfaethedig i gwmpas, niferoedd, amlledd neu fformat y data rydyn ni'n gofyn amdano.

Cwsmeriaid busnes

- A3.169 Nododd **UKCTA** y gwahaniaeth rhwng marchnadoedd defnyddwyr preswyl a busnes, a gofynnodd i Ofcom roi rhagor o ystyriaeth i gwsmeriaid busnes. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at ba mor bwysig yw bod yn glir wrth ddefnyddio'r termau 'cwsmer' a 'defnyddiwr' gan fod anghenion defnyddwyr preswyl a busnesau bach yn wahanol i anghenion busnesau. Awgrymodd UKCTA y dylai Ofcom glustnodi 'hyrwyddwr sector busnes' i ganolbwyntio ar hyn.

Ein hymateb

- A3.170 Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n dda i fusnesau yn ogystal â chwsmeriaid preswyl. Mae'r angen i fusnesau gael rhwydweithiau cyfathrebu dibynadwy o ansawdd uchel wedi bod yn ystyriaeth bwysig yn ein gwaith i gefnogi buddsoddiad mewn rhwydweithiau, gan sicrhau band eang teilwng i bawb a gwella ansawdd y gwasanaeth. Os ydym ni'n gorfod camu i mewn, rydym bob amser yn ceisio sicrhau ein bod yn gwneud hynny mewn modd cymesur a phenodol. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n ystyried i ba raddau y gall fod angen rhagor o gefnogaeth neu amddiffyniad ar fusnesau, yn enwedig busnesau bach.
- A3.171 Yn ddiweddar, rydyn ni wedi cymryd nifer o gamau eraill i sicrhau canlyniadau gwell i fusnesau. Er enghraifft, rydyn ni wedi cryfhau'r Cod Ymarfer ar Gyflynderau Band Eang i fusnesau, wedi cyflwyno diwygiadau ar gyfer newid darparwr ffonau symudol a fydd o fudd i fusnesau bach, ac wedi cyflwyno rheolau newydd i sicrhau bod pob busnes bach yn cael gwybodaeth gliriach fwy manwl ymlaen llaw am beth ddylen nhw ei ddisgwyl o ran ansawdd y gwasanaeth (gan gynnwys oes modd iddyn nhw hawlio iawndal pan fydd problemau'n codi).
- A3.172 Mae'r adran ar hawliau defnyddwyr yn y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd yn cyflwyno mesurau newydd ar gyfer busnesau a defnyddwyr preswyl ar draws amrywiaeth o faterion. Byddwn yn ymgynghori ar ein dull gweithredu arfaethedig i weithredu hyn yn Ch3 2018/19.

Data defnyddwyr

A3.173 Roedd **Which?** yn cefnogi gwaith a allai annog ymgysylltiad â defnyddwyr, gan ddweud y dylai Ofcom ystyried pa ddata sydd fwyaf perthnasol a defnyddiol i ddefnyddwyr er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ac elwa o gystadleuaeth yn y farchnad. Croesawodd **BT** uchelgais Ofcom i weithio gyda'r diwydiant i ystyried sut mae defnyddio data clyfar.

Ein hymateb

A3.174 Mae Ofcom yn cydnabod pa mor bwysig yw bod defnyddwyr a busnesau'n cael yr wybodaeth iawn am argaeledd a darpariaeth gwasanaethau cyfathrebiadau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am y cynnyrch a'r gwasanaethau sydd fwyaf addas i'w hanghenion nhw. Rydyn ni'n gweithio gyda'r diwydiant i ddatblygu fframwaith priodol a fydd yn diwallu'r nod hwn.

A3.175 Fel rhan o'n gwaith ar ddyfodol data defnyddwyr, byddwn yn parhau i gefnogi ac ymgysylltu â'r Llywodraeth ar ei Hadolygiad o Ddata Clyfar.

Cryfhau llais defnyddwyr

A3.176 Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi cryfhau llais y defnyddiwr, yn enwedig rôl y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau gan gynnwys **Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon**, y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** a'r **Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** a **BT**. Roedd **Cyngor ar Bopeth**, **Cyngor ar Bopeth yr Alban** a'r **Cyngor Defnyddwyr** yn cefnogi cryfhau llais y defnyddiwr, ond yn galw am benodi aelod annibynnol statudol i eiriol ar ran defnyddwyr.

Ein hymateb

A3.177 Er mai lle Llywodraeth y DU a Senedd y DU yw penodi aelod annibynnol, statudol i eiriol ar ran defnyddwyr yn y farchnad telegyfathrebiadau, rydyn ni'n cydnabod pa mor bwysig yw i ddefnyddwyr gael llais annibynnol. Dyma yw diben ein cynigion i gryfhau'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Mae ymgynghoriad y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ynghylch ei gynllun blynyddol ei hun yn rhoi cyfle i bartïon sydd â diddordeb roi eu barn am ei flaenoriaethau a'i gynllun gwaith arfaethedig.

Defnyddwyr agored i niwed

A3.178 Croesawodd **Cyngor ar Bopeth** waith Ofcom ar ddefnyddwyr agored i niwed, gan gynnwys ein gwaith ar gyfer defnyddwyr sydd â phroblemau iechyd meddwl. Roedd yn edrych ymlaen at barhau i ymgysylltu ag Ofcom ar y maes gwaith hwn. Dywedodd **Cyngor ar Bopeth yr Alban** y bydd yn cyhoeddi adroddiad ar ddefnyddwyr agored i niwed yn ddiweddarach eleni, a gofynnodd i Ofcom ystyried hyn yn ein gwaith. Nododd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** a'r **Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** nad yw bod yn agored i niwed yn disgrifio categori bach o'r sylfaen defnyddwyr, ac er ei bod yn ddefnyddiol cael arfer gorau ar gyfer defnyddwyr agored i niwed, rhaid pennu lefel ddiofyn

o ofal a diogelwch yn gyntaf a fydd ar gael i'r holl ddefnyddwyr. Croesawodd **UKCTA** waith Ofcom ar adolygu arfer gorau ar gyfer defnyddwyr agored i niwed, a gofynnodd am ddigwyddiad i'r diwydiant fel bod modd rhannu hyn.

Ein hymateb

A3.179 Rydyn ni'n monitro effaith ein Hamod Cyffredinol newydd ar fregusrwydd (GC C5), a byddwn yn nodi enghreifftiau o arfer da. Byddwn yn eu rhannu drwy ddigwyddiadau i'r diwydiant a drwy ganllaw. Rydyn ni'n bwriadu ymdrin â nifer o faterion, gan gynnwys mynd ati'n briodol yn y canllaw hwn i hyrwyddo'r flaenoriaeth i drwsio namau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n helaeth â grwpiau defnyddwyr am ein gwaith sy'n ymwneud â defnyddwyr agored i niwed, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ymgysylltu mwy gyda'r Cyngor ar Bopeth ynghylch materion iechyd meddwl a materion eraill. Byddwn yn ystyried gwaith Cyngor ar Bopeth yr Alban ar y maes hwn yn ofalus, ac yn ymgysylltu â'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ar amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i ddefnyddwyr agored i niwed.

Ymgynghoriadau a Chynllunio

A3.180 Rhoddodd **BT**, **Nominet** a **techUK** fewnbwn ynghylch sut gallai Ofcom wella gan gynnwys amserlennu ymgynghoriadau'n well, egluro'r cerrig milltir ar gyfer y dyfodol yn well, meddwl yn fwy strategol am y dyfodol, a sicrhau bod canlyniadau i ddefnyddwyr yn flaenoriaethau'r Cynllun Blynyddol.

Ein hymateb

A3.181 Pan fo'n bosib, rydyn ni'n ceisio dangos amserlen ein hymgyngoriadau a'n hadolygiadau rheoleidiol eraill i randdeiliaid, ac yn ceisio nodi gweithgareddau sydd wedi'u trefnu ar gyfer y tymor hirach, er enghraifft, amserlenni adolygiadau statudol neu adolygiadau o'r farchnad. Mae ein Cynllun Blynyddol yn ffordd allweddol o wneud hyn.

A3.182 Nid yw'n bosib bob amser i gynllunio neu i ymrwymo i weithgaredd y tu hwnt i'r flwyddyn i ddod, oherwydd newidiadau yn y farchnad neu'r amgylchedd rheoleiddio. Er bod prosiectau penodol yn gallu newid o un flwyddyn i'r nesaf, mae'r blaenoriaethau a'r themâu ategol sy'n sail i waith y flwyddyn hon yn debygol o barhau dros gyfnod hwy. Dylai'r blaenoriaethau hyn gynnig darlun manwl o'n rhaglen waith y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf.

A3.183 Mae ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn cynnwys Adroddiad Perfformiad, ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ein cynllun blynyddol. Ynndo, rydyn ni'n darparu trosolwg o'r hyn rydym wedi'i wneud a pha ganlyniadau yn y farchnad rydyn ni'n disgwyl eu gweld yn deillio o'n camau gweithredu. Rydyn ni'n fodlon derbyn unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gan randdeiliaid yng nghyswllt ei ganfyddiadau.

Ceisiadau am Wybodaeth

- A3.184 Dywedodd **UKCTA** fod cydymffurfio ag a135 yn anodd i aelodau UKCTA, ac y dylai Ofcom gydweithio er mwyn cael yr wybodaeth iawn, er enghraifft drwy ddefnyddio ceisiadau drafft am wybodaeth gan ddarparwyr cyfathrebiadau. Fe wnaeth annog Ofcom i ystyried blaenoriaethau gorfodi lle mae gwir dystiolaeth o niwed ar gael.
- A3.185 Roedd **BT** yn cefnogi penderfyniadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cydnabod rôl y ceisiadau am wybodaeth statudol.

Ein hymateb

- A3.186 Mae arfer pwerau casglu gwybodaeth statudol yn hanfodol i helpu Ofcom i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Rydyn ni'n ymwybodol bod angen sicrhau bod ceisiadau'n benodol ac yn gymesur, ac nad ydyn nhw'n gosod beichiau diangen ar randdeiliaid. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r holl ddarparwyr cyfathrebiadau i sicrhau ein bod yn cael cydbwysedd priodol rhwng yr angen i sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio'n parhau'n gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth a'r baich a roddir ar randdeiliaid wrth ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Mae methiant i ddarparu gwybodaeth gywir a chyflawn yn fater difrifol iawn i Ofcom oherwydd mae methiannau o'r fath yn tansilio cywirdeb y drefn reoleiddio. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi cymryd camau gorfodi mewn nifer o achosion oherwydd methiant i gydymffurfio â'n cais statudol am wybodaeth, a byddwn yn parhau i gymryd camau gorfodi yn y maes hwn pan fo hynny'n briodol.

Gwaith arall

Galwadau niwsans

- A3.187 Argymhellodd **BT** ein bod yn cynnwys y fforwm diwydiant mae Ofcom yn bwriadu ei gynnal ar atebion strategol, fel carreg filltir yn y cynllun terfynol.
- A3.188 Awgrymodd **un ymatebydd cyfrinachol** y dylai Ofcom fynnu bod BT a gweithredwyr rhwydweithiau eraill yn cyfyngu/atal/gwahardd pob galwad ryngwladol a ddaw sydd â gwybodaeth adnabod ffug am y galwr, ac yn ymwneud â rhif ffôn yn y DU.
- A3.189 Nododd **Which?** eu bod yn falch o'r cynnydd a wnaed ar alwadau niwsans, ac maen nhw'n cefnogi gwaith parhaus Ofcom ar y mater hwn.
- A3.190 Dywedodd **Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon** fod galwadau niwsans yn dal yn broblem ac, er bod gwaith Ofcom ar ddilysu rhifau i'w groesawu, nid yw'n ddigon. Dylai Ofcom chwilio am ffyrdd arloesol o ddatblygu'r gwaith hwn.
- A3.191 Mae'r **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** a'r **Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** yn cefnogi gwaith Ofcom, ond fe wnaethon nhw ddweud bod mwy o waith eto i'w wneud. Croesawodd y sefydliadau hyn y diweddariad ynghylch y gwasanaeth adnabod y galwr yn benodol.

Ein hymateb

- A3.192 Rydyn ni wedi ymroi o hyd i fynd i'r afael â'r niwed i ddefnyddwyr a achosir gan alwadau niwsans. Ein prif nod yw canolbwyntio o hyd ar weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau mawr i ystyried mesurau technegol i leihau effaith galwadau niwsans, gan gynnwys drwy flocio ac atal galwadau.
- A3.193 Rydyn ni'n dal yn trafod pa mor ymarferol fyddai i fforwm diwydiant ddatblygu atebion strategol i fynd i'r afael â galwadau niwsans a sgamiau gyda'r diwydiant telegyfathrebiadau ac asiantaethau perthnasol eraill sy'n gorfodi'r gyfraith.
- A3.194 Mae'r Amod Cyffredinol C6.6 newydd yn mynnu bod darparwyr cyfathrebiadau yn cymryd camau rhesymol i ganfod a yw galwadau'n ddilys ac i atal galwadau o'r fath rhag cael eu cysylltu â defnyddwyr, os nad ydyn nhw'n ddilys.
- A3.195 Rydyn ni'n parhau i ymgysylltu'n agos â phartneriaid rhyngwladol ar ddatblygu atebion tymor hwy i'r drefn dilysu manylion adnabod y galwr. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi cais am dystiolaeth yn ystod gwanwyn 2019 a fydd yn trafod rhai o'r opsiynau ar gyfer gweithredu datrysiad rhifau strategol, gyda'r potensial i gefnogi trefn dilysu manylion adnabod y galwr yn y dyfodol.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol

- A3.196 Gofynnodd **Oneweb** ac un ymatebydd cyfrinachol i ni gefnogi eitemau penodol agenda Cynhadledd Radio'r Byd (WRC-19). Byddai **Intelsat** yn croesawu dull gweithredu sy'n fwy agored gan Ofcom er mwyn i rhanddeiliaid allu cyflwyno eu safbwyntiau ar eitemau agenda'r gynhadledd honno.
- A3.197 Fe wnaeth **Oneweb** annog Ofcom i reoleiddio'n effeithiol mewn cydweithrediad agos â phartneriaid yn Ewrop a pharhau i weithio gyda phartneriaid y llywodraeth i drawsosod rheoliadau Ewropeaidd perthnasol yng Nghyfraith Genedlaethol y DU mewn modd priodol a chymesur.

Ein hymateb

- A3.198 Gan weithio'n agos gyda'r Llywodraeth, bydd Ofcom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y DU a phartneriaid yn Ewrop i bennu safbwyntiau'r DU ac Ewrop ar gyfer Cynhadledd Radio'r Byd 2019, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau yn cyd-fynd â buddiannau'r DU. Wrth fynd â hyn rhagddo, bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod safbwyntiau'r holl ddefnyddwyr sbectrwm yn cael eu hystyried yn briodol.
- A3.199 Bydd Ofcom yn parhau i gynrychioli'r DU, o dan gyfarwyddyd gweinidogol, ar gyrff rhyngwladol fel yr Undeb Telegyfathrebiadau Ryngwladol (ITU) a'r Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT). Bydd perthynas Ofcom â rhwydweithiau rheoleiddio'r UE yn y dyfodol yn amodol ar drafodaethau rhwng y DU a'r UE. Bydd Ofcom yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chymheiriaid rheoleiddio o Ewrop a'r tu hwnt.

Mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwyd

A3.200 Fe wnaeth nifer o randdeiliaid gan gynnwys **BT, Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon, TalkTalk** a **Which?** dynnu sylw at bwysigrwydd mudo, yr angen i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed, gan gefnogi dull gweithredu Ofcom.

Ein hymateb

A3.201 Mae Ofcom yn cefnogi proses dda ar gyfer mudo i wasanaethau protocol llais dros y rhyngwyd (VoIP) a'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgil i ddarparu gwasanaethau sy'n addas ar gyfer y dyfodol sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid yn well. Ond, mae'n bwysig bod hyn yn amharu cyn lleied â phosib ar gwsmeriaid llinell dir, yn gwsmeriaid busnesau a chwsmeriaid preswyl. Er mai'r diwydiant sydd wedi arwain ar y penderfyniad i fudo gwasanaethau ffôn, bydd Ofcom yn parhau i chwarae rôl i helpu darparwyr i sicrhau nad yw hyn yn tarfu gormod ar gwsmeriaid a bod defnyddwyr agored i niwed yn cael eu diogelu, gan gynnwys drwy hwyluso'r cydlynu rhwng darparwyr a drwy weithio gyda chyrrff defnyddwyr, y llywodraeth a busnesau.

Gorfodi

A3.202 Dywedodd **Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon** y byddai'n croesawu diweddariad o'r adroddiad gorfodi bob chwarter neu ddwywaith y flwyddyn ar yr ystod o weithgareddau gorfodi i helpu i ddeall materion, patrymau ac unrhyw ffactorau, yn enwedig y rheini sy'n effeithio ar Ogledd Iwerddon.

A3.203 Roedd y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau** a'r **Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** yn gefnogol iawn o'n gwaith yn y maes hwn.

Ein hymateb

A3.204 Rydyn ni'n ceisio sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu cymryd yn deg, yn dryloyw, yn effeithlon ac yn amserol, er budd y bobl yn holl wledydd y DU. Yn unol â dyletswydd gyffredinol Ofcom i fod yn dryloyw, byddwn yn parhau i gyhoeddi manylion ymchwiliadau a rhaglenni cydymffurfio, lle bo hynny'n briodol.

Cydgysylltu

A3.205 Tynnodd **UKCTA** sylw at yr angen am gynnyrch cydgysylltu IP sy'n cael ei reoleiddio, er mwyn osgoi'r niwed a achosir gan gytundebau gwahaniaethol a dwyochrog sy'n cael eu gorfodi ar ddarparwyr cyfathrebiadau gan BT. Roedd **Magrathea** o'r farn bod adolygiad o'r farchnad band cul yn hollbwysig, ac nad yw'r rheoliadau presennol yn ddigon i ddiogelu cystadleuaeth.

Ein hymateb

A3.206 Cafodd materion sy'n ymwneud â chydgyssylltu sylw yn yr Adolygiad o'r Farchnad Band Cul yn 2017. Rydyn ni'n bwriadu ailedrych ar y rhain gyda'r nod o ddiweddarau'r rheoliadau yn

ystod gwanwyn 2021. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi cais am fewnbwn yn ystod gwanwyn 2019 a fydd yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddarparu tystiolaeth i helpu i lunio unrhyw newidiadau mewn rheoliadau.

Rheoli rhifau

A3.207 Croesawodd **Magrathea** waith Ofcom i edrych ar ddefnyddio technoleg cyfriflyfr a ddsberthir, fel cadwyn atal, i wella'r gwaith o reoli rhifau ffôn. Roedd yn annog Ofcom i gynnwys cynifer o gwmnïau â phosib yn y gwaith hwn.

Ein hymateb

A3.208 Rydyn ni hefyd yn gweld y fantais o ymgysylltu â chymuned budd eang. Mae gan y bwrdd sy'n goruchwyllo prosiect y gadwyn atal aelodau o bob rhan o'r diwydiant, fel sy'n wir hefyd am weithgor NICC³⁰ sy'n edrych ar hyn. Byddwn yn parhau i drafod â'r diwydiant wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, yn ogystal ag adrodd arno.

700 MHz – Cymorth ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig

A3.209 Croesawodd **Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain (BEIRG)** sicrwydd Ofcom ynghylch hwylustod defnyddio gwefan y cynllun ariannu, ac mae'n falch o weld mai 10 diwrnod yw hyd mwyaf y cyfnod rhwng dychwelyd offer a thalu. Mae BEIRG yn poeni am gapasiti ar gyfer ddychwelyd offer yn fisol, yn enwedig i hawl wyr mawr sydd â miloedd o eitemau i'w cyfnewid. Mae'n gobeithio y bydd Ofcom ac Equiniti yn gwneud newidiadau ar ôl iddyn nhw gael syniad mwy cywir o nifer yr eitemau i'w dychwelyd. Mae'n cefnogi penderfyniad Ofcom i gynyddu faint sy'n cael ei dalu i hawl wyr am gostau ychwanegol o 5% i 10%, ond mae'n siomedig na fydd gan y rheini, lle mae hyn yn effeithio arnyn nhw ac nad ydyn nhw'n berchen ar offer, yn cael cyfle i adennill y costau hyn.

A3.210 Mae **BEIRG** yn ddiolchgar am waith Ofcom i nodi'r bandiau sbectrwm newydd ar gyfer rhannu i greu rhaglenni a digwyddiadau arbennig, ond mae'n poeni bod Ofcom yn meddwl bod y gwaith wedi'i gwblhau ar adolygu gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, pan mae llawer i'w wneud. Mae'n credu y dylai rhaglen waith yn ymwneud â sbectrwm newydd ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig gael ei hychwanegu at Gynllun Blynyddol Ofcom. Gan mai ateb ar gyfer y DU yn unig yw'r bandiau hyn, hyn a hyn o offer sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y bandiau, felly roedd BEIRG yn annog Ofcom i barhau i hyrwyddo defnyddio'r bandiau hyn ar y cyd mewn fforymau rhyngwladol ac i ymrwymo i drafodaethau parhaus yn y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu, i sicrhau y bydd ystod eang o offer ar gael ar gyfer defnyddwyr i'w brynu. Ar ben hynny, dylai Ofcom ail-asesu pa mor addas yw band 1.35-1.4GHz band ar gyfer rhannu i greu rhaglenni a digwyddiadau arbennig, fel sydd wedi'i wneud mewn gwledydd Ewropeaidd eraill. Yn olaf, fe dynnon nhw sylw at bwysigrwydd rhoi sicrwydd na fydd symud i sbectrwm arall yn y dyfodol o ran creu rhaglenni a digwyddiadau arbennig.

³⁰ Mae NICC yn fforwm technegol ar gyfer sector cyfathrebiadau'r DU ac mae'n datblygu safonau ynghylch y 'gallu i ryngweithredu' ar gyfer gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu cyhoeddus yn y DU. <http://www.niccstandards.org.uk/>

Ein hymateb

- A3.211 Mae Ofcom wedi cysylltu â'r hawlwyrr sydd â stoc offer mawr sy'n cael ei ildio i'r cynllun ariannu ac mae'n gweithio gyda nhw i reoli'r broses yn effeithlon ac effeithiol.
- A3.212 Mae Ofcom yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau rhyngwladol ynghylch sbectrwm ar gyfer creu rhaglenni a digwyddiadau arbennig. Rydyn ni a BEIRG wedi trafod yr ansicrwydd ynghylch mynediad at y band 1.4GHz, sy'n destun penderfyniad y comisiwn. Gallwn gydlyn mynediad i'r band hwn fesul achos, ond mae'r diffyg sicrwydd ynghylch mynediad yn golygu na fyddai'n briodol clustnodi'r band hwn ar gyfer creu rhaglenni a digwyddiadau arbennig lle nad oes modd gwarantu hynny.

Mwy o sbectrwm ar gyfer cyfleustodau

- A3.213 Mae'r **Cydbwyllgor Radio** yn croesawu bod Ofcom yn ymgysylltu â'r diwydiant ar hyn o bryd i ddeall yn well beth yw anghenion telegyfathrebiadau gweithredol y cwmnïau cyfleustodau ynni, nawr ac yn y dyfodol. Mae'n tynnu sylw at y galw cynyddol i reoli'r rhwydwaith trydan ehangach, sydd angen mynediad i sbectrwm trwyddedig ychwanegol ar gyfer y cwmnïau cyfleustodau ynni, yn ddelfrydol 2x3MHz o'r band 400MHz, fel sydd wedi'i wneud yn lwerddon. Mae'r Cydbwyllgor Radio yn rhoi nifer o resymau dros yr angen i gael mynediad at sbectrwm ychwanegol (datblygiadau grid clyfar yn y dyfodol, cynyddu pwyntiau gwefru cerbydau trydan, cynhyrchu ynni fwy ar wasgar, gofynion rheoliadau NIS yn cynyddu llwyth data systemau telegyfathrebiadau gweithredol cwmnïau cyfleustodau bedair gwaith yn fwy).
- A3.214 Mae **Western Power Distribution** yn poeni am y mynediad i'r sbectrwm radio yn y dyfodol sydd ei angen i gynnal y systemau gweithredol presennol a'r newid a ragwelir i ddefnyddio'r 'Grid Clyfar'. Mae angen mwy o fynediad i sbectrwm ar gyfer yr un olaf, ac mae'n croesawu'r ffaith bod Ofcom yn ymgysylltu â'r diwydiant ar y mater hwn. Mae'n annog Ofcom i sicrhau bod adnoddau addas a goruchwyliaeth dros drefniant rheoleiddio sydd eisoes wedi'i sefydlu i sicrhau bod mwy o allu gan systemau telegyfathrebiadau gweithredol yn y dyfodol. Mae hyn yn ganolog i alluogi defnyddwyr a dinasyddion i allu defnyddio cerbydau trydan ac ynni sy'n cael ei gynhyrchu fwy ar wasgar.
- A3.215 Mae **WHP Telecoms Ltd** yn cyfeirio at y symudiad i gynhyrchu a defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Mae WHP yn credu bod angen mwy o sbectrwm i ddarparu'r cysylltedd ar gyfer gridiau clyfar, yn enwedig yn y band 450-470MHz. Mae'n credu bod Ofcom yn rhan ganolog o ddatrys y mater hwn, ac yn nodi ein bod eisoes yn ymgysylltu â phartneriaid perthnasol yn y diwydiant. Mae angen eglurder ar y diwydiant ynghylch pa sbectrwm fydd ar gael ar gyfer y grid clyfar, a dylai Ofcom nodi yn y cynllun blynyddol ei fwriad i weithio gyda'r diwydiant, y llywodraeth a rheoleiddwyr eraill i nodi sbectrwm.

Ein hymateb

- A3.216 Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r newid yn natur y galw am sbectrwm yn y sector ynni, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i bennu gofynion sbectrwm yn y dyfodol.

Adolygu'r sbectrwm ar gyfer radio analog

A3.217 Gofynnodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol fod Ofcom yn adolygu'r ymchwil sydd ar gael yn gyhoeddus / a ddarperir i Ofcom i weld a yw'r sbectrwm ar gyfer radio analog yn parhau i gael ei reoli'n effeithiol i gefnogi'r nifer fwyaf o orsafoedd sy'n gallu cael eu trwyddedu ar analog. Gofynnodd i Ofcom edrych ymhellach ar y cyfleoedd i barhau i ehangu'r capasiti ar gyfer darlledu ar radio analog, yn ogystal â datblygu'r achos dros ddarlledu ar raddfa fach ar radio digidol.

Ein hymateb

A3.218 Rydyn ni'n parhau i adolygu paramedrau ein gwaith cynllunio technegol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o sbectrwm ac i osgoi ymyriant niweidiol. Rydyn ni'n bwriadu gwneud rhagor o astudiaethau technegol dros y flwyddyn i gefnogi'r nod hwn, ar gyfer radio analog a DAB.

Adennill costau gwaith ffeilio lloerennau

A3.219 Fe wnaeth un ymatebydd cyfrinachol annog Ofcom i gwblhau llunio ei reolau ar adennill costau gwaith ffeilio lloerennau, ac mae'n credu y dylai Ofcom fabwysiadu ffi sefydlog gyda'r costau ychwanegol i'w haddasu i bob cais unigol.

Ein hymateb

A3.220 Rydyn ni wedi ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad ar ffioedd ffeilio lloerennau, a byddwn yn cyhoeddi datganiad ar 14 Mawrth.³¹

Strategaeth rheoli sbectrwm

A3.221 Fe wnaeth **Nominet** annog Ofcom i ystyried blaenoriaethu cynigion rheoli sbectrwm deinamig ac, yn benodol, eu cynnwys yn ein cynllun blynyddol ar gyfer 2019/2020. Fe wnaeth **Three** annog Ofcom i ystyried gofynion sbectrwm 5G wrth wneud penderfyniadau ynghylch mynediad a rennir, ac i ystyried gofynion tymor canolig a thymor hwy gwasanaethau 5G, yn enwedig Mynediad Di-Wifr Sefydlog, er mwyn llunio unrhyw fframwaith mynediad sbectrwm a rennir sydd â digon o hyblygrwydd i ddefnyddio'r sbectrwm yn effeithlon.

A3.222 Fe wnaeth y **Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cyngori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl** annog Ofcom i fod yn fwy arloesol wrth ddyrannu'r sbectrwm, ac maen nhw wedi galw am gymal 'defnyddio neu gollu' cyn heddiw. Mae'r ffaith bod y band 700MHz yn cael ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig yn codi eu calon.

Ein hymateb

³¹ Ofcom, Datganiad: Adennill costau gwaith ffeilio lloerennau, <https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/satellite-filings-cost-recovery>

- A3.223 Rydyn ni'n ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriadau ar ddyfarnu bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8GHz a Galluogi Cyfleoedd ar gyfer Arloesi. Ein bwriad yw cyhoeddi datganiadau terfynol yn ystod yr haf.
- A3.224 Byddwn hefyd yn ystyried y fframwaith ar gyfer dyrannu'r sbectrwm yn y tymor hwy fel rhan o'n gwaith strategaeth sbectrwm.

Dull o ddatblygu polisiau

- A3.225 Mae **BT** am weld mwy o gysoni rhwng rhaglenni gorfodi a datblygiad polisi Ofcom a ffordd fwy strwythuredig o ddysgu gwersi yn sgil camau gorfodi.

Ein hymateb

- A3.226 Rydyn ni'n cymryd camau gorfodi mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio â gofynion rheoleiddio neu ofynion statudol er mwyn atal niwed i ddefnyddwyr a chystadleuaeth, ac i unioni hyn os gallwn. Hefyd, efallai y byddwn yn rhoi cosb i rwystro unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Rydyn ni'n cytuno y dylai'r camau gorfodi adlewyrchu ac atgyfnerthu amcanion polisi ehangach Ofcom, gan sicrhau bod pob ymchwiliad o fudd i ddefnyddwyr. Rydyn ni am sicrhau bod camau gorfodi'n cael eu cymryd yn deg, yn dryloyw, yn effeithlon ac yn amserol, ac rydyn ni'n croesawu adborth gan randdeiliaid am hyn.

Cytundeb cydgysylltu C7

- A3.227 Roedd **Telecom2** yn poeni bod marchnadoedd yn cael eu niweidio gan ymddygiad rhai darparwyr cyfathrebiadau mawr sy'n camddefnyddio cytundeb cydgysylltu C7, a bod hyn yn arwain at effaith negyddol o ran arloesi, ac yn achosi rhai darparwyr rhag ymuno â'r farchnad, neu i adael y farchnad.

Ein hymateb

- A3.228 Bydd Ofcom yn cymryd camau gorfodi er budd defnyddwyr, ac yn hyrwyddo cystadleuaeth lle y bo'n briodol. Rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid agor ymchwiliadau ar sail achosion unigol, gan ystyried ein dyletswyddau statudol, ac yn ceisio arfer ein disgresiwn i dargedu ein gwaith ar achosion sydd, yn ein barn ni, fwyaf tebygol o arwain at ganlyniadau da i ddinasyddion a defnyddwyr. Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan am ein dull o orfodi a sut i gyflwyno cwynion am ddiffyg cydymffurfio posib gan fusnes sydd â gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol perthnasol.